

Agenda – Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a

Chyfathrebu

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd	Steve George
Dyddiad: Dydd Mercher, 10 Mai 2017	Clerc y Pwyllgor
Amser: 09.15	0300 200 6565
	SeneddDGCh@cynulliad.cymru

Rhag-gyfarfod anffurfiol

(09.15–09.30)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2 Dyfodol S4C: Sesiwn dystiolaeth 9

(09.30–10.30)

(Tudalennau 1 – 12)

Alun Davies AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Paul Kindred, Uwch-ddadansoddwr Polisi

3 Craffu ar y Cynllun Ieithoedd Swyddogol drafft: Sesiwn dystiolaeth

(10.30–11.30)

(Tudalennau 13 – 100)

Adam Price AC, Comisiynydd y Cynulliad
Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Comisiwn
Sarah Dafydd, Rheolwr y Cynllun Ieithoedd Swyddogol

Ymatebion i'r Ymgynghoriad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Y Cynllun Ieithoedd Swyddogol drafft

(Tudalennau 101 – 131)



4 Trwydded weithredu ddrafft ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU: Sesiwn Dystiolaeth gydag Ofcom Cymru

(11.30–12.15)

(Tudalennau 132 – 188)

Rhodri Williams, Cyfarwyddwr, Ofcom Cymru

Jacque Hughes, Cyfarwyddwr Polisi, Ofcom Cymru

5 Papur(au) i'w nodi

Llythyr at y Cadeirydd gan Beverly Francis: Yr Ymgyrch i Achub Stryd Womanby

(Tudalen 189)

Ymateb S4C i Argymhellion yr Adroddiad: Y Darlun Mawr – Safbwyntiau cychwynol y Pwyllgor ar Ddarlledu yng Nghymru

(Tudalen 190)

Dyfodol S4C: Rhagor o wybodaeth gan Teledwyr Annibynnol Cymru (TAC)

(Tudalennau 191 – 192)

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 7

7 Ôl-drafodaeth breifat

(12.15–12.30)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Papur Pwyllgor Llywodraeth Cymru : Ymchwiliad i S4C y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu:

Pwysigrwydd Ymchwiliad y Pwyllgor

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu ymchwiliad y Pwyllgor i ddyfodol S4C, ymchwiliad a fydd yn helpu i sicrhau y caiff y prif faterion yn y drafodaeth am ddyfodol y gwasanaeth hanfodol hwn eu mynegi a'u deall hyd yn oed cyn i'r adolygiad annibynnol o'r sianel ar gyfer Llywodraeth y DU gychwyn.

Er ein bod yn croesawu bwriad Llywodraeth y DU i gynnal adolygiad o S4C, adolygiad yr ydym wedi galw amdano yn gyson ac a addawyd yn wreiddiol yn 2010, mae'n anffodus nad yw'r adolygiad eisoes ar y gweill, a hynny ers tro byd. Mae Llywodraeth y DU yn ymwybodol ein bod yn disgwyl chwarae rhan lawn yn yr adolygiad ac rydym yn dal i aros i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gadarnhau'r manylion terfynol o ran cwrpas yr adolygiad a phwy fydd yn ei arwain.

Cyllid S4C

Mae dyletswydd statudol ar yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, fel yr amlinellir yn Neddf Cyrff Cyhoeddus 2001, i sicrhau bod S4C yn cael cyllid digonol. Ers yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yn 2010, mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi'n gyson ei phryder gwirioneddol ynghylch yr effaith a gaiff toriadau cyllid pellach ar S4C. Rydym wedi pwysleisio'n gyson i Lywodraeth y DU ei bod yn hanfodol bod gan S4C gyllid digonol, yn ogystal ag annibyniaeth olygyddol a rheolaethol, iddi barhau i allu gwasanaethu'r gynulleidfa Gymraeg ac i chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi'r Gymraeg a'r diwydiannau creadigol yng Nghymru – ond mae S4C wedi cael ei hun mewn sefyllfa wahanol iawn ers yr Adolygiad o Wariant yn 2010. Bellach, mae 90% o gyllid S4C yn dod o ffi'r drwydded.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi chwarae rhan lawn yn y broses o adolygu Siarter y BBC ac rydym yn falch bod Siarter newydd y BBC yn cynnwys ymrwymiad o'r newydd i wasanaethau Cymraeg. Mae'r Cytundeb Fframwaith sy'n cyd-fynd â'r Siarter yn cadarnhau partneriaeth y BBC ag S4C, partneriaeth sy'n seiliedig ar gydweithio i gadw a diogelu annibyniaeth y naill gorff a'r llall. Mae hefyd yn rhoi setliad ariannol cadarn mewn perthynas â'r elfen o gyllid S4C a ddaw o ffi'r drwydded, sy'n hanfodol bwysig i S4C allu parhau i ddatblygu ei gwasanaethau.

Mae'r ansicrwydd yn y blynyddoedd diwethaf mewn perthynas â chyllid ar gyfer y dyfodol wedi gwneud blaengynllunio'n anodd iawn, i S4C ac i'r cwmnïau cynhyrchu annibynnol sy'n rhai o brif gyflenwyr y sianel yng Nghymru. Er bod y setliad yn rhoi sefydlogrwydd ariannol i S4C tan 2022, bydd y ffaith nad oedd dim cynnydd yn y cyllid, am na roddwyd ystyriaeth i chwyddiant, yn naturiol yn cyflwyno heriau sylweddol i'r sianel.

Gobeithio y bydd nifer o gyhoeddiadau diweddar yn sefydlogi sefyllfa ariannol S4C. Ymhlith y rhain mae pecyn Llywodraeth y DU o gyllid ychwanegol – cyllid cyfalaf a chyllid benthyciadau – yn ogystal â phenderfyniad Llywodraeth Cymru i ddyrannu £3

miliwn o gyllid cyfalaf ar gyfer cefnogi Yr Egin – prosiect sydd â'r bwriad o sefydlu canolfan arloesol ar gyfer y diwydiannau creadigol yng Nghaerfyrddin, o amgylch Pencadlys newydd S4C.

Perthynas â'r BBC a rhanddeiliaid eraill

Croesawodd Llywodraeth Cymru y cyhoeddiad yn 2013 fod Ymddiriedolaeth y BBC ac Awdurdod S4C wedi dod i gytundeb chwe blynedd mewn perthynas â chyllid, llywodraethu ac atebolrwydd S4C yn y dyfodol. Yn bwysig ddigon, roedd y cytundeb hefyd yn gwarchod annibyniaeth olygyddol a rheolaethol S4C. Mae Llywodraeth Cymru wedi'i chalonogi gan y cynnydd yn y cydweithredu rhwng y BBC ac S4C – a hefyd gan y ffaith bod y Cytundeb Gweithredu yn llawer ehangach na'r trefniadau cyllido ac atebolrwydd, gan ymestyn i bartneriaeth greadigol ar bob lefel o fewn y BBC ac S4C.

Rydym hefyd yn croesawu'r bartneriaeth gryfach sydd wedi datblygu dros y blynyddoedd diwethaf rhwng Radio Cymru ac S4C. Dim ond un gwasanaeth radio Cymraeg ac un gwasanaeth teledu Cymraeg sydd ar gael o hyd. Mae felly'n hanfodol bod y bartneriaeth rhwng y ddau wasanaeth hyn mor gynhyrchiol a llawn dychymyg â phosibl.

O ystyried y newidiadau sylfaenol sydd yn Siarter newydd y BBC – newidiadau i'w threfniadau rheoli, llywodraethu a rheoliadol; i rôl BBC Studios; ac i ddibenion cyhoeddus cryfach y BBC fel y maent yn berthnasol i'r gwledydd – mae'n hanfodol y caiff y bartneriaeth rhwng S4C a'r BBC ei diweddarau a'i hadnewyddu, er mwyn cefnogi a galluogi gwasanaethau S4C i dyfu ac arallgyfeirio mewn byd aml-lwyfan.

Yn ogystal â gweithio ar draws llwyfannau, dylai S4C barhau i weithio mewn partneriaeth ag awduron, artistiaid ac eraill o Gymru (e.e. cwmnïau gemau a gweithwyr creadigol eraill yn y maes digidol); dylai hefyd gryfhau'r cysylltiadau presennol gyda sefydliadau fel Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru a phartneriaid eraill. Dylai S4C sicrhau ei bod yn comisiynu mwy o raglenni yn seiliedig ar eiddo deallusol o Gymru ac am Gymru a'i bod yn datblygu arlwy aml-lwyfan sy'n canolbwyntio ar yr eiddo deallusol hwnnw mewn partneriaeth ag eraill (e.e. y potensial i gydgyssylltu drwy lyfrau / ar-lein / gemau). Byddai hyn yn cyflwyno cynnig cyfoethocach a mwy deniadol ac yn cefnogi twf pellach yn y sector creadigol yng Nghymru.

Rôl bwysig S4C wrth gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru – y Gymraeg a'r Diwydiannau Creadigol

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu cyhoeddiad diweddar S4C, "Gwthio'r Ffiniau", sy'n amlinellu gweledigaeth y sianel ar gyfer y deng mlynedd nesaf ac sydd hefyd yn tanlinellu pwysigrwydd S4C wrth gyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y diwydiannau creadigol a'r Gymraeg. Wrth i genhadaeth S4C esblygu, doeth fyddai ystyried a yw'r trefniadau llywodraethu a rheoleiddiol yn dal i fod yn addas at y diben.

Croesawodd Llywodraeth Cymru benderfyniad S4C i symud ei phencadlys i Gaerfyrddin erbyn 2018. Bydd hyn yn enghraifft o sefydliad mawr yn symud ei

weithrediadau y tu allan i'r brifddinas, gan greu cyfleoedd am waith yn lleol mewn maes arbenigol a rhoi hwb i'r economi ehangach. Mae potensial hefyd y bydd yn hwb sylweddol i'r Gymraeg mewn ardal sy'n hanfodol bwysig i ddyfodol yr iaith. Bydd symud pencadlys S4C yn ategu datblygiadau eraill i hyrwyddo'r Gymraeg, gan gynnwys y Ganolfan Gymraeg yng Nghaerfyrddin.

Yn y 30 mlynedd a mwy ers iddi fod yn gweithredu, mae S4C wedi chwarae rhan arweiniol wrth hyrwyddo a diogelu'r Gymraeg. Mae ganddi rôl allweddol a pharhaus i'w chwarae wrth sicrhau bod yr iaith yn parhau i ffynnu. Mae'n cynorthwyo wrth sefydlu a bywiogi'r Gymraeg fel rhan o fywyd bob dydd yng Nghymru, ac mae ei gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn gwneud cyfraniad pwysig at gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg. Drwy ei rhaglenni ffeithiol, hanesyddol a diwylliannol, mae S4C yn cyfoethogi cymdeithas yng Nghymru. Mae gan S4C ran bwysig i'w chwarae o hyd wrth helpu pobl o bob cefndir i ddysgu Cymraeg, gydag amrywiaeth o adnoddau wedi'u darlledu ac ar-lein. Mae ganddi ran bwysig i'w chwarae yn y gwaith o gyflwyno'r weledigaeth sydd yn Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru a chyfrannu at y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae hanes ein diwydiannau creadigol yn un o lwyddiant yng Nghymru ac maent yn gwneud cyfraniad hanfodol at ein heconomi. Mae polisi comisiynu S4C wedi cyfrannu'n sylweddol at y twf yn y sector cyfryngau annibynnol yng Nghymru, yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bellach mae gan Gymru nifer o gwmnïau cynhyrchu annibynnol tra llwyddiannus sy'n creu cynnwys ar gyfer nifer o sianelau a rhwydweithiau, ond chwaraeodd S4C ran ganolog yn eu datblygiad cychwynol.

Mae gan S4C ran allweddol i'w chwarae wrth ddatblygu sgiliau ac mae ganddi'r cyfle i wneud mwy yn y maes hwn o bosibl drwy weithio mewn partneriaeth â'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill, gyda chyrff masnach, undebau a Cymru Greadigol pan fydd wedi'i sefydlu, er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer datblygu talent yng Nghymru.

Atebolrwydd

Roedd Comisiwn Silk yn cefnogi ein barn y dylai'r cyfrifoldeb polisi cyffredinol dros ddarlledu aros gyda Llywodraeth y DU. Mewn amgylchedd digidol sy'n esblygu'n gyflym, lle mae'r darlledwyr yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o greu dinasyddiaeth ddiwylliannol gyffredin i bobl ar draws y DU, ni fyddai rhannu'r cyfrifoldeb cyffredinol dros ddarlledu yn cryfhau'r system Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus ar hyn o bryd – ond nid yw hynny'n golygu y dylai darlledwyr a'r rheoleiddiwr fod yn atebol i San Steffan yn unig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn galw ers peth amser ar i drefniadau llywodraethu darlledu adlewyrchu'r sefyllfa ddatganoledig sydd ohoni yn y DU a chefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion polisi sydd wedi'u pennu yng Nghymru, ar gyfer Cymru. Roeddem felly'n croesawu'r cyfeiriadau ym Mhapur Gorchymyn Dydd Gŵyl Dewi at gynyddu atebolrwydd darlledwyr, gan gynnwys S4C.

Argymhellodd adroddiad y Pwyllgor *Y Darlun Mawr: Safbwyntiau Cychwynol y Pwyllgor ar Ddarlledu yng Nghymru* y dylai Awdurdod S4C osod ei adroddiad blynyddol a datganiadau archwiliedig o gyfrifon gerbron Cynulliad Cenedlaethol

Cymru. Mater i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac S4C yw hwn, ond mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd gwella atebolrwydd sefydliadau darlledu'r DU i'r Cynulliad ac i wylwyr a gwrandawyr yng Nghymru.

Yn dilyn yr Adolygiad o Siarter y BBC, mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach bwerau i graffu ar y BBC, i alw arni i ymddangos gerbron y Cynulliad ac i'w dwyn i gyfrif yn uniongyrchol – hawl a oedd wedi'i neilltuo i Senedd y DU cyn hynny.

Byddai trefniant tebyg i S4C yn sicrhau y bydd S4C yn cael ei thrin yn yr un modd â'r BBC.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Comisiwn y Cynulliad Assembly Commission

Cynllun Ieithoedd Swyddogol 2017 – 2021

1.0 Diben a chrynodeb

1.1 Mae'r papur hwn yn cynnwys cynigion ar gyfer Cynllun Ieithoedd Swyddogol newydd Comisiwn y Cynulliad ar gyfer y Pumed Cynulliad i'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu i'w ystyried. Mae hefyd yn ceisio sylwadau'r Pwyllgor ar y Cynllun newydd a'r adroddiad blynyddol a fydd yn cau'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol presennol ac a fydd yn parhau ar waith hyd nes y caiff y Cynllun newydd ei gymeradwyo gan y Cynulliad mewn Cyfarfod Llawn.

2.0 Argymhellion

2.1 Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a gwneud sylwadau ar y canlynol:

- fersiwn ddrafft ein Cynllun Ieithoedd Swyddogol (Atodiad A) yn dilyn ymgynghoriad mewnol ac allanol ac a gytunwyd gan Gomisiwn y Cynulliad;
- yr adroddiad blynyddol drafft (Atodiad B) cyn ei osod i'w ystyried mewn Cyfarfod Llawn i gau'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol presennol.

3.0 Cefndir Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) a'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol

3.1 Cafodd Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) (Cymru) ei gymeradwyo'n unfrydol gan y Cynulliad ar 3 Hydref 2012. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ynghylch y defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg yn nhrefodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wrth gyflawni swyddogaethau Comisiwn y Cynulliad. Prif amcan y Ddeddf yw ei gwneud yn ddyletswydd statudol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiwn y Cynulliad i drin y Gymraeg a'r Saesneg fel ein Ieithoedd Swyddogol ac yn gyfartal.

AC(5)2017(1) Papur 3

Cynllun Ieithoedd Swyddogol 2017–2021

3.2 Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i fabwysiadu a chyhoeddi Cynllun Ieithoedd Swyddogol sy'n nodi'r mesurau y bydd yn eu cymryd er mwyn cydymffurfio â'i ddyletswyddau fel yr amlinellir yn y Ddeddf. Ymhlith pethau eraill, rhaid i'r Cynllun gynnwys darpariaeth ynghylch:

- cyfieithu ar y pryd;
- cyhoeddi dogfennau yn y ddwy iaith swyddogol, yn amodol ar unrhyw eithriadau a nodir yn y Cynllun;
- ymgysylltu â'r cyhoedd o ran trafodion y Cynulliad, a swyddogaethau eraill y Cynulliad a Chomisiwn y Cynulliad;
- mesurau ymarferol i feithrin a gwella'n barhaus yr hawl i ddewis pa iaith swyddogol i'w defnyddio;
- pennu targedau ac amserlenni ar gyfer gweithredu'r Cynllun;
- dyrannu cyfrifoldebau ar gyfer gweithredu'r Cynllun;
- dulliau gwrthrychol o fesur cynnydd wrth weithredu'r Cynllun;
- strategaeth ar gyfer sicrhau bod gan staff y Cynulliad, ar y cyd, y sgiliau iaith sydd eu hangen er mwyn gweithredu'r Cynllun; a
- darpariaeth sy'n ymwneud â chasglu, ymchwilio ac ystyried cwynion o fethiannau i roi darpariaethau'r Cynllun ar waith.

3.3 Rhaid i Gomisiwn y Cynulliad hefyd, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, osod gerbron y Cynulliad adroddiad yn nodi sut y mae'r Comisiwn wedi rhoi'r Cynllun ar waith, h.y. a gafodd y gwasanaethau y cyfeirir atynt yn y Cynllun eu darparu ac i ba raddau, ac os yw'n berthnasol, y rhesymau pam nad yw'r Comisiwn wedi darparu unrhyw un o'r gwasanaethau hyn. Mae'r Adroddiad Blynyddol terfynol ar gyfer y Cynllun presennol wedi'i atodi yn Atodiad B. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad. Caiff yr adroddiad ei fformadu i gynnwys lluniau a delweddau er mwyn dangos rhai o'n llwyddiannau.

4.0 Ymgynghoriad

4.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y Cynllun drafft ym mis Tachwedd 2016, ac mae sylwadau'r ymgynghoreion wedi helpu i lunio'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol drafft sydd wedi cael ei gymeradwyo gan Gomisiwn y Cynulliad ac sydd gerbron y Pwyllgor. Drwy gydol yr ymgynghoriad

AC(5)2017(1) Papur 3

Cynllun Ieithoedd Swyddogol 2017–2021

roedd y Cynllun drafft ar gael ar wefan y Cynulliad, ac fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf, buom yn ymgynghori yn benodol â'r canlynol:

- Aelodau'r Cynulliad drwy e-bost a sesiynau galw heibio.
- Bwrdd Rheoli'r Cynulliad, Ochr yr Undebau Llafur, ein Rhwydweithiau Cydraddoldeb yn y Gweithle, hysbysiad ar fewnrwyd y staff, sesiynau galw heibio a thrwy system raeadru drwy ein cydgysylltwyr Cynllun Iaith Swyddogol, i staff ym mhob maes gwasanaeth.
- grwpiau sydd â diddordeb – Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, Dyfodol yr Iaith.

4.2 Ceir crynodeb o'r ymatebion isod.

Yn gyffredinol, mae'r ymatebion allanol i'r ymgynghoriad wedi bod yn gefnogol, gan gydnabod y cynnydd a wnaed hyd yma. Roedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn rhannu rhai pryderon nad yw'r Cynllun yn mynd yn ddigon pell a gwnaeth awgrymiadau penodol ar dargedau y dylid eu pennu ar gyfer gweinyddiaeth fewnol a chynyddu lefel y siaradwyr Cymraeg rhugl yn y sefydliad.

Mae'r ymatebion o'r ymgynghoriad mewnol hefyd wedi bod yn gefnogol ar y cyfan. Mae'r system Cyfeillion Cyswllt wedi cael ei groesawu i raddau helaeth gan yr Aelodau a'u staff fel cam ymlaen i wella'r gwasanaethau i'r Aelodau.

Ymhlith staff y Comisiwn, roedd cymysgedd o safbwyntiau. Teimla rhai fod y Cynllun drafft yn gam ymlaen sy'n adeiladu ar y sylfeini a osodwyd yn y Cynllun cyntaf, ac roedd eraill yn teimlo nad oedd y Cynllun yn mynd yn ddigon pell. Y prif bryder i staff yw cyflwyno lefelau sgiliau iaith ar gyfer pob swydd newydd ac, yn benodol, gosod lefel cwrteisi ieithyddol sylfaenol fel isafswm ar gyfer pob swydd. Cafodd hyn ei adlewyrchu yn y sylwadau a gafwyd, er bod aelodau eraill o staff yn teimlo bod y bar wedi'i osod yn rhy isel.

Ochr yn ochr â'r Cynllun, rydym hefyd wedi bod yn gweithio ar Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb er mwyn sicrhau nad yw'r cynnig i gyflwyno

AC(5)2017(1) Papur 3

Cynllun Ieithoedd Swyddogol 2017–2021

gofyniad sydd o leiaf yn cynnig cwrteisi ieithyddol sylfaenol mewn hysbysebion swyddi yn peryglu ceisiadau am swyddi gan bobl o gefndiroedd amrywiol. Mae hyn wedi nodi nifer o gamau a fydd yn gwella ein tudalennau recriwtio ac yn dangos ein bod yn gyflogwr sy'n amrywiol o ran natur ac sy'n croesawu ymgeiswyr o bob un o'n cymunedau.

Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a gwneud rhai addasiadau i rannau amrywiol o'r Cynllun drafft, mae'r fersiwn a gytunwyd gan y Comisiwn, ac sydd bellach gerbron y Pwyllgor, yn cynrychioli cam ymlaen o ran darparu gwasanaeth a dull cytbwys er mwyn mynd â ni tuag at gyflawni ein huchelgais.

5.0 Trafodaeth

5.1 Mae'r Cynllun drafft newydd yn adeiladu ar ddiwylliant dwyieithog y Cynulliad ers ei sefydlu ym 1999. Mae cynlluniau olynol wedi nodi'r safonau yr ydym yn atebol iddynt. Symudodd datblygiadau a gyflwynwyd o dan Ddeddf 2012 a'i Chynllun â ni ymhellach ymlaen o ran darparu gwasanaeth dwyieithog a thrin y ddwy iaith yn gyfartal. Gwnaethom hefyd gyflwyno'r egwyddor o alluogi Aelodau'r Cynulliad, eu staff cymorth a'r cyhoedd i weithio neu i ymgysylltu â ni yn eu hiaith swyddogol o ddewis. Mae'r datblygiadau hynny, a'r newidiadau diwylliannol sydd wedi dod i'r amlwg, yn ein rhoi mewn sefyllfa hyd yn oed yn gryfach o gymharu â llawer o gyrff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Ymhlith yr uchafbwyntiau mae'r canlynol:

- gweithredu model byd-eang Cymru ar gyfer Microsoft Translator sydd wedi sicrhau arbedion effeithlonrwydd yn ein Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi ac wedi galluogi defnyddwyr di-Gymraeg i gael bras gyfieithiad o ohebiaeth Gymraeg yn unig er mwyn sicrhau ymateb cyflymach i ohebiaeth;
- caiff dogfennau briffio pwrpasol, sy'n adlewyrchu dewisiadau iaith unigol yr Aelodau, a geirfaoedd termau technegol Cymraeg ar gyfer Biliau ac ymchwiliadau eu darparu erbyn hyn i'r holl bwyllgorau, sy'n galluogi'r Aelodau i weithio'n haws yn yr iaith o'u dewis;

AC(5)2017(1) Papur 3

Cynllun Ieithoedd Swyddogol 2017–2021

- strategaeth sgiliau dwyieithog sydd wedi galluogi staff y Comisiwn i wella'r broses o gynllunio a chyflwyno gwasanaethau dwyieithog yn seiliedig ar asesiad o lefelau sgiliau presennol, gwaith cynllunio iaith gwell i sicrhau bod gallu dwyieithog ar y lefel gywir ac yn y lle iawn. Yn ogystal â hyn rydym wedi datblygu Tîm Sgiliau Iaith mewnol sy'n darparu ystod lawn o gymorth i ddechreuwr ac unigolion sydd eisoes yn rhugl yn y Gymraeg ac sydd am fagu mwy o hyder neu wella eu gramadeg a'u Cymraeg ysgrifenedig;
- drwy adeiladu ar ein henw da rhyngwladol fel sefydliad seneddol dwyieithog a'n gwaith gyda Microsoft Translator a'i argaeledd yn fyd-eang, rydym yn darparu nifer o gyflwyniadau i gynadleddau a sefydliadau ar y ffordd y mae technoleg wedi trawsnewid y ffordd rydym yn gweithio yn ddwyieithog a'n hymagwedd tuag at ddysgu Cymraeg;
- mae datblygu a chyflwyno cortynnau gwddf i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg wedi arwain at newid mewn ethos drwy annog Cymraeg i gael ei siarad a'i defnyddio yn naturiol ac yn rhagweithiol ar ystâd y Cynulliad ac o'i chwmpas;
- mae argaeledd ein polisïau Adnoddau Dynol a system ar-lein yn Gymraeg, yn ogystal â chynyddu gallu dwyieithog o fewn y tîm Adnoddau Dynol yn sicrhau bod rheoli perfformiad, cwynion, recriwtio, disgyblu a swyddogaethau eraill Adnoddau Dynol yn cael eu cynnig a'u hwyluso yn y naill iaith yn rhagweithiol; ac
- mae targedau, blaenoriaethau a gwelliannau gweithredol eraill a nodir yn y Cynllun ar gyfer 2013–2016 bellach wedi cael eu cynnwys yn ein safonau gwasanaeth ar gyfer y Cynllun newydd. Byddwn yn parhau i fod yn atebol am y rhain yn y cylch adrodd blynyddol drwy ystyriaeth yn y Cyfarfod Llawn.

6.0 Themâu a thargedau ar gyfer y Cynllun newydd

6.1 Caiff y Cynllun drafft ei strwythuro mewn ffordd debyg i'r Cynllun presennol gan ei fod yn nodi grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth yn hawdd a'r safonau y gallant eu disgwyl gennym ni:

- a) Ein huchelgais

AC(5)2017(1) Papur 3

Cynllun Ieithoedd Swyddogol 2017–2021

- b) Ein safonau gwasanaeth
 - ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff
 - ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu â phobl Cymru
 - ar gyfer ein staff
- c) Themâu ar gyfer cyfnod y Cynllun
- d) Y trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd

6.2 Gan adeiladu ar y llwyfan yr ydym wedi'i datblygu a'n llwyddiannau o dan y Cynllun presennol, yn ogystal â datblygiad pellach ein diwylliant o weithio'n ddwyieithog, credwn fod mwy i'w wneud o hyd er mwyn ein galluogi i gyflawni ein huchelgais o fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog erbyn 2021. Gyda hyn mewn golwg, rydym wedi mireinio ein datganiad uchelgais i nodi ein dyheadau i wella ein gwasanaethau dwyieithog yn ogystal ag annog, hwyluso a brodori gweithio'n ddwyieithog mewn modd rhagweithiol. Felly, cynigir yr uchelgais ganlynol fel y gyrrwr strategol ar gyfer y Cynllun drafft tan 2021:

“Ein huchelgais yw i fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog lle y gall Aelodau'r Cynulliad, y cyhoedd a'r staff ddewis gweithio neu gyfathrebu'n naturiol drwy ddefnyddio'r naill iaith swyddogol neu'r llall, neu'r ddwy iaith, lle caiff y defnydd o'r ddwy iaith ei annog a'i hwyluso yn frwd, a lle y caiff ein gwasanaethau dwyieithog rhagorol eu hehangu a'u gwella yn barhaus.”

6.3 I gefnogi'r broses o gyflwyno'r uchelgais hon, rydym wedi datblygu pum thema a fyddai'n ein galluogi i ddisgrifio ein hunain yn hyderus fel sefydliad gwirioneddol ddwyieithog erbyn 2021. Caiff y themâu hyn a'r camau gweithredu penodol sy'n ofynnol i'w cefnogi eu disgrifio yn fanylach ar dudalennau 33 – 38 o'r Cynllun drafft. Fodd bynnag, cânt eu darparu ar ffurf gryno isod:

- **Recriwtio** – Wedi'u cefnogi gan ganllawiau i ymgeiswyr a rheolwyr recriwtio, rydym yn cynnig mabwysiadu dull lle bydd yr holl swyddi a hysbysebhir gan Gomisiwn y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol

cael o leiaf lefel sylfaenol o sgiliau iaith Gymraeg (cwrteisi ieithyddol sylfaenol) pan gaiff rhywun ei benodi neu ymrwymiad i ennill y sgiliau hynny yn ystod y broses gynefino. Byddwn yn datblygu dull mwy soffistigedig o bennu lefelau rhuglder sy'n ofynnol ar gyfer swyddi sy'n cael eu hysbysebu ac yn disgrifio'r gofynion ieithyddol yn yr hysbyseb swydd wrth inni symud i ffwrdd o'r ymagwedd ddeuaidd, sef "Cymraeg yn hanfodol" neu "Cymraeg yn ddymunol" nad yw wedi hwyluso'r broses o recriwtio gallu dwyieithog bob amser lle mae ei angen. Mae'r trefniadau hyn wedi cael eu treialu ar gyfer nifer o gynlluniau recriwtio fel y gellir rhoi system ar waith erbyn haf 2018. Bydd newidiadau hefyd yn cael eu cefnogi gan adnoddau ar-lein ar gyfer ymgeiswyr posibl.

- **Sgiliau iaith** – Mae'r Comisiwn yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddatblygu neu wella sgiliau iaith unigolion. Mae ein Tîm Sgiliau Iaith mewnol bellach ar waith ac rydym yn gweld mwy o ddysgwyr, dysgwyr sy'n gwella a siaradwyr Cymraeg rhugl nag erioed o'r blaen. Ein nod yw darparu llawer mwy o ffocws ar ddysgu Cymraeg ar gyfer y gweithle, pennu targedau ar gyfer dysgwyr a chydabod cyflawniadau. Caiff cynnydd ar gyfer dysgwyr ei fapio a bydd yn bwydo yn fwy ffurfiol i ystyriaeth am allu dwyieithog o fewn meysydd gwasanaeth. Rhoddir llawer mwy o bwyslais ar ddarparu dysgu pwrpasol neu ddysgu penodol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a grwpiau penodol o staff y Comisiwn, fel y tîm Diogelwch, lle nad yw hyfforddiant ystafell ddosbarth yn ymarferol. O ystyried yr ystod o ymyriadau arfaethedig, rydym yn gobeithio gweld ein dysgwyr yn defnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg yn rhagweithiol o amgylch yr ystâd ac yn ein trafodion ffurfiol.
- **Cynllunio iaith** – Wedi'u cyflwyno ar draws pob maes gwasanaeth yn ystod oes y Cynllun presennol, mae cynlluniau iaith wedi bod yn adnodd effeithiol sy'n galluogi penaethiaid gwasanaeth i ystyried eu gallu dwyieithog presennol yn well, yn ogystal ag unrhyw anghenion ychwanegol sy'n ofynnol o ran y gwasanaethau y maent yn eu darparu ac i gynnwys y rhain mewn cynlluniau recriwtio. Gan adeiladu ar y cynlluniau sydd ar waith, rydym yn cynnig system fwy

AC(5)2017(1) Papur 3

Cynllun Ieithoedd Swyddogol 2017–2021

cadarn o olrhain datblygiad sgiliau ein dysgwyr Cymraeg, eu cynnwys yn ein cylchoedd cynllunio gallu blynyddol ac adrodd ar gynnydd. Yn ystod oes y Cynllun hwn, ac yn sgil y cynigion ar gyfer recriwtio, datblygu sgiliau iaith a chynllunio iaith, byddwn yn adolygu ein Strategaeth Sgiliau Dwyieithog er mwyn sicrhau ei bod yn parhau'n addas at y diben.

- **Trafodion y Cynulliad** – Mae cynnydd mawr wedi'i wneud i sicrhau y gall Aelodau'r Cynulliad gymryd rhan yn yr iaith o'u dewis drwy ddarparu ystod o ddeunyddiau dwyieithog sy'n hwyluso'r gwaith paratoi yn eu dewis iaith cyn iddynt gymryd rhan yn y Cyfarfod Llawn neu fusnes y Pwyllgor. Ein nod yw datblygu dealltwriaeth well o anghenion a dewisiadau'r Aelodau, gan gyfleu'r mewnbwn hwnnw i dimau pwyllgor integredig a datblygu hyfforddiant sgiliau iaith pwrpasol, yn ôl anghenion ac arddulliau dysgu, i ddarparu cymorth pellach ac ymgorffori'r syniad o weithio'n ddwyieithog.
- **Datblygu ethos dwyieithog y sefydliad** – Er y cydnabyddir y cynnydd a wnaed i ddatblygu ethos dwyieithog y sefydliad, mae amrywiaeth o gamau gweithredu wedi'u nodi er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein huchelgais erbyn 2021. Er mwyn galluogi defnydd rhagweithiol o'r Gymraeg gan ymwelwyr a'r rhai sy'n ymgysylltu â ni ar-lein, byddwn yn ei gwneud yn haws iddynt adnabod siaradwyr Cymraeg, yn enwedig gyda'n gwasanaeth Diogelwch, fel y gall y Gymraeg gael ei defnyddio o'r cychwyn cyntaf. Mae fideo newydd ei gynhyrchu ar gael i bob aelod newydd o staff i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'n diwylliant, disgwyliadau, rôl cydgysylltwyr y Cynllun a sut i gael gafael ar gymorth. Rydym yn bwriadu gwella cyhoeddusrwydd mewn perthynas â'n llwyddiannau, cymryd rhan mewn mentrau sy'n gysylltiedig ag iaith a'u hyrwyddo yn allanol yn ogystal â manteisio ar y cyfleoedd sydd o'n blaenau o ran llwyfannau ymgysylltu digidol a thechnoleg iaith.

7.0 Camau nesaf

CYNULLIAD – CYFYNGEDIG

AC(5)2017(1) Papur 3

Cynllun Ieithoedd Swyddogol 2017–2021

- 7.1 Ar ôl i'r Pwyllgor ystyried yr argymhellion ym mharagraff 2, ein bwriad fyddai gosod y Cynllun drafft gerbron y Cynulliad a'i fabwysiadu yn ffurfiol yn dilyn trafodaeth yn y Cyfarfod Llawn cyn toriad yr haf.

Cynllun Ieithoedd Swyddogol Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol

Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol olaf ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad. Mae'r adroddiad hwn yn dangos y gwelliannau a'r cynnydd a wnaed yn ystod misoedd olaf y Pedwerydd Cynulliad a blwyddyn gyntaf y Pumed Cynulliad. Mae llawer o'r gwaith wedi canolbwyntio ar y cyfnod pontio rhwng y ddau Gynulliad, a sicrhau ein bod yn parhau i weithio tuag at ein huchelgais i gael ein cydnabod fel sefydliad gwirioneddol ddwyieithog.

Dyma fy nghyfle cyntaf fel Comisiynydd y Cynulliad i gyflwyno'r Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol. Hoffwn ddefnyddio'r cyfle hwn i ddiolch i Rhodri Glyn Thomas, fy rhagflaenydd am ei ymrwymiad i ymgorffori ethos dwyieithog cryf ar draws y sefydliad. Hoffwn hefyd ddiolch i fy nghydweithiwr, Dai Lloyd AC a ymgymerodd â rôl Comisiynydd y Cynulliad gyda chyfrifoldeb dros ieithoedd swyddogol am gyfnod byr ar ddechrau'r Pumed Cynulliad.

Fel Comisiynydd ac Aelod Cynulliad newydd, cefais fy nharo gan ymrwymiad parhaus y Cynulliad i ddarparu gwasanaethau dwyieithog rhagorol lle mae dwyieithrwydd yn amlwg yn rhan naturiol o'i ddiwylliant a'i arferion gwaith. Mae Comisiwn y Cynulliad yn falch o'i enw da cynyddol am arloesi wrth ddarparu gwasanaethau dwyieithog.

Rydym wedi parhau i adeiladu ar y gwaith da a wnaed yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, i ddysgu gan eraill a rhannu arbenigedd lle bo hynny'n bosibl. Wrth inni ddod â'r Cynllun presennol i ben a gweithredu Cynllun Ieithoedd Swyddogol newydd ar gyfer y Pumed Cynulliad, sy'n adeiladu ar y gwelliannau a gyflwynwyd hyd yma, rydym yn hyderus y gallwn gadarnhau ein henw da fel sefydliad gwirioneddol ddwyieithog sy'n arwain y ffordd mewn darparu gwasanaethau dwyieithog yng Nghymru.

Adam Price

Y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros ieithoedd swyddogol, a darparu a thrawsnewid gwasanaethau i'r Aelodau.

Cyflwyniad

Dyma'r Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol olaf ar gyfer y Cynllun Ieithoedd Swyddogol presennol a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2013. Dros gyfnod y Cynllun, uchelgais Comisiwn y Cynulliad oedd darparu gwasanaethau dwyieithog rhagorol a chael ei gydnabod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog. Mae camau sylweddol wedi'u cymryd ers 2013 i ymgorffori a hyrwyddo ethos a diwylliant dwyieithog.

Mae'r Bwrdd Rheoli yn ymrwymedig o hyd i gynnal a chynyddu'r ymgyrch i gyflwyno darpariaethau'r Cynllun, ac mae wedi annog staff i hwyluso gweithio dwyieithog mewn modd rhagweithiol wrth ddarparu pob gwasanaeth. Fel yr amlinellwyd yn y blaenoriaethau ar gyfer blwyddyn seneddol olaf y Pedwerydd Cynulliad, mae cynnal y momentwm a'r brwdfrydedd dros arloesedd a newid wedi bod yn flaenoriaeth, yn enwedig yng nghyd-destun Etholiad Cyffredinol y Cynulliad yn 2016 a misoedd cyntaf y Pumed Cynulliad.

Mae ein hymrwymiad i gyflawni ein nodau hirdymor yn parhau yr un mor gryf ag erioed, sef:

- darparu mwy o wasanaethau dwyieithog rhagorol;
- gwerthfawrogi ein staff am yr ymrwymiad y maent yn ei gynnig i'r Cynulliad a'u harbenigedd proffesiynol a seneddol; a
- rhannu ein profiadau a'n gwybodaeth am weithio'n ddwyieithog gyda sefydliadau eraill.

Mae Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012, yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiwn y Cynulliad adolygu ei Gynllun Ieithoedd Swyddogol "cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl pob etholiad cyffredinol cyffredin...". O ganlyniad i hyn, roedd y paratodau ar gyfer y Pumed Cynulliad yn cynnwys gwaith ar yr adolygiad hwn a datblygu Cynllun ar gyfer y Cynulliad newydd.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion am y gwelliannau a'r cynnydd a wnaed yn ystod blwyddyn seneddol olaf y Pedwerydd Cynulliad, dechrau blwyddyn seneddol gyntaf y Pumed Cynulliad a'r cyfnod pontio rhwng y ddau Gynulliad. Mae'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol newydd ar gyfer y Pumed Cynulliad yn amlinellu themâu â blaenoriaeth ar gyfer tymor y Cynulliad cyfan. Byddwn yn adrodd yn flynyddol ar ein cyflawniadau o fewn y meysydd hynny â blaenoriaeth, yn darparu manylion am gwynion a gwersi a ddysgwyd yn ogystal ag amlinellu unrhyw feysydd o bryder neu flaenoriaethau ychwanegol wrth inni barhau i weithio tuag at gyflawni uchelgais y Comisiwn.

Gwasanaethau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth

Paratoi ar gyfer y Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd pwyllgor

Gwnaeth blwyddyn seneddol olaf y Pedwerydd Cynulliad ein galluogi ni i ymgorffori darpariaeth ragweithiol o ran cymorth ddwyieithog ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r canlyniadau a'r gwersi a ddysgwyd o sawl cynllun peilot, gan gynnwys papurau briffio ddwyieithog a chyfieithu testun yn gyflym i Aelodau Cynulliad sydd am gyflwyno areithiau yn Gymraeg, yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf wedi ein galluogi i weithredu ffordd fwy deilwredig a phwrpasol o ymateb i ddewisiadau Aelodau Cynulliad o ran gweithio'n ddwyieithog. Roedd y paratodau ar gyfer y Pumed Cynulliad yn ystyried yn llawn yr angen i alluogi Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth i weithio yn yr iaith o'u dewis yn ddiodyn.

Fel rhan o broses groeso a chynefino y Pumed Cynulliad, gwnaed darpariaeth i ddeall anghenion a dewisiadau iaith yr holl Aelodau Cynulliad a oedd yn dychwelyd, yn ogystal â'r Aelodau Cynulliad newydd a'u staff cymorth. Darparwyd rhaglen gynefino llawn ar gyfer pob Aelod Cynulliad newydd, ac roedd gweithio'n ddwyieithog yn rhan bwysig o'r rhaglen honno. Lle roedd dewis iaith Gymraeg yn hysbys, cafodd Aelodau'r Cynulliad eu paru gyda 'chymhellion' ddwyieithog i roi cyflwyniad cychwynnol i ystâd y Cynulliad ac i'w cefnogi wrth iddynt gyrraedd i ddechrau yn eu swyddi. Gwnaethom hefyd drafod dewisiadau iaith gydag Aelodau'r Cynulliad yn ystod y cyfnod hwn, a hwyluso eu dewis iaith lle bynnag y bo'n hysbys. Bydd y Cynllun Ieithoedd Swyddogol newydd ar gyfer y Pumed Cynulliad yn adeiladu ar y wybodaeth a gasglwyd yn ystod y cyfnod hwn ac yn ymgorffori diwylliant o gynnig gweithio'n ddwyieithog yn rhagweithiol ymhellach.

Dyfyniad

Ar ôl cael fy ethol yn Aelod, cefais fy synnu pa mor gyfleus yw hi i weithio'n ddwyieithog yn y Cynulliad a pha mor braf yw cael gweithio mewn sefydliad sydd ag ethos gwirioneddol ddwyieithog. Mae'n golygu ei bod hi'n rhwydd i mi allu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl y galw. Er fy mod wedi gweithio yn Senedd Ewrop, sy'n senedd amlieithog, mae'r gallu i ddefnyddio fy mamiaith mewn sefyllfa ffurfiol wedi dod fel chwa o awyr iach.

Mae rhagor o waith wedi'i wneud hefyd i ymchwilio i ddarparu cymorth wedi'i deilwra a chymorth pwrpasol i Aelodau Cynulliad unigol. Drwy waith y timau pwyllgor integredig, mae Aelodau'r Cynulliad wedi nodi eu dewisiadau ar gyfer amseru, iaith a chynnwys y dogfennau ategol. Mae'r gwaith tîm hwn yn caniatáu i Aelodau'r Cynulliad baratoi ar gyfer yr holl ddadleuon a thrafodaethau yn yr iaith o'u dewis, yn ogystal â chyfrannu yn yr iaith o'u dewis. Mae cymorth wedi'i deilwra yn parhau i gael ei ddarparu i Gadeiryddion Pwyllgorau er mwyn eu galluogi i baratoi ar gyfer dadleuon a chyflwyno areithiau yn yr iaith o'u dewis. Mae'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi hefyd yn cynnig gwasanaeth gwirio terminoleg i gynorthwyo gyda drafftio nodiadau siarad. Byddwn yn parhau i weithio gydag Aelodau Cynulliad a'u staff cymorth i ddod o hyd i ffyrdd amgen ac arloesol o ddarparu'r cymorth angenrheidiol er mwyn eu galluogi i weithio yn yr iaith o'u dewis yn ddiodyn.

Dysgu iaith

Tuag at ddiwedd 2015, cynhaliodd Comisiwn y Cynulliad adolygiad manwl o'i ddarpariaeth dysgu iaith ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, eu staff cymorth a staff y Comisiwn. Diben yr adolygiad oedd atgyfnerthu'r ymagwedd ddarniog flaenorol i ddysgu iaith a sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau i fod mor hyblyg ac wedi'i deilwra â phosibl. O ganlyniad i'r adolygiad, a chynllun peilot a arweiniodd at benodi Tiwtor Cymraeg mewnol dros dro i staff y Comisiwn, sefydlwyd y tîm Sgiliau Iaith. Mae'r tîm yn cynnwys Rheolwr Diwtor a dau Diwtor sydd wedi'u penodi. Mae gwaith y tîm hefyd yn cael ei gefnogi gan bedwerydd aelod sy'n darparu cefnogaeth achlysurol pan fo angen. Mae sefydlu'r Tîm Sgiliau Iaith wedi caniatáu i Gomisiwn y Cynulliad ymateb yn greadigol i anghenion dysgu iaith Aelodau'r Cynulliad, eu staff cymorth a staff y Comisiwn. Mae'r Tîm wedi cynllunio rhaglen arloesol o ddysgu er mwyn galluogi dysgwyr o bob lefel i gymryd rhan a gwneud cynnydd. Mae'r Tîm hefyd wedi datblygu ymhellach y brand 'Dysgwr' sydd bellach yn logo adnabyddus ar draws ystâd y Cynulliad. Mae'r tîm bellach yn cefnogi dros 100 o ddysgwyr yn rheolaidd yn ogystal â darparu hyfforddiant untro, er enghraifft ateb y ffon neu gadeirio cyfarfodydd yn ddwyieithog, i eraill.

Dyfyniad

Ers i'r cortynnau gwddf 'Dysgwr' gael eu cyflwyno yn y Cynulliad, rwy'n dechrau sgwrs yn Gymraeg gyda llawer mwy o bobl. Mae'n ffordd dda o gynyddu hyder dysgwyr, yn enwedig i'r rhai sydd ddim yn teimlo'n ddigon hyderus i wisgo'r cortynnau gwddf iaith Gwaith arferol.

Elin Jones AC, Llywydd

Dyfyniad

Dechreuais weithio i Aelod Cynulliad yng ngogledd Cymru yn dilyn yr etholiad ym mis Mai. Roeddwn yn teimlo ei bod yn bwysig imi wella fy sgiliau Gymraeg fel y gallwn o leiaf geisio siarad Gymraeg sylfaenol gyda rhai etholwyr. Mynychais gwrs dwys am dri diwrnod yn ystod toriad yr haf, llwytho'r ap "Dweud rhywbeth yn y Gymraeg" ac rwyf bellach yn bwriadu datblygu fy nysgu drwy fynychu gwersi wythnosol gyda'r Tîm Sgiliau Iaith. Erbyn hyn, rwy'n teimlo'n fwy hyderus i o leiaf roi cynnig arni ac rwy'n edrych ymlaen at roi hyn i gyd ar waith.

Julie Price, Uwch-ymgyngorydd i Nathan Gill AC

Aelodau Cynulliad a'u hetholwyr

Rydym wedi parhau i weithio gydag Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyfathrebu â'u hetholwyr yn yr iaith o'u dewis a chynhyrchu dogfennaeth ddwyieithog sy'n gysylltiedig â'r etholaeth. Yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus y llynedd, mae cronfa gyfieithu Busnes Etholaethol Aelodau'r Cynulliad wedi'i hystrebu i gynnwys cyfieithu ar y pryd mewn digwyddiadau etholaethol. Mae pob Aelod Cynulliad newydd a'r Aelodau sydd wedi dychwelyd wedi cael gwybodaeth am y defnydd o'r gronfa, ac mae'r defnydd a wneir ohoni'n parhau'n gyson. Byddwn yn parhau i weithio gydag Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth i ddatblygu templedi a thestun safonol er mwyn hwyluso gweithio'n ddwyieithog yn eu cymunedau.

Dyfyniad

Mae'r trefniant newydd i gael gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd cyhoeddus yn yr etholaeth yn golygu y gallwn gynnig gwasanaeth cwbl ddwyieithog i aelodau'r cyhoedd. Rydym wedi gwneud cryn ddefnydd o'r gwasanaeth ac mae'r cyfarfodydd eu hunain yn cael eu cynnal yn naturiol yn y naill iaith neu'r llall.

Heledd Roberts, Rheolwr Swyddfa i Rhun ap Iorwerth AC

Dyfyniad

Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, roeddwn yn gweithio i Aelod Cynulliad a oedd yn defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol fel rhan o'i waith fel Aelod. Roeddwn yn gwneud defnydd cyson o'r gwasanaeth cyfieithu i Aelodau er mwyn cyfieithu cwesitynau ac areithiau byr o'r naill iaith i'r llall. Roedd y ffaith fy mod yn gallu defnyddio Microsoft Translator ac wedyn anfon y cyfieithiad i'w brawfddarllen mewn amser byr iawn yn help enfawr. Fel dysgwr, fe helpodd hynny fi i ddarparu gwasanaeth dwyieithog i'r Aelod a'i ethowyr fel y'i gilydd, ac fe helpodd fi i wella fy Nghymraeg.

Rheolwr Swyddfa i Aelod Cynulliad

Astudiaeth Achos - Technoleg ac ymgysylltu

Mae gwasanaeth Cyswllt Cyntaf y Cynulliad wedi bod yn treialu'r defnydd o iBeacons dwyieithog yn y Senedd a'r Pierhead. Dyfeisiadau bach Bluetooth yw I-Beacons sy'n darlledu signal adnabod unigryw ac y gall ffonau a thabledi eu pigo. Maent wedyn yn darlledu cynnwys sydd wedi ei recordio o flaen llaw yn unol â lleoliad yr ymwelydd yn yr adeilad. Gall y Beacons ddod â nodweddion pensaernïol a hanesyddol ein hadeliadau eiconig yn fyw. Bydd ymwelwyr yn gallu ymwneud â ni yn uniongyrchol drwy eu dyfeisiadau symudol a gallant ddewis ar ba ran o'r adeilad yr hoffent ganolbwyntio. Mae'r holl gynnwyd wedi ei lunio'n ddwyieithog a'i brofi ar ystad y Cynulliad. Caiff y teithiau eu cyflwyno'n llawn yn 2017 ac yn eu tro gellir eu cynhyrchu mewn ieithoedd eraill.

02. Gwasanaethau i bobl Cymru

Ymwelwyr ag Ystâd y Cynulliad

Ers i'n contractwyr arlwygo benodi staff dwyieithog ychwanegol, rydym wedi gweld defnydd rhagweithiol o'r iaith yng nghaffi'r Senedd ac o'i amgylch. Mae'r holl staff arlwygo wedi cael hyfforddiant sgiliau cwrteisi sylfaenol ac rydym wedi gweithio gyda'n contractwyr i recriwtio mwy o aelodau o staff dwyieithog i wella'r gallu dwyieithog ar gyfer digwyddiadau a lletygarwch.

Mae'r Tîm Sgiliau Iaith yn gweithio gyda'r tîm Diogelwch i ddatblygu rhaglen hyfforddiant ar gyfer pob aelod o'r tîm. Bydd hyn yn adeiladu ar waith blaenorol i sicrhau bod pob aelod o staff Diogelwch llinell flaen yn datblygu sgiliau cwrteisi sylfaenol, a bydd hefyd yn annog dysgwyr mwy hyfedr i ddefnyddio eu sgiliau yn y gweithle. Yn ystod y diddymiad, buom yn gweithio gyda'r tîm i dreialu rhai dulliau newydd, gan gynnwys mentora un-i-un, hyfforddiant yn y gwaith a darparu *aide memoires* ac adnoddau sain ar gyfer aelodau newydd o staff.

Cefnogi cydweithwyr

Yn ogystal â darparu cymorth dysgu iaith, mae'r Tîm Sgiliau Iaith yn gweithio ar raglen gynhwysfawr sydd wedi'i hanelu at staff sydd eisoes â rhywfaint o sgiliau Cymraeg, ond sydd o bosibl yn brin o hyder. Mae'r sesiynau 'gloywi iaith', gan gynnwys sesiynau 'gwella' gramadeg ffurfiol yn ogystal â mentora mwy anffurfiol ar gyfer unigolion neu grwpiau bach, i gyd yn elfennau pwysig o waith y Tîm Sgiliau Iaith. Byddant yn gwneud cyfraniad sylweddol at ddatblygu ein hethos dwyieithog ymhellach, lle mae pob aelod o staff yn teimlo'n gyfforddus i ddefnyddio a gwella ei sgiliau, ac yn teimlo y caiff ei werthfawrogi am y sgiliau sydd ganddo.

Rhannu arbenigedd

Mae Comisiwn y Cynulliad unwaith eto eleni wedi ymwneud yn rhagweithiol i ddarparu cyngor a rhannu arbenigedd gydag ystod o gyrff allanol. Rydym

wedi gweithio gyda nifer o gyrff academiaidd, gan gynnwys Prifysgol Caerdydd, Prifysgol y Drindod Dewi Sant a'r *Coleg Cymraeg Cenedlaethol* er mwyn cyfrannu at nifer o fodiwlau academiaidd ar gyfieithu testun a chyfieithu ar y pryd. Mae'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi wedi cynnal ei gydberthynas cydweithredol gyda'r Sefydliad Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd [ITI] a Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

Rydym hefyd wedi datblygu ein cydberthynas â nifer o sefydliadau allanol, gan gynnwys llywodraeth leol a chyrrff cyhoeddus eraill, i roi cyngor a chyfarwyddyd ymarferol ar faterion sy'n ymwneud â sefydlu a rhedeg gwasanaeth cyfieithu a'r defnydd effeithiol o dechnoleg iaith. Mae ein henw da fel arweinwyr yn gweithio'n ddwyieithog yng Nghymru yn ein galluogi i rannu ein profiad o ddefnyddio technoleg iaith, darparu gwasanaethau pwrpasol, hyfforddiant iaith mewnol ac ati gyda charfan ehangach o gyrff a sefydliadau.

Mae Comisiwn y Cynulliad yn parhau i fwynhau cydberthynas adeiladol â Chomisiynydd y Gymraeg ac rydym yn ymgynghori â swyddfa'r Comisiynydd ar ystod o faterion, gan gynnwys y broses o ddrafftio'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol newydd ar gyfer y Pumed Cynulliad.

Astudiaeth achos – Rhannu arbenigedd

Fe gawson ni gyfarfod â swyddogion y Cynulliad ynghylch eu profiad hwy o gyflwyno cyfieithu peirianyddol i'w staff. Roedd eu cyngor arbenigol ac ymarferol yn werthfawr iawn, ac yn dilyn hynny, penderfynodd Llywodraeth Cymru gyflwyno'r dechnoleg i'w staff, gan lunio canllawiau ar y defnydd doeth o gyfieithu peirianyddol yn y gweithle. Mae'r dechnoleg yn ddefnyddiol wrth roi *brasgyfieithiad* i ddefnyddwyr di-Gymraeg, a bydd yn helpu i gynyddu faint o gyfathrebu dwyieithog sy'n digwydd ar draws y sefydliad.

Bethan Griffiths, Prif Swyddog Cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg,
Llywodraeth Cymru

03. Gwasanaethau i staff y Cynulliad

Cynllunio ar gyfer darparu gwasanaeth dwyieithog

Mae gan bob maes gwasanaeth unigol y Cynulliad ei gynllun iaith ei hun. Mae'r cynllun yn amlinellu'r gallu dwyieithog o fewn timau, ac yn rhoi manylion am y prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer darparu gwasanaethau dwyieithog. Pan fydd swyddi newydd yn cael eu creu neu swyddi'n dod yn wag, bydd Penaethiaid Gwasanaeth yn defnyddio'r cynllun iaith maes gwasanaeth i benderfynu ar y lefel o sgiliau iaith angenrheidiol ar gyfer y swydd i'w hysbysebu. Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau Comisiwn y Cynulliad sy'n gyfrifol am gytuno ar sefydlu swyddi newydd a llenwi swyddi gwag, ac wrth wneud hynny mae'n ystyried y gofyniad o ran sgiliau iaith ar gyfer pob swydd.

Yn ddiweddar, cynhaliodd Bwrdd Rheoli y Cynulliad ei adolygiad gallu blynyddol i sicrhau bod lefelau staffio digonol ar gael ar gyfer y Pumed Cynulliad. Fel rhan o'i ystyriaethau, roedd gallu dwyieithog o fewn timau yn thema ofynnol er mwyn sicrhau bod yr holl wasanaethau yn gallu darparu gwasanaethau dwyieithog fel rhan arferol a naturiol o'u gwasanaethau. Byddwn yn parhau i weithio gyda meysydd gwasanaeth unigol i ddatblygu a diweddarau cynlluniau iaith er mwyn sicrhau bod y gwaith cynllunio ar gyfer darparu gwasanaethau dwyieithog yn rhan annatod o bob maes.

Mae'r Fforwm Cydgysylltwyr Ieithoedd Swyddogol, sy'n cynnwys un cynrychiolydd o bob maes gwasanaeth, yn parhau i roi cyngor ac arweiniad i gydweithwyr ac yn monitro cydymffurfiaeth o fewn meysydd gwasanaeth. Mae'r Cydgysylltwyr hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod aelodau newydd o staff o fewn meysydd gwasanaeth yn cael hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith, yn ogystal â sicrhau eu bod yn cael dealltwriaeth o'r gofynion ar gyfer eu swydd benodol.

Astudiaeth achos – Fideo Ymwybyddiaeth iaith

Er mwyn sicrhau bod pob aelod newydd o staff yn ymwybodol o ddiwylliant ac ethos dwyieithog y sefydliad o'r cychwyn cyntaf, roedd angen ffordd

arnom o sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei gyflwyno yn fuan ar ôl iddynt ymuno â'r Cynulliad. Defnyddiwyd arbenigedd mewnol i sgriptio, cofnodi, golygu a chynhyrchu ein fideo ymwybyddiaeth iaith ein hun fel y gallai staff dderbyn hyfforddiant yn ystod eu hwythnos gyntaf. Mae hyn yn golygu ein bod yn gallu diweddarau'r cynnwys er mwyn sicrhau ei fod yn berthnasol ac yn gyfredol. Gellir defnyddio'r fideo hefyd i ddiweddarau staff sydd wedi derbyn hyfforddiant beth amser yn ôl. Mae wedi cael ei dderbyn yn dda ac wedi ysgogi trafodaeth ar draws y sefydliad.

Dyfyniad

'Cefais fy sbarduno gan y fideo i ddechrau cael gwersi Cymraeg y mae'r Cynulliad yn eu cynnig. Fel rhywun sy'n dod o Loegr, roedd y Gymraeg yn newydd i mi, ac rwy'n teimlo y bydd dysgu'r iaith yn cyfoethogi fy amser yn y Cynulliad a fy mywyd bob dydd yng Nghymru.'

Katy Orford, y Gwasanaeth Ymchwil

04. Monitro ac adrodd

Cydymffurfio

Mae Cydgysylltwyr Ieithoedd Swyddogol yn parhau i fonitro cydymffurfiaeth o ddydd i ddydd, ac maent wedi adrodd unwaith eto eleni mân achosion o fethu â chydymffurfio â gofynion y Cynllun. Mae'r cyhoedd hefyd wedi codi achosion o fethu â chydymffurfio drwy sianeli ffurfiol ac anffurfiol. Pan fydd achosion o'r fath yn cael eu nodi, bydd y Cydgysylltwyr yn trafod y materion gyda'r aelodau perthnasol o staff er mwyn sicrhau bod achosion o fynd yn groes i'r cynllun yn cael eu cywiro cyn gynted â phosibl. Rydym hefyd yn darparu cefnogaeth ac arweiniad i bob aelod o staff er mwyn sicrhau llai o achosion o ddiffyg cydymffurfio. Mae Penaethiaid Gwasanaeth, y Cydgysylltwyr a rheolwyr llinell yn atgyfnerthu disgwyliadau'r Cynllun yn rheolaidd ac mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol yn rhoi cyngor a chymorth yn ôl yr angen.

Cwynion

Ar adegau yn ystod y flwyddyn rydym wedi methu â chyflawni'r safonau uchel rydym yn gosod inni ein hunain ac wedi methu â chyrraedd disgwyliadau Aelodau'r Cynulliad, eu staff cymorth neu'r cyhoedd. Mae nifer o gwynion anffurfiol a ffurfiol wedi dod i law, a gellir eu categoreiddio fel a ganlyn:

Technoleg

Bu adegau pan rydym wedi methu â chyhoeddi dogfennau yn unol â gofynion ein Cynllun oherwydd materion technolegol. Rydym hefyd wedi cael gwybod am nifer o achosion o lincs i ddogfennau Cymraeg sy'n arwain at y fersiynau Saesneg neu lincs sydd wedi torri. Mae adborth ar faterion o'r fath yn hynod werthfawr inni gan ei fod yn ein galluogi i gywiro camgymeriadau neu broblemau yn gyflym.

Dewis iaith

Mae adborth gan y cyhoedd wedi dangos bod achlysuron lle maent wedi methu â defnyddio eu dewis iaith wrth ymgysylltu â ni. Rydym wedi canfod problem gydag offer y ganolfan alwadau yn ein swyddfa yng ngogledd Cymru, gyda galwadau o bryd i'w gilydd yn cael eu hailgyfeirio yn awtomatig at y llinellau anghywir gan arwain at siaradwyr Cymraeg yn cael eu cyfeirio at linellau Saesneg. Mae gweithdrefnau wedi cael eu rhoi ar waith i ganfod achosion o'r fath cyn gynted â phosibl ac i alluogi'r galwr i ddefnyddio ei ddewis iaith, hyd yn oed pan fydd yn cael ei gyfeirio at y llinell anghywir.

Gwasanaeth cwsmeriaid

Yn gyffredinol, mae profiad ymwelwyr yn y Senedd o safbwynt dwyieithog wedi bod yn dda gydag ymwelwyr yn nodi ethos dwyieithog y sefydliad. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o ddigwyddiad yn ymwneud â grŵp o ymwelwyr a ofynnodd am wasanaeth Cymraeg y gwnaethom fethu â'i gyflawni. Mae ymchwiliad i'r digwyddiad yn cael ei gynnal ac rydym wedi cymryd y cyfle i sicrhau bod ein tîm Cyswllt Cyntaf a phartneriaid eraill yn ymwybodol o ofynion y Cynllun a sut i ddarparu gwasanaethau dwyieithog rhagorol. Byddwn yn gweithio gyda'r timau priodol i atgyfnerthu'r angen i gynnig gwasanaethau dwyieithog mewn modd rhagweithiol.

Ymgynghoriadau'r Pwyllgorau

Rydym wedi cael gwybod pan fyddwn yn comisiynu tystiolaeth ar gyfer Ymchwiliadau neu Ymgynghoriadau Pwyllgorau nad ydym wedi bod yn ddigon clir o ran sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, gan arwain at gŵyn yn cael ei gwneud. Bydd y geiriad ar gyfer cyhoeddi a gwneud cais am dystiolaeth a dogfennau gan drydydd parti yn y Cynllun Ieithoedd Swyddogol newydd ar gyfer y Pumed Cynulliad yn cael ei ddiwygio er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb. Byddwn yn gweithio gyda thimau'r Pwyllgorau i sicrhau bod geiriad unrhyw geisiadau am dystiolaeth neu ddogfennau eraill yn glir ac yn unol â gofynion y Cynllun.

Y gwersi a ddysgwyd

Rydym yn annog Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth, y cyhoedd a'n staff i roi adborth ar ein gwasanaethau dwyieithog ac rydym yn ymrwymedig i ddysgu o unrhyw adborth a gawn. Mae'r prif themâu sy'n codi o ganmoliaeth, cwynion ac adborth yn rhoi arwydd clar o arfer da a meysydd y mae angen eu gwella neu eu cryfhau. Bydd y Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer y Pumed Cynulliad yn adeiladu ar yr arfer da a sefydlwyd yn ystod y Pedwerydd Cynulliad ac yn mynd i'r afael ag unrhyw wendidau. Bydd y Cynllun yn amlinellu themâu â blaenoriaeth ar gyfer y Pumed Cynulliad a fydd yn cryfhau ein hethos a'n diwylliant dwyieithog ymhellach ac yn ein galluogi i gyflawni uchelgais y Comisiwn i gael ei gydnabod fel sefydliad gwirioneddol ddwyieithog.

Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Cynllun Ieithoedd Swyddogol

DYDDIAD

DRAFF

Cynnwys

Rhagair	1
Adran 1: Ein huchelgais	5
Cwmpas y Cynllun Ieithoedd Swyddogol.....	9
Rhoi cyhoeddusrwydd i'n gwasanaethau dwyieithog a'u hyrwyddo	10
Adran 2: Safonau gwasanaeth	13
Safonau gwasanaeth ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth.....	15
1 Paratoi ar gyfer y Cyfarfod Llawn.....	15
2 Paratoi ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgor	15
3 Cymryd rhan ym musnes y Cynulliad	16
4 Cofnodi'r Cyfarfod Llawn.....	17
5 Cofnodi cyfarfodydd Pwyllgor	17
6 Cymorth i Gomisiwn y Cynulliad	17
7 Grwpiau trawsbleidiol.....	18
8 Hysbysebion a gohebiaeth etholaethol Aelodau'r Cynulliad	18
9 Cefnogi a datblygu sgiliau iaith	18
10 Deunydd cyfathrebu i Aelodau'r Cynulliad gan staff y Cynulliad.....	19
Safonau gwasanaeth ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu â phobl Cymru	20
11 Gohebu â'r cyhoedd (e-bost neu gopi caled).....	21
12 Galwadau ffôn	22
13 Ein delwedd gyhoeddus	22
14 Gwasanaethau ymgysylltu a gwybodaeth gyhoeddus.....	23
15 Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth	24
16 Ymwelwyr ag ystâd y Cynulliad Cenedlaethol	24
17 Digwyddiadau ac arddangosfeydd a noddir gan Aelodau'r Cynulliad ar ystâd y Cynulliad.....	24
18 Gweithio mewn partneriaeth.....	25
19 Gwasanaethau trydydd parti.....	25
20 Datblygu gwasanaethau newydd i'r cyhoedd.....	25
Safonau gwasanaeth ar gyfer ein staff er mwyn hwyluso gweithio'n ddwyieithog	26
21 Cyfathrebu â staff	27
22 Gweithio'n ddwyieithog	28
23 Strategaeth Sgiliau Dwyieithog.....	28
24 Rhaglen gynefino ac ymwybyddiaeth	28
Adran 3 Themâu ar gyfer cyfnod y Cynllun hwn	32
Thema 1: Recriwtio.....	33

Thema 2: Sgiliau iaith.....	34
Thema 3: Cynllunio ieithyddol.....	35
Thema 4: Trafodion y Cynulliad	35
Thema 5: Datblygu ethos dwyieithog y sefydliad.....	36
Adran 4: Trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd yn ôl.....	40
Yr awdurdod dros weithredu'r Cynllun hwn a'r cyfrifoldeb am ei roi ar waith.....	41
Monitro ac adrodd yn ôl.....	42
Adolygu a diweddarau'r Cynllun	43
Ymdrin â chwynion.....	44
25 Cydgysylltu'r broses o roi'r Cynllun ar waith	44
26 Ymdrin â chwynion ac achosion o fethu â chydymffurfio	44
27 Yr adroddiad blynyddol.....	44

DRAFT

Rhagair

DRAFT

Adran 1: Ein huchelgais

Ein huchelgais yw i fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog lle y gall Aelodau'r Cynulliad, y cyhoedd a'r staff ddewis gweithio neu gyfathrebu'n naturiol drwy ddefnyddio'r naill iaith swyddogol neu'r llall, neu'r ddwy iaith, lle caiff y defnydd o'r ddwy iaith ei annog a'i hwyluso yn frwd, a lle y caiff ein gwasanaethau dwyieithog rhagorol eu hehangu a'u gwella yn barhaus.

Rydym yn eithriadol o falch o'r cynnydd a wnaed yn ystod oes y Cynllun Ieithoedd Swyddogol cyntaf. Mae'r cynnydd hwnnw hefyd wedi adeiladu ar yr ystod eang o wasanaethau a oedd eisoes wedi'u datblygu dros gyfnodau amrywiol gynlluniau iaith Gymraeg a oedd ar waith ers i'r Cynulliad gael ei sefydlu ym 1999.

Mae'r Cynulliad yn sefydliad dwyieithog. Rydym yn gwerthfawrogi ein holl aelodau o staff, pa mor ddwyieithog bynnag ydynt, am yr ymrwymiad i'r Cynulliad a'u harbenigedd proffesiynol a seneddol. Rydym yn disgwyl bod pob aelod o staff yn ymroddedig i ddarparu'r safonau uchaf o gymorth seneddol i'r Aelodau a'r cyhoedd yn ein dwy iaith swyddogol.

Mae gennym ddyletswydd sydd wedi'i hymgorffori mewn cyfraith i ddarparu hawliau i'r cyhoedd ac i Aelodau'r Cynulliad ryngweithio â'r Cynulliad yn yr iaith swyddogol o'u dewis. Caiff ein dwy iaith swyddogol eu cydnabod fel ieithoedd gweinyddu mewnol. Rydym yn hwyluso gweithio'n ddwyieithog ar gyfer staff y Comisiwn drwy brif ffrydio gwasanaethau dwyieithog fel y disgrifir yn ein safonau gwasanaeth.

- Gan hynny rydym: wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau dwyieithog rhagorol, i Aelodau'r Cynulliad, y cyhoedd a'r staff;
- yn gyflogwr sy'n cefnogi pob aelod o staff sydd am ddatblygu neu wella eu sgiliau yn y ddwy iaith swyddogol neu yn y naill iaith neu'r llall i safon sy'n briodol i'w swydd, neu ymhellach os dymunant; ac
- yn sefydliad sy'n dysgu gan eraill ac yn rhannu ei brofiadau a'i wybodaeth am weithio'n ddwyieithog.

Ein hymrwymiad

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") yn gwasanaethu cenedl ddwyieithog lle mae bron un o bob pump o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Y Cynulliad yw canolbwynt cenedlaethol bywyd democrataidd yng Nghymru ac mae'n falch o'r enw da sydd ganddo'n rhyngwladol fel sefydliad dwyieithog.

Mae Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Comisiwn") yn gyfrifol am ddarparu'r eiddo, y staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar y Cynulliad. Nodau strategol y Comisiwn yw:

- darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf;
- ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad; a
- defnyddio adnoddau'n ddoeth.

Ymrwymiad y Comisiwn i ddwyieithrwydd yw'r sail i gyflawni'r nodau hyn – mae ein gwasanaethau, ein strategaethau a'n dyheadau yn adlewyrchu statws cyfartal ein hieithoedd swyddogol. Rydym yn gwerthfawrogi yr amrywiaeth o fewn ein gweithlu, ac mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i sicrhau amrywiaeth o fewn y sefydliad trwy ein Strategaeth Amrywiaeth a

Chynhwysiant. Mae'r Cynllun hwn yn ymwneud â darparu gwasanaethau dwyieithog yn ein hieithoedd swyddogol a'r goblygiadau inni o ran Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012 yn unig.

Y fframwaith deddfwriaethol

Dyma ail Gynllun Ieithoedd Swyddogol y Cynulliad. Cyhoeddwyd y cyntaf ym mis Gorffennaf 2013, yn dilyn cyflwyno Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012. Cyn cyflwyno'r Ddeddf, roedd y Cynulliad yn gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Mae'r Cynulliad yn y sefyllfa unigryw o gael ei ddeddfwriaeth ei hun i reoleiddio ei sail statudol ar gyfer gweithio'n ddwyieithog. Mae'n golygu bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin fel ieithoedd swyddogol yn y Cynulliad.

O dan y Ddeddf Ieithoedd Swyddogol, mae'n ofynnol i'r Cynulliad gyhoeddi Cynllun newydd ar gyfer pob tymor y Cynulliad. Hwn, felly, yw'r Cynllun dros gyfnod y Pumed Cynulliad o 2016 i 2021.

Safonau'r Gymraeg

Yn 2015, cyflwynodd Comisiynydd y Gymraeg y set gyntaf o reoliadau ynghylch safonau'r Gymraeg. Mae'n bwysig nodi nad yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru na'r Cynllun hwn yn destun cyfundrefn safonau'r Gymraeg. Rydym yn credu bod ein Cynllun yn cymharu'n ffafriol â'r safonau sy'n berthnasol i Weinidogion Cymru, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru ac awdurdodau parciau cenedlaethol, ac ni fyddem am fynd islaw ysbryd y safonau hynny o gwbl.

Cynllun Ieithoedd Swyddogol 2013-2016

Mae gweithredu ein Cynllun yn caniatáu inni bennu ein blaenoriaethau ein hunain ac yn ein galluogi i fod yn arloesol yn y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau dwyieithog.

Roedd ein Cynllun cyntaf yn cwmpasu'r cyfnod 2013 i 2016 ac roedd yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol:

- darparu cymorth arloesol sydd wedi'i deilwra er mwyn galluogi pobl i ddefnyddio'r ddwy iaith;
- gwneud y defnydd gorau o dechnoleg;
- datblygu sgiliau a hyder staff y Cynulliad i ddefnyddio'u Gymraeg drwy ddarparu'r cymorth hwnnw; a
- rhannu'r pethau sy'n gweithio i ni â gweddill Cymru a'r byd amlieithog tu hwnt i'n ffiniau.

Rydym wedi cyflawni gwelliannau mawr i wasanaethau a chyrraeddwyd mwyafrif helaeth o'r targedau a osodwyd. Arweiniodd gwaith yn y pedwar maes allweddol uchod at y llwyddiannau canlynol y tu hwnt i'n safonau gwasanaeth arferol:

- gan **weithio gyda'r Aelodau i ddeall dewisiadau unigol yn well**, rhoddwyd darpariaeth amrywiol ar waith i gefnogi gweithio'n ddwyieithog, er enghraifft, mae dogfennau briffio dwyieithog bellach yn cael eu darparu ar gyfer aelodau pwyllgorau. Mae hyn yn caniatáu i Aelodau'r Cynulliad baratoi ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgor yn eu dewis iaith, gan hwyluso mwy o ddefnydd o'u dewis iaith mewn

trafodion. Hefyd, mewn ymateb i adborth gan Aelodau'r Cynulliad, rydym yn datblygu cyfres o eirfaon ac ymadroddion technegol Cymraeg ar gyfer Biliau ac ymchwiliadau pwyllgorau sydd hefyd yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan. Mae'r geirfaon yn cynorthwyo Aelodau'r Cynulliad i drafod pynciau llai cyfarwydd yn eu dewis iaith.

- lansiodd **model Cymraeg byd-eang ar gyfer Microsoft Translator** yn y Senedd ar 21 Chwefror 2014, gan alluogi defnyddwyr Microsoft ledled y byd i gyfieithu i'r Gymraeg ac o'r Gymraeg. Cyrhaeddodd y cyhoeddusrwydd am y digwyddiad lansio gynulleidfa byd-eang o hyd at 5 miliwn o bobl, gan hyrwyddo nid yn unig yr iaith Gymraeg, ond y Cynulliad Cenedlaethol a'i bartneriaeth gyda Microsoft. Mae staff y Cynulliad yn defnyddio'r dechnoleg mewn dwy ffordd: mae'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg yn gallu deall hanfod unrhyw ohebiaeth Gymraeg er mwyn iddynt allu ei phrosesu ac ymateb iddi'n gyflymach ac yn effeithiol; ac mae cyfieithwyr y Cynulliad wedi integreiddio'r dechnoleg i ategu'r feddalwedd cof cyfieithu a ddefnyddir, gan gynyddu effeithlonrwydd cyfieithwyr hyd at 20%.
- rydym wedi trawsnewid yn llwyr y ffordd yr ydym yn cefnogi staff y Comisiwn sy'n dymuno dysgu Cymraeg. Ym mis Tachwedd 2014, dechreuwyd treialu dull mwy anffurfiol yn sgil penodi Tiwtor Cymraeg mewnol. Roedd hyn yn llwyddiannus, ac roedd y cyfraddau a fanteisiodd arno'n rhagorol, gyda dysgwyr yn ymateb i **ddull hyblyg sydd wedi'i deilwra o ddysgu Cymraeg**. Erbyn diwedd y Pedwerydd Cynulliad, arweiniodd llwyddiant y dull hwn at greu Tîm Sgiliau Iaith o bedwar, gan ddarparu amrywiaeth o gyfleoedd dysgu Cymraeg i Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth yn ogystal â staff Comisiwn y Cynulliad, yn amrywio o ddechreuwr pur i siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n dymuno datblygu eu Cymraeg ysgrifenedig ymhellach.
- y Cynulliad bellach yw **un o'r sefydliadau dwyieithog mwyaf blaenllaw yn y sector cyhoeddus yng Nghymru**. Rhoesom gyhoeddusrwydd i'r gwaith yn ymwneud â Microsoft Translator a sicrhau ei fod ar gael i gynulleidfa byd-eang. Rydym wedi rhoi nifer o gyflwyniadau i gynadleddau a sefydliadau unigol, ar y ffordd y mae technoleg iaith wedi trawsnewid y ffordd rydym yn gweithio'n ddwyieithog ac ar ein datblygiadau o ran dysgu Cymraeg. O ganlyniad, mae sefydliadau eraill wedi dilyn ein hesiampl gyda thechnoleg a'n darpariaeth dysgu Cymraeg.

Ein themâu ar gyfer y Cynllun hwn

Gan adeiladu ar y llwyfan a ddatblygwyd gennym yn y Pedwerydd Cynulliad, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i arwain y ffordd o ran darparu gwasanaethau dwyieithog ac arloesi yn y maes.

Mae ein camau gweithredu ar gyfer y Cynllun hwn yn canolbwyntio ar bum thema allweddol:

- ethos dwyieithog y sefydliad;
- recriwtio
- sgiliau iaith;
- trafodion y Cynulliad;
- cynllunio ieithyddol.

Rhestrir rhagor o fanylion am y themâu yn adran tri. Eu nod yw ein harwain i'r lefel nesaf, ychwanegu at ein capasiti dwyieithog fel sefydliad a'n tywys yn agosach fyth at gyflawni ein huchelgais.

Cwmpas y Cynllun Ieithoedd Swyddogol

Mae'r Cynllun wedi'r rannu'n bedair adran:

- mae adran un, uchod, yn nodi ein huchelgais a'n hymrwymiad ac yn rhoi trosolwg o'r hyn a gyflawnwyd gennym yn ystod y Cynllun cyntaf;
- mae adran dau yn nodi ein safonau gwasanaeth presennol ac yn amlinellu sut y byddwn yn cyflawni ein dyletswydd statudol i ddarparu gwasanaethau dwyieithog ar gyfer tri grŵp gwahanol: Aelodau'r Cynulliad a'u staff; pobl Cymru; staff y Cynulliad;
- mae adran tri yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer y Cynllun hwn a'r gwasanaethau dwyieithog yr ydym yn anelu at eu darparu yn ystod oes y cynllun;
- mae adran pedwar yn amlinellu sut y byddwn yn monitro ac yn adrodd ar y Cynllun a sut y byddwn yn ymdrin â chwynion pe baem yn methu â chyrraedd y safonau uchel yr ydym wedi'u gosod i ni ein hunain neu'n methu â bodloni disgwyliadau pobl eraill.

Rhoi cyhoeddusrwydd i'n gwasanaethau dwyieithog a'u hyrwyddo

Byddwn yn sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad a'u staff, y cyhoedd a staff y Cynulliad yn ymwybodol o'r Cynllun hwn ac o'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu. Byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd i'n gwasanaethau dwyieithog drwy:

- hyrwyddo bodolaeth y Cynllun wrth ymgysylltu â'n rhanddeiliaid a'r cyhoedd;
- ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol fel Comisiynydd y Gymraeg er mwyn i ni allu dysgu o brofiad a hefyd rhannu ein profiad o ddarparu gwasanaethau dwyieithog rhagorol;
- codi ymwybyddiaeth o'r Cynllun a'i ofynion ymysg staff yn barhaol drwy ddarparu hyfforddiant cychwynnol i bob aelod o'r staff fel rhan o'u rhaglen gynefino, a mentrau codi ymwybyddiaeth parhaus drwy gydol y flwyddyn seneddol;
- sicrhau bod staff dwyieithog yn bresennol mhob ardal gyhoeddus lle mae gan y Cynulliad bresenoldeb corfforaethol a bod modd eu hadnabod yn hawdd;
- cynnwys hyrwyddo'r Cynllun yn y rhaglen gynefino ar gyfer Aelodau'r Cynulliad newydd a'u staff cymorth.

Os bydd angen eglurhad arnoch ar unrhyw agwedd ar y Cynllun leithoedd Swyddogol, cysylltwch â Rheolwr y Cynllun leithoedd Swyddogol fel y nodir isod.

Mae copi electronig o'r Cynllun hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol.

www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled o:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd

Caerdydd

CF99 1NA

- Ar lein: www.cynulliad.cymru
- E-bost: cyswllt@cynulliad.cymru
- Ffôn: 0300 111 6565

DRAFT

Adran 2: Safonau gwasanaeth

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd statudol ar y Comisiwn i alluogi unrhyw un sy'n ymwneud â trafodion y Cynulliad i wneud hynny naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg, sef ein hieithoedd swyddogol.

Er mwyn galluogi Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth i wneud hyn, mae'r Comisiwn yn:

- darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, o'r Gymraeg i'r Saesneg, ym mhob un o Gyfarfodydd Llawn a Phwyllgorau'r Cynulliad, yn unol â Rheolau Sefydlog 13.2 a 17.45;
- cyhoeddi'r holl ddogfennau sy'n deillio o'r Cynulliad ac sy'n ymwneud â busnes ffurfiol y Cynulliad yn y ddwy iaith swyddogol yn unol â gofynion y Rheolau Sefydlog;
- darparu deunyddiau dwyieithog a dulliau i gymryd rhan yn nhrefodion ffurfiol y Cynulliad yn ddwyieithog; a
- darparu hyfforddiant iaith pwrpasol, a chymorth i ddatblygu a gwella sgiliau iaith mewn cyd-destun proffesiynol.

Nid yw'r Cynllun hwn yn cwmpasu Aelodau'n rhyngweithio â'u hetholwyr ar lefel un-i-un, ond mae'n rhaid i unrhyw ddeunyddiau a ariennir gan y Comisiwn neu'r Bwrdd Taliadau gael eu cynhyrchu'n ddwyieithog. Bydd y Comisiwn yn parhau i ddarparu adnoddau er mwyn sicrhau y gall Aelodau'r Cynulliad ymdrin ag etholwyr yn yr iaith swyddogol o ddewis eu hetholwyr.

Yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Ieithoedd Swyddogol 2012), rydym yn cyhoeddi cofnod cwbl ddwyieithog o drafodion y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn (Cofnod y Trafodion).

Safonau gwasanaeth ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth

1 Paratoi ar gyfer y Cyfarfod Llawn

- 1.1 Mae unrhyw ddogfennau a osodir neu unrhyw fusnes a gyflwynir ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg yn unol â Rheol Sefydlog 15.4.
- 1.2 Mae'r holl Filiau sy'n cael eu hystyried gan y Cynulliad Cenedlaethol ar gael yn y ddwy iaith swyddogol, ar wahân i'r rhai a ystyrir o dan yr amgylchiadau a amlinellir yn Rheol Sefydlog 26.5.
- 1.3 Mae fersiynau Cymraeg a Saesneg o ddogfennau cyhoeddus ar gyfer y Cyfarfod Llawn ar gael yn gydamserol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd.
- 1.4 Bydd papurau mewnol a phreifat ar gael yn newis iaith swyddogol aelodau unigol.
- 1.5 Pan nad yw'n bosibl cael dogfennau gan sefydliadau allanol a thrydydd parti yn y ddwy iaith, rydym yn eu cyhoeddi yn yr iaith y'u cyflwynwyd, gan nodi bod y dogfennau wedi dod i law yn yr iaith honno yn unig.
- 1.6 Mae papurau ategol eraill a ddarperir gan drydydd parti, gan gynnwys gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru (e.e. atebion i gwestiynau llafar ac ysgrifenedig), yn cael eu cyhoeddi yn yr iaith y cânt eu cyflwyno ynddi. Rydym yn disgwyl i sefydliadau eraill weithredu eu safonau neu'u cynlluniau eu hunain a chydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol.
- 1.7 Os na fyddwn yn cyrraedd y safon hon, bydd cofnod swyddogol yn cael ei greu a champau'n cael eu cymryd er mwyn atal hyn rhag digwydd eto.
- 1.8 Bydd gohebiaeth gan neu ar ran y Llywydd i'r holl Aelodau, sy'n ymwneud â busnes y Cyfarfod Llawn, yn ddwyieithog.

2 Paratoi ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgor

- 2.1 Mae fersiynau Cymraeg a Saesneg o ddogfennau cyhoeddus ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgor ar gael yn gydamserol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd.
- 2.2 Bydd papurau mewnol a phreifat ar gael yn newis iaith swyddogol aelodau unigol.
- 2.3

- 2.4** Bydd pwyllgorau yn gofyn o'r cychwyn cyntaf i ddogfennau neu ymatebion ysgrifenedig i ymgynghoriadau gan sefydliadau allanol a thrydydd parti y bwriedir eu cyhoeddi a / neu eu defnyddio yn nhrefodion y Cynulliad Cenedlaethol gael eu cyflwyno'n ddwyieithog.
- 2.5** Pan nad yw'n bosibl cael dogfennau gan sefydliadau allanol a thrydydd parti yn y ddwy iaith, rydym yn eu cyhoeddi yn yr iaith y'u cyflwynwyd, gan nodi bod y dogfennau wedi dod i law yn yr iaith honno yn unig.
- 2.6** Mae papurau ategol eraill a ddarperir gan drydydd parti, gan gynnwys gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru (e.e. atebion i gwestiynau llafar ac ysgrifenedig), yn cael eu cyhoeddi yn yr iaith/ieithoedd y cânt eu cyflwyno ynddynt. Rydym yn disgwyl sefydliadau eraill i weithredu eu safonau neu'u cynlluniau eu hunain a chydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol.
- 2.7** Bydd yr ohebiaeth rhwng y Llywydd a holl Gadeiryddion y Pwyllgorau yn ddwyieithog. Mae llythyrau sydd wedi'u cyhoeddi ar gael yn y ddwy iaith swyddogol. Mater i Gadeiryddion y pwyllgorau yw iaith yr ohebiaeth rhwng Cadeiryddion unigol y pwyllgorau.

3 Cymryd rhan ym musnes y Cynulliad

- 3.1** Gall y rhai sy'n cymryd rhan yn nhrefodion swyddogol y Cynulliad ddefnyddio'r naill iaith swyddogol neu'r llall, neu'r ddwy iaith.
- 3.2** Mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael i Aelodau'r Cynulliad, tystion a staff y Cynulliad sy'n cymryd rhan yn nhrefodion y Cynulliad neu'n eu cefnogi. Darperir ffrwd sain i'r rhai sy'n gwyllo'r trafodion ar bob un o'n llwyfannau yn yr ieithoedd gwreiddiol a'r iaith y cyfieithir iddi.
- 3.3** Mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael i ymwelwyr yn orielau cyhoeddus ac ystafelloedd pwyllgora y Senedd a Thŷ Hywel ac ar draws ystâd y Cynulliad yn ystod trafodion a digwyddiadau'r Cynulliad. Mae'r gwasanaeth hwn hefyd ar gael ar gyfer busnes swyddogol neu ddigwyddiadau oddi ar ystâd y Cynulliad.
- 3.4** Gall Aelodau'r Cynulliad, eu staff cymorth a staff y Cynulliad ddilyn trafodion y Cynulliad yn yr iaith wreiddiol neu wrando ar gyfieithiad ohonynt (o'r Gymraeg i'r Saesneg) ar y sianel deledu fewnol.
- 3.5** Mae ein cyfleusterau fideogynadleda yn caniatáu i Aelodau a thystion ddefnyddio'r iaith swyddogol o'u dewis yn ystod trafodion pan fydd hynny'n dechnegol bosibl.

4 Cofnodi'r Cyfarfod Llawn

- 4.1 Mae fersiwn dreigl nad yw wedi'i golygu o Gofnod y Trafodion yn cael ei chyhoeddi oddeutu awr ar ôl i'r Cyfarfod Llawn ddechrau. Mae'n cynnwys cyfraniadau yn yr ieithoedd swyddogol a siaredir ynghyd â thrawsgrifiad o'r cyfieithu ar y pryd o gyfraniadau Cymraeg.
- 4.2 Mae fersiwn cwbl ddwyieithog wedi'i golygu o Gofnod y Trafodion, gan gynnwys cyfraniadau Saesneg wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg, yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cynulliad o fewn tri diwrnod gwaith neu'n gynt os oes modd.
- 4.3 Pan ddangosir fideo yn ystod y Cyfarfod Llawn, mae hyperlinc i'r deunydd a ddefnyddir yn cael ei gynnwys yng Nghofnod y Trafodion ynghyd â thrawsgrifiad o unrhyw gyfraniadau llafar yn yr ieithoedd swyddogol.

5 Cofnodi cyfarfodydd Pwyllgor

- 5.1 Mae trawsgrifiadau drafft wedi'u golygu o drafodion y pwyllgorau, ynghyd â thrawsgrifiad o'r cyfieithu ar y pryd o gyfraniadau Cymraeg, yn cael eu cyhoeddi o fewn 3 diwrnod gwaith, a thrawsgrifiad terfynol wedi'i olygu yn cael ei gyhoeddi o fewn 10 diwrnod gwaith.
- 5.2 Pan ddangosir fideo yn ystod trafodion pwyllgor, mae hyperlinc i'r deunydd a ddefnyddir yn cael ei gynnwys yn y trawsgrifiad o'r pwyllgor ynghyd â thrawsgrifiad o unrhyw gyfraniadau llafar yn yr ieithoedd swyddogol gan gynnwys cyfieithiad o'r Gymraeg i'r Saesneg

6 Cymorth i Gomisiwn y Cynulliad

- 6.1 Mae fersiynau Cymraeg a Saesneg o agendâu, cofnodion a phapurau ategol ar gael yn gydamserol ar gyfer Comisiynwyr y Cynulliad.
- 6.2 Darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gyfer cyfarfodydd Comisiwn y Cynulliad
- 6.3 Cyhoeddir adroddiadau cyhoeddedig a phapurau cyfarfodydd sy'n ymwneud â busnes Comisiwn y Cynulliad yn y ddwy iaith swyddogol.
- 6.4 Mae deunydd cyfathrebu Comisiwn y Cynulliad i Aelodau'r Cynulliad, staff y Cynulliad a'r cyhoedd ar gael yn y ddwy iaith swyddogol.
- 6.5 Mae Comisiwn y Cynulliad yn ymateb i bob gohebiaeth yn newis iaith y derbynnydd o fewn 15 diwrnod gwaith.

7 Grwpiau trawsbleidiol

- 7.1 Mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael ar gyfer cyfarfodydd grwpiau trawsbleidiol ar gais.
- 7.2 Mae Comisiwn y Cynulliad yn darparu ar gyfer cyfieithu adroddiadau blynyddol a chofnodion grwpiau trawsbleidiol.

8 Hysbysebion a gohebiaeth etholaethol Aelodau'r Cynulliad

- 8.1 Rhoddir cyfeiriadau e-bost i Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth yn y ddwy iaith swyddogol enw.cyfenw@cynulliad.cymru a name.surname@assembly.wales. Gallant ddewis pa gyfeiriad i'w ddefnyddio, ond gellir defnyddio'r naill neu'r llall i gysylltu â hwy.
- 8.2 Mae cronfa gyfieithu ar gael i Aelodau unigol o'r Cynulliad er mwyn hwyluso'r defnydd o'r iaith swyddogol o'u dewis er mwyn sgwrsio, gohebu neu gyfathrebu â'u hetholwyr. Mae'r gronfa hon ar gael i gefnogi'r Aelodau drwy ddarparu gwasanaeth cyfieithu testun a chyfieithu ar y pryd.
- 8.3 Rhaid i unrhyw ddeunyddiau (fel papur â phennawd, cardiau busnes, hysbysebion ar gyfer cymorthfeydd ac adroddiadau) sy'n cael eu hariannu gan Gomisiwn y Cynulliad neu'r Bwrdd Taliadau gael eu cynhyrchu'n ddwyieithog
- 8.4 Mae'r Comisiwn yn darparu templed dwyieithog ar gyfer dylunio gwefannau Aelodau'r Cynulliad sy'n cael eu hariannu gan Gomisiwn y Cynulliad neu'r Bwrdd Taliadau.
- 8.5 Gall Aelodau'r Cynulliad ddefnyddio'r gronfa gyfieithu y cyfeirir ati uchod gyfieithu cynnwys eu gwefannau.

9 Cefnogi a datblygu sgiliau iaith

- 9.1 Mae Comisiwn y Cynulliad, drwy'r Tîm Sgiliau Iaith, wedi ymrwymo i ddarparu cymorth hyblyg wedi'i deilwra ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth i ddatblygu neu wella eu sgiliau iaith.
- 9.2 Mae Comisiwn y Cynulliad yn darparu amgylchedd dysgu i'r Aelodau a'u staff cymorth sy'n eu helpu i ddysgu a datblygu eu sgiliau Cymraeg, boed hynny drwy addysgu, hyfforddi neu ddefnyddio adnoddau ar eu cyflymder eu hunain.
- 9.3 Rydym yn darparu llinynnau gwddf 'Iaith Gwaith' neu 'Dysgwr' i Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth.
- 9.4 Gellir ffurfweddu ein rhyngwyneb Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) i'w ddefnyddio yn y naill iaith swyddogol neu'r llall. Darperir Cysgliad, y feddalwedd gramadeg a gwirio sillafu Cymraeg, yn ddi-ofyn i bob Aelod Cynulliad a'u staff cymorth o'r cychwyn cyntaf.
- 9.5 Mae cyngor ar dechnoleg iaith, gan gynnwys Microsoft Translator, a sut i'w defnyddio'n briodol, ar gael ar Fewnrwyd yr Aelodau ac mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol yn daprau sesiynau hyfforddiant ar y defnydd o'r Gymraeg ar y cyfrifiadur.

10 Deunydd cyfathrebu i Aelodau'r Cynulliad gan staff y Cynulliad

- 10.1 Rydym yn darparu fersiynau dwyieithog o fewnwyd yr Aelodau.
- 10.2 Rydym yn cyfathrebu ag Aelodau'r Cynulliad yn eu dewis iaith neu'n ddwyieithog.
- 10.3 Gall Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth ohebu â holl feysydd gwasanaeth y Cynulliad yn yr iaith swyddogol o ddewis yr Aelodau, a bydd y maes gwasanaeth yn ymateb yn yr un iaith.
- 10.4 Mae gan Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth yr hawl i sgwrsio gyda staff y Cynulliad yn y naill iaith swyddogol neu'r llall. Pan fydd aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg yn ymateb i alwad gan Aelod neu un o'i staff cymorth sy'n siarad Cymraeg, rydym yn disgwyl iddo esbonio nad yw'n siarad Cymraeg a chynnig trosglwyddo'r alwad i gydweithiwr sy'n medru'r iaith neu, os yw'n well gan y sawl sy'n galw, parhau yn Saesneg.
- 10.5 Mae gohebiaeth a anfonir at holl Aelodau'r Cynulliad fel grŵp yn ddwyieithog.
- 10.6 Mae'r holl arwyddion dros dro a pharhaol, a phosteri a thafleuni gwybodaeth y mae Comisiwn y Cynulliad yn eu darparu ar ystâd y Cynulliad ar gael yn ddwyieithog ac yn gydamserol. Y testun Cymraeg sy'n ymddangos gyntaf neu ar y brig. Os darperir fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, maent yn gyfartal o ran safon, fformat, maint ac amlygrwydd.
- 10.7 Rydym yn disgwyl i bosteri neu daflenni gwybodaeth a ddarperir gan drydydd parti sy'n cael eu harddangos ar hysbysfyrdau ar ystâd y Cynulliad fod yn ddwyieithog.
- 10.8 Mae pob un o gyhoeddiadau'r Cynulliad sydd ar gael yn ddwyieithog yn gyfartal o ran safon, fformat, maint ac amlygrwydd, a byddant yn cael eu cynhyrchu yn unol â chanllawiau Comisiwn y Cynulliad ar arddull tŷ.
- 10.9 Wrth ddatblygu gwasanaethau newydd ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth, byddwn yn trin y ddwy iaith swyddogol yn gyfartal.

Safonau gwasanaeth ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu â phobl Cymru

Mae'r Comisiwn wedi ymrwmo i ddarparu gwasanaethau dwyieithog o'r safon uchaf i'r cyhoedd.

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Ieithoedd Swydddogol 2012) yn gosod dyletswydd statudol ar y Comisiwn i alluogi'r cyhoedd i gyfathrebu ac ymgysylltu â'r Cynulliad – boed hynny wyneb yn wyneb, dros y ffôn, ar-lein neu drwy ohebiaeth – yn yr iaith swydddogol o'u dewis.

Gall aelodau'r cyhoedd neu sefydliadau allanol gynnal digwyddiadau neu arddangosfeydd ar ystâd y Cynulliad. Mae'r Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol bod pob digwyddiad o'r fath yn cael ei noddi gan Aelod Cynulliad. Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i drefnwyr digwyddiadau a noddir gan Aelodau'r Cynulliad gydymffurfio â'r rhannau perthnasol hynny o'r Cynllun.

Pan fyddwn yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill, byddwn yn eu hannog i gyrraedd y safonau yr ydym yn eu pennu ar ein cyfer ni ein hunain.

Bydd gofyn i unrhyw gontractau neu drefniadau rhwng y Comisiwn a thrydydd parti (fel asiantaethau recriwtio, cwmnïau arlwy, ymgynghorwyr, contractwyr ac ati) i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd, gydymffurfio â rhannau perthnasol o'r Cynllun hwn.

Pan fyddwn yn datblygu gwasanaethau newydd i'r cyhoedd, neu'n diwygio gwasanaethau presennol yn llwyr, byddant yn ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf.

11 Gohebu â'r cyhoedd (e-bost neu gopi caled)

- 11.1 Rydym yn ymateb i bob eitem o ohebiaeth gan y cyhoedd yn newis iaith y sawl sy'n gohebu o fewn 15 diwrnod gwaith.
- 11.2 Anfonir unrhyw ohebiaeth yn dilyn cyfarfod neu alwad ffôn yn iaith y drafodaeth wreiddiol oni bai ein bod yn cael gwybod y byddai'n well gan y derbynnydd gael yr ohebiaeth yn yr iaith swyddogol arall neu yn y ddwy iaith.
- 11.3 Mae gohebiaeth safonol neu gylchlythyrau at fwy nag un derbynnydd yng Nghymru yn cael eu hanfon yn ddwyieithog.
- 11.4 Pan gaiff fersiynau Cymraeg a Saesneg o unrhyw ohebiaeth eu cyhoeddi ar wahân, mae'r ddwy fersiwn ar gael yn gydamserol ac yn gyfartal o ran safon, fformat, maint ac amlygrwydd.
- 11.5 Mae llofnod awtomatig staff y Cynulliad, a negeseuon sy'n nodi na fyddant yn y swyddfa, yn ddwyieithog. Mae templedi ar gael i sicrhau bod y testun Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran safon, fformat a maint. Y testun Cymraeg sy'n ymddangos gyntaf neu ar y brig.
- 11.6 Mae pob un o gyhoeddiadau'r Cynulliad ar gael yn ddwyieithog, yn gyfartal o ran safon, ffurf, maint ac amlygrwydd, ac yn cael eu cynhyrchu yn unol â chanllawiau Comisiwn y Cynulliad ar arddull tŷ.
- 11.7 Gellir cysylltu â staff y Cynulliad ar gyfeiriadau e-bost yn y naill iaith swyddogol neu'r llall: enw.cyfenw@cynulliad.cymru a name.surname@assembly.wales.

12 Galwadau ffôn

- 12.1** Caiff unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n cysylltu â'r switsfwrdd neu'r dderbynfa yn Nhŷ Hywel, y Senedd, y Pierhead neu Swyddfa Gogledd Cymru ei gyfarch yn ddwyieithog.
- 12.2** Dylai aelodau o staff y Cynulliad ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog. Byddwn yn parhau i sicrhau bod yr adnoddau a'r hyfforddiant priodol ar gael er mwyn iddynt wneud hynny.
- 12.3** Mae gan y cyhoedd yr hawl i sgwrsio â staff y Cynulliad yn y naill iaith swyddogol neu'r llall. Pan fydd aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg yn ymateb i alwad gan siaradwr Cymraeg, rydym yn disgwyl iddo esbonio nad yw'n siarad Cymraeg a chynnig trosglwyddo'r alwad i gydweithiwr sy'n medru'r iaith neu, os yw'n well gan y cwsmer, parhau yn Saesneg.
- 12.4** Mae neges ffôn ddwyieithog ar beiriannau ateb ein prif switsfwrdd a'n derbynfeydd.
- 12.5** Dylai negeseuon llais unigol dros y ffôn gael eu recordio'n ddwyieithog, ac mae adnoddau a hyfforddiant ar gael i hwyluso hyn.

13 Ein delwedd gyhoeddus

- 13.1** Mae'r holl ddulliau hysbysebu, cyhoeddusrwydd ac ymgyrchu, neu ddulliau eraill o ymgysylltu, sy'n targedu'r cyhoedd yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog. O bryd i'w gilydd, gall hyn olygu cael deunyddiau neu gynnyrch Cymraeg a Saesneg ar wahân, a byddant bob amser ar gael yn gydamserol. Y testun Cymraeg sy'n ymddangos gyntaf neu ar y brig. Os yw'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar gael ar wahân, byddant yn gyfartal o ran safon, fformat, maint ac amlygrwydd.
- 13.2** Mae ein hunaniaeth gorfforaethol yn un ddwyieithog. Fodd bynnag, adnabyddir rhai termau gan un enw yn y ddwy iaith swyddogol, gan gynnwys y rhai a ganlyn:
- Llywydd
 - Senedd, Neuadd, Cwrt, Oriel, Siambr;
 - Tŷ Hywel; Siambr Hywel; a
 - Pierhead.

14 Gwasanaethau ymgysylltu a gwybodaeth gyhoeddus

- 14.1** Mae gwybodaeth i'r cyfryngau yn gyffredinol yn cael ei chyhoeddi'n ddwyieithog. Darperir eitemau arbennig ar gyfer aelodau unigol o'r cyfryngau yn yr iaith swyddogol o'u dewis.
- 14.2** Mae gwybodaeth am y Cynulliad Cenedlaethol yn cael ei chyhoeddi ar ddwy wefan, un yn Gymraeg, www.cynulliad.cymru, a'r llall yn Saesneg, www.assembly.wales.
- 14.3** Mae gwasanaethau allgymorth ar gael yn y naill iaith swyddogol neu'r llall. Caiff defnyddwyr y gwasanaeth y cyfle i ddewis iaith wrth drefnu ymweliad gan y tîm allgymorth.
- 14.4** Mae ein ffrydiau cyfryngau cymdeithasol ar gael yn ddwyieithog, naill ai mewn un cyfrif dwyieithog neu mewn cyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân
- 14.5** Mae ein polisi cyfryngau cymdeithasol yn amlinellu sut y byddwn yn sicrhau presenoldeb dwyieithog priodol.
- 14.6** Bydd ein presenoldeb ar bob plattform ymgysylltu digidol newydd yn ddwyieithog.
- 14.7** Pan na fydd y plattformau hyn ar gael yn ddwyieithog, bydd unrhyw gynnwys a gyhoeddir gennym ni yn ddwyieithog, a byddwn yn annog ein rhanddeiliaid i gyfrannu yn eu dewis iaith swyddogol.
- 14.8** Rydym yn ymateb i ymholiadau ar ein holl broffiliau yn y cyfryngau cymdeithasol yn yr iaith y'u cyflwynwyd.
- 14.9** Gall y cyhoedd wyllo trafodion y Cynulliad ar Senedd.tv, sianel ddarlledu ar-lein y Cynulliad, a hynny naill ai gyda neu heb gyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg.
- 14.10** Mae fideos gwybodaeth a gynhyrchir gan y Cynulliad ar gael yn ddwyieithog.
- 14.11** At ddibenion busnes Pwyllgorau, caiff tystiolaeth fideo ei darlledu yn yr iaith wreiddiol gydag is-deitlau Saesneg i gyd-fynd â chyfraniadau Cymraeg. Mae trawsgrifiadau o ddeunydd ffilm ar gael yn yr iaith wreiddiol gyda chyfieithiad o'r Gymraeg i'r Saesneg yn ôl yr angen.
- 14.12** Mae unrhyw raglenni (apiau), gwefannau neu offer ar-lein yr ydym yn eu creu neu'n eu comisiynu ar gael yn ddwyieithog.
- 14.13** Ar gyfer yr holl gyfarfodydd, seminarau, digwyddiadau neu arddangosfeydd cyhoeddus a drefnir gan Gomisiwn y Cynulliad ar neu oddi ar ystâd y Cynulliad rydym yn:
- anfon gwahoddiadau dwyieithog ac yn cynhyrchu deunydd cyhoeddusrwydd dwyieithog;
 - darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn ôl y galw ac yn rhoi gwybod i'r rhai sy'n debygol o fod yn bresennol bod y cyfleuster hwn ar gael yn y digwyddiad;
 - darparu papurau ategol ac unrhyw adroddiadau dilynol yn ddwyieithog;
 - sicrhau bod staff dwyieithog ar gael ym mhob cyfarfod/digwyddiad o'r fath.

15 Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth

- 15.1** Pan fyddwn yn ymateb i gais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, byddwn yn gohebu â'r sawl sy'n gwneud cais yn eu dewis iaith swyddogol. Yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac arfer gorau. Wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth, caiff y wybodaeth ei darparu yn yr iaith y'i cedwir gan y Comisiwn.

16 Ymwelwyr ag ystâd y Cynulliad Cenedlaethol

- 16.1** Gall y cyhoedd ddisgwyl gallu sgwrsio â staff rheng flaen naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg yn y manau cyhoeddus hynny a reolir gan Gomisiwn y Cynulliad (y Senedd, y Pierhead, Tŷ Hywel a Swyddfa Gogledd Cymru, ac mewn cyfarfodydd pwyllgor a digwyddiadau cyhoeddus a gynhelir oddi ar ystâd y Cynulliad).
- 16.2** Mae ymweliadau addysgol a theithiau o amgylch y Senedd ar gael yn y naill iaith swyddogol neu'r llall a rhai ieithoedd eraill. Caiff ymwelwyr y cyfle i ddewis iaith wrth drefnu ymweliad.
- 16.3** Mae teithiau o amgylch y Senedd ar fyr rybudd ar gael yn ein hieithoedd swyddogol a rhai ieithoedd eraill.
- 16.4** Mae cyhoeddiadau clywedol dros y system gyhoeddiadau cyhoeddus ar yr ystâd, gan gynnwys y liffiau, yn ddwyieithog.
- 16.5** Gall ymwelwyr â Chaffi'r Senedd a'r siop ddisgwyl cael gwasanaeth dwyieithog.
- 16.6** Mae modd adnabod aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg neu sy'n ddysgwyr yn hawdd drwy'r defnydd o linyddau gwddf 'Iaith Gwaith' neu 'Dysgwr'.

17 Digwyddiadau ac arddangosfeydd a noddir gan Aelodau'r Cynulliad ar ystâd y Cynulliad

- 17.1** Disgwylir i sefydliadau sy'n cynnal digwyddiadau ar ystâd y Cynulliad anfon gwahoddiadau dwyieithog i'r digwyddiad, a hynny yn enw'r Aelod Cynulliad sy'n eu noddi, ac mae'n ofynnol iddynt anfon y gwahoddiadau at dîm digwyddiadau'r Cynulliad i'w cymeradwyo cyn eu defnyddio.
- 17.2** Bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau a gynhelir gan sefydliadau allanol ar ystâd y Cynulliad ar gais yr Aelod o'r Cynulliad sy'n noddi'r digwyddiad.
- 17.3** Disgwylir i sefydliadau sy'n destun safonau'r Gymraeg neu gynlluniau iaith Gymraeg sy'n cynnal digwyddiadau ar ystâd y Cynulliad ac sy'n targedu Aelodau'r Cynulliad neu'r cyhoedd, weithredu yn unol â'r safonau neu'r cynlluniau hynny mewn perthynas â gwybodaeth gyhoeddus a'u delwedd gyhoeddus.
- 17.4** Anogir sefydliadau nad ydynt yn destun cynllun neu safonau iaith i weithredu yn unol ag egwyddorion y Cynllun hwn.

18 Gweithio mewn partneriaeth

- 18.1 Pan fydd Comisiwn y Cynulliad yn gweithredu fel arweinydd strategol ac ariannol mewn partneriaeth ffurfiol bydd elfennau gwasanaeth cyhoeddus y bartneriaeth honno yn cydymffurfio â'r Cynllun hwn.
- 18.2 Pan fydd Comisiwn y Cynulliad yn ymuno â phartneriaeth ffurfiol a arweinir gan eraill, bydd mewnbwn y Comisiwn yn cydymffurfio â'r Cynllun hwn. Byddwn yn annog partneriaid eraill i barchu egwyddorion y Cynllun hwn.
- 18.3 Pan fydd Comisiwn y Cynulliad yn dod yn bartner mewn consortiwm, byddwn yn annog y consortiwm i gydymffurfio â'r Cynllun hwn. Pan fyddwn yn gweithredu yn enw'r consortiwm hwn, byddwn yn gwneud hynny yn unol â'r Cynllun hwn.
- 18.4 Mae fersiynau terfynol o ddogfennau cyfreithiol a chytundebau cyfreithiol ag unigolion, sefydliadau neu grwpiau ar gael yn newis iaith swyddogol y partner.

19 Gwasanaethau trydydd parti

- 19.1 Bydd unrhyw wasanaethau i'r cyhoedd a ddarperir o dan gontract neu drefniant rhwng Comisiwn y Cynulliad a thrydydd parti (fel asiantaethau recriwtio, cwmnïau arlwy, ymgynghorwyr, contractwyr ac ati) yn cydymffurfio â'r rhannau perthnasol o'r Cynllun hwn.
- 19.2 Rydym yn sicrhau bod ein holl gontractwyr yn deall ein hymrwymiad i hyrwyddo dwyieithrwydd ac nid dim ond cydymffurfio â'n safonau ond hefyd chwilio am gyfleoedd i wella gwasanaethau dwyieithog.
- 19.3 Mae ein holl dogfennau caffael yn nodi ein Cynllun ac ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau dwyieithog. Maent hefyd yn nodi'r gofynion ar drydydd parti i gydymffurfio â'r Cynllun.
- 19.4 Anfonir gwahoddiadau i gyflwyno tendr at gyflenwyr yn ddwyieithog neu yn eu dewis iaith os bydd hynny'n hysbys. Oni bai fod pawb sy'n ymwneud â'r broses yn gallu gweithio'n ddwyieithog, at ddibenion gwerthusiad mewnol, caiff unrhyw geisiadau ar gyfer tendr a gyflwynir yn Gymraeg eu cyfieithu i'r Saesneg.

20 Datblygu gwasanaethau newydd i'r cyhoedd

- 20.1 Pan fyddwn yn datblygu gwasanaethau newydd i'r cyhoedd, byddwn yn trin y ddwy iaith swyddogol yn gyfartal. Bydd gwasanaethau newydd i'r cyhoedd yn ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf.

Safonau gwasanaeth ar gyfer ein staff er mwyn hwyluso gweithio'n ddwyieithog

Canfu'r Archwiliad Sgiliau mewnol a gynhaliwyd gennym yn 2015 fod tua thri chwarter y staff y mae'r Comisiwn yn ei gyflogi yn ystyried eu bod yn ddysgwyr, bod ganddynt rywfaint o sgiliau dwyieithog neu eu bod yn gwbl ddwyieithog. Mae hyn yn dangos ymrwymiad enfawr y sefydliad i gynyddu ei gapasiti dwyieithog.

Mae ein Strategaeth Sgiliau Dwyieithog yn ein helpu i reoli ein hadnodd sgiliau, gan ystyried arferion gorau mewn cynllunio ieithyddol a chynllunio'r gweithlu, gan gynnwys canllawiau gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, ac yn unol â'r ddeddfwriaeth cyflogaeth a chydaddoldeb berthnasol.

Rydym yn sicrhau bod y staff yn deall gofynion y Ddeddf, y Cynllun Ieithoedd Swyddogol a'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog a sut maent yn effeithio ar y gwasanaethau a ddarparwn. Gall ein staff ddisgwyl:

- mynediad i gymorth hyblyg wedi'i deilwra i aelodau o staff sy'n dymuno datblygu neu wella eu sgiliau iaith, a chynghor cadarn ar weithio'n ddwyieithog;
- cyfathrebu dwyieithog gyda'r holl staff megis mewnwyd y staff a negeseuon e-bost i'r holl staff;
- y gallu i gyfrannu at gyfarfodydd gyda'r holl staff yn y naill iaith swyddogol neu'r llall;
- rhyngwyneb TGCh y gellir ei ffurfweddu i'w ddefnyddio yn y naill iaith swyddogol neu'r llall;
- cael cyfieithiad o unrhyw ddogfen y maent wedi'i drafftio i unrhyw un o ieithoedd swyddogol y Cynulliad gan Wasanaeth Cyfieithu a Chofnodi y Cynulliad yn ogystal â gwasanaeth gwirio testun yn y naill iaith neu'r llall;
- cymorth i ddrafftio testun yn ddwyieithog, gan gynnwys cynghor ar y dechnoleg iaith sydd ar gael a sut i'w defnyddio'n briodol, yn ogystal â'r defnydd o wasanaeth gwirio testun cyflym ar gyfer cynnwys sy'n cael ei ddrafftio gyda chymorth cyfieithu peirianyddol; a
- derbyn dogfennau corfforaethol Adnoddau Dynol a Chyllid mewnol yn ddwyieithog neu yn eu dewis iaith swyddogol.

Yr hyn rydym yn ei ddisgwyl gan ein staff:

- bod yn gwbl ymroddedig i roi'r Cynllun hwn ar waith a darparu'r gwasanaethau dwyieithog sydd wedi'u hamlinellu ynddo;
- parchu hawliau Aelodau, cydweithwyr a'r cyhoedd i ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall neu'r ddwy iaith swyddogol;
- sicrhau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r cyd-destun hanesyddol, cymdeithasol, diwylliannol a chyfreithiol sy'n sail i ddatblygiad y Cynllun hwn a'r gwasanaethau dwyieithog a ddarperir gennym; a
- datblygu gwasanaethau newydd yn unol â darpariaethau'r Ddeddf a'r Cynllun.

Yr hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gan fwrdd rheoli staff y Cynulliad:

- ystyried gofynion y Ddeddf a'r Cynllun hwn wrth ymgymryd â'u dyletswyddau fel Penaethiaid Gwasanaeth neu Arweinwyr Tîm o ddydd i ddydd;
- datblygu cynlluniau iaith ar gyfer pob maes gwasanaeth a chyfrannu at ddatblygiad yr adroddiad blynyddol ar weithredu'r Cynllun hwn;
- arwain drwy esiampl a chwilio am ffyrdd o wella'r gwasanaethau dwyieithog a gynigiwn a mynd i'r afael ar unwaith ag unrhyw achosion pe bai'r ddarpariaeth islaw'r safon ddisgwyliedig;
- annog a chefnogi staff sy'n dymuno gweithio'n ddwyieithog;
- annog a chefnogi staff sy'n dymuno datblygu neu wella eu sgiliau iaith, ac
- ystyried sut mae ein prosesau cynllunio ieithyddol, ein cyfleoedd hyfforddi a'n dull recriwtio yn rhoi ystyriaeth lawn i'r angen am sgiliau dwyieithog ar draws y sefydliad ochr yn ochr â blaenoriaethau busnes allweddol eraill (fel yr amlinellir yn yr adran hon).

21 Cyfathrebu â staff

- 21.1** Mae templedi ar gyfer dogfennaeth gorfforaethol yn ddwyieithog.
- 21.2** Mae pob neges ar ein tudalen newyddion i staff, negeseuon e-bost at yr holl staff ac arolygon staff yn ddwyieithog. Mae'r ddwy fersiwn yn gyfartal o ran safon, fformat, maint ac amlygrwydd.
- 21.3** Mae unrhyw wybodaeth newydd y mae staff yn ei datblygu am eu gwasanaethau (e.e. Gwybodaeth ar y rhyngwyd ac ar ffurf copi caled) yn ddwyieithog.
- 21.4** Mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael ym mhob cyfarfod i'r holl staff, ac ar gais ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau eraill (e.e. cyfarfodydd tîm, byrddau prosiect, gweithgorau).
- 21.5** Caiff cyfarfodydd y bwrdd rheoli eu cynnal yn ddwyieithog. C
- 21.6** Mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael i aelodau unigol o staff ar gais ar gyfer cyfarfodydd yn ymwneud â chyflogaeth (h.y. adolygiadau perfformiad, cwynion neu brosesau disgyblu).
- 21.7** Mae gwasanaeth cyfieithu testun ar gael ar gyfer staff unigol ar gais ar gyfer unrhyw faterion yn ymwneud â chyflogaeth (megis adolygiadau perfformiad, cwynion neu brosesau disgyblu).

22 Gweithio'n ddwyieithog

- 22.1 Mae'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi yn darparu gwasanaethau gwirio testun amrywiol i staff y Cynulliad.
- 22.2 Mae gwybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir gan y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi, a sut i gomisiynu a defnyddio'r gwasanaethau hynny ar gael ar Fewnwyd y staff.
- 22.3 Mae'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi yn cynnal deialog gyda chanolfannau rhagoriaeth yng Nghymru a thu hwnt er mwyn sicrhau ei fod yn cael gwybodaeth am y datblygiadau diweddaraf mewn technoleg iaith a chyfieithu.
- 22.4 Mae gwybodaeth a chanllawiau ynghylch argaeledd a defnydd priodol o dechnoleg iaith, gan gynnwys cyfieithu peirianyddol, yn cael ei chyhoeddi ar Fewnwyd y staff a darperir hyfforddiant ar gais.
- 22.5 Gellir ffurfweddu ein rhyngwyneb TGCh i'w ddefnyddio yn y naill iaith swyddogol neu'r llall, ac mae cyngor ar ffurfweddu ar gael ar Fewnwyd y staff. Darperir Cysgliad, y feddalwedd gramadeg a gwirio sillafu Cymraeg, yn ddi-ofyn i bob aelod o staff o'r cychwyn cyntaf.
- 22.6 Gellir ffurfweddu ein system Adnoddau Dynol a chyflogres i'w defnyddio yn y naill iaith swyddogol neu'r llall, ac mae cyngor ar ffurfweddu ar gael ar Fewnwyd y staff.

23 Strategaeth Sgiliau Dwyieithog

- 23.1 Yn unol â'r Ddeddf, mae Strategaeth Sgiliau Dwyieithog yn ei lle i sicrhau bod staff y Cynulliad, ar y cyd, ac ar draws y meysydd gwasanaeth, yn meddu ar y sgiliau iaith angenrheidiol i alluogi'r Cynllun i gael ei weithredu.
- 23.2 Caiff cynlluniau iaith meysydd gwasanaeth unigol eu paratoi a'u hadolygu'n rheolaidd er mwyn cynllunio ar gyfer darparu gwasanaethau dwyieithog, a sicrhau bod aelodau'r staff yn cael y gefnogaeth ac yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddarparu'r gwasanaethau hynny.

24 Rhaglen gynefino ac ymwybyddiaeth

- 24.1 Fel rhan o'r broses gynefino gorfforaethol, bydd pob aelod newydd o staff yn cael ei hysbysu am ofynion y Cynllun hwn, ac ymrwymiad y Cynulliad i ddarparu gwasanaethau dwyieithog rhagorol.
- 24.2 Bydd pob aelod newydd o staff yn cael gwybod am y cymorth sydd ar gael i ddatblygu neu wella eu sgiliau iaith fel rhan o'r broses gynefino.
- 24.3 Rydym yn darparu llinynnau gwddf 'Iaith Gwaith' neu 'Dysgwr' i aelodau o staff fel y bo'n briodol.
- 24.4 Bydd pob aelod o staff yn ymwybodol o ofynion iaith eu swydd benodol hwy o'r cychwyn cyntaf. Caiff ymgeiswyr eu hasesu yn briodol yn ystod y broses recriwtio er mwyn sicrhau eu bod yn gyffyrddus â'r hyn sy'n ddisgwyliedig o ddeiliad y swydd. Caiff y system rheoli perfformiad ei ddefnyddio i adolygu dealltwriaeth deiliaid swyddi

o ofynion iaith eu swydd, ac i nodi unrhyw gymorth pellach sydd ei angen ar unigolion er mwyn cyrraedd y safonau disgwylidig.

DRAFT

DRAFT

Adran 3

Themâu ar gyfer cyfnod y
Cynllun hwn

Roedd yr adran flaenorol yn amlinellu ein safonau gwasanaeth presennol. Mae'r adran hon yn amlinellu sut rydym yn bwriadu adeiladu ar y safonau hynny er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein huchelgais. Byddwn yn canolbwyntio ar y pum thema ganlynol:

Thema 1: Recriwtio

Ym mis Mehefin 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad y Gweithgor ar yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Leol, o'r enw 'Iaith, Gwaith a Gwasanaethau Dwyieithog'¹. Yn ogystal â phwysleisio pwysigrwydd hyfforddiant iaith yn y gweithle, mae hefyd yn argymhell ffordd gymharol newydd o recriwtio gweithlu dwyieithog. Yn hytrach na disgrifio swyddi a hysbysebiri fel 'Cymraeg yn hanfodol', 'Cymraeg yn ddymunol', neu ddim un o'r rhieni, mae'n argymhell fframwaith rhuglder. Mae'r fframwaith, sy'n seiliedig ar y model rhuglder ALTE a gydnabyddir yn rhyngwladol, yn cynnwys lefelau graddedig o hyfedredd yn y Gymraeg. O dan y fframwaith, byddai angen rhyw lefel sylfaenol o ddealltwriaeth o'r Gymraeg ar gyfer pob swydd a hysbysebiri, er y byddai llawer ohonynt ar y lefel isaf lle mae angen 'cwrteisi ieithyddol sylfaenol' yn unig.

Mae nifer o sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru eisoes yn defnyddio'r dull newydd hwn, gan gynnwys Heddlu Gogledd Cymru, a chynghorau sir Caerdydd, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Mae dull gweithredu a fabwysiadwyd gan y sefydliadau hyn wedi creu argraff arnom, ac felly rydym yn bwriadu mabwysiadu dull gweithredu tebyg, mwy soffistigedig tuag at recriwtio staff dwyieithog ar draws y sefydliad cyfan. Ar y cyd â'r cymorth sydd ar gael i bob aelod o staff feithrin y sgiliau perthnasol ar gyfer pob un o'r lefelau rhuglder, rydym yn credu ein bod mewn sefyllfa dda i gyflwyno system o'r fath ar gyfer staff Comisiwn y Cynulliad.

Felly, er mwyn cynyddu lefel y sgiliau iaith Gymraeg sylfaenol ar draws y sefydliad dros amser, ac i adeiladu ar ein hethos dwyieithog presennol, erbyn diwedd 2017, byddwn yn:

- mabwysiadu dull lle mae angen o leiaf lefel sylfaenol o sgiliau Cymraeg ('cwrteisi ieithyddol sylfaenol') ar gyfer pob swydd a hysbysebiri a bod disgwyl i ymgeiswyr ddangos tystiolaeth o'r sgiliau hynny adeg eu penodi, neu ymrwymiad i ddysgu'r sgiliau hynny fel rhan o'r broses gynefino;
- rhoi cyngor i'r holl ymgeiswyr ar feithrin y sgiliau iaith priodol cyn eu penodi, gan gynnwys adnoddau arlein;
- darparu hyfforddiant pwrpasol ar gyfer pob aelod newydd o staff y mae'n ofynnol iddo feithrin sgiliau iaith fel rhan o'r broses gynefino;
- datblygu mecanwaith i helpu i bennu'r lefelau rhuglder sy'n ofynnol ar gyfer pob swydd a'u disgrifio yn yr hysbyseb swydd;
- rhoi arweiniad i reolwyr recriwtio ar y geiriad priodol er mwyn adlewyrchu gofynion pob swydd;

¹ [Iaith, Gwaith a Gwasanaethau Dwyieithog: adroddiad y gweithgor ar yr iaith Gymraeg a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru Mehefin 2016](#)

- sicrhau bod Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau Comisiwn y Cynulliad yn craffu ar statws gofyniad ieithyddol pob swydd a hysbysebwr cyn eu cymeradwyo;
- sicrhau bod paneli recriwtio yn gallu asesu sgiliau iaith perthnasol y swydd a hysbysebwyd yn gywir;
- sicrhau bod yr holl ymgeiswyr posibl yn ymwybodol o ethos dwyieithog y sefydliad cyn gwneud cais am swydd;
- ymchwilio i ddulliau amgen o recriwtio staff dwyieithog i feysydd penodol lle nad ydym wedi llwyddo i ddenu pobl iddynt yn y gorffennol.

Thema 2: Sgiliau iaith

Gosododd ein gwaith yn ystod y Pedwerydd Cynulliad y sylfeini ar gyfer ffordd arloesol o gyflwyno sgiliau dysgu Cymraeg i Aelodau'r Cynulliad a'u staff ac ar gyfer aelodau o staff Comisiwn y Cynulliad. Yn ychwanegol at y camau gweithredu ar recriwtio a amlinellir uchod, rydym hefyd wedi ymrwymo i gefnogi pob aelod o staff i ddatblygu neu wella eu sgiliau iaith.

Mae Tîm Sgiliau Iaith wedi'i benodi i ddarparu gwersi Cymraeg ar draws y sefydliad. Bydd gwaith y tîm yn rhoi mwy o ffocws i ddysgu Cymraeg ar gyfer y gweithle. Bydd yn parhau i gynnig gwasanaeth hyblyg a phwrpasol, yn arbennig i Aelodau'r Cynulliad sy'n ddysgwyr neu sy'n dymuno gwella eu sgiliau dwyieithog presennol. Mae'r dull hyblyg a phwrpasol hefyd wedi gweithio'n dda ar gyfer meysydd gwasanaeth megis y gwasanaethau Diogelwch a Cyswllt Cyntaf. Fodd bynnag, bydd y tîm hefyd yn rhoi targed dysgu penodol bob blwyddyn i bob dysgwr sy'n cofrestru ar gyrsiau dan arweiniad tiwtor. Bydd rheolwyr llinell yn cefnogi aelodau o staff i gyrraedd eu targedau a bydd cynnydd yn cael ei gysylltu â'r sgiliau iaith a nodwyd fel rhan o'r graddau rhuglder (gweler 'Recriwtio' uchod). Defnyddir cynnydd dysgwyr i ddiweddarau cynlluniau iaith meysydd gwasanaeth unigol a chaiff ei gydnabod fel rhan o'r system rheoli perfformiad.

Felly, erbyn diwedd 2017, byddwn yn:

- datblygu rhaglen o hyfforddiant sgiliau iaith pwrpasol gan ystyried gofynion a dulliau dysgu gwahanol yr holl aelodau o staff;
- datblygu hyfforddiant penodol ar gyfer rhannau penodol o'r sefydliad megis y gwasanaeth Diogelwch er mwyn rhoi'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i bob aelod o staff i ddarparu gwasanaeth dwyieithog rhagorol i gwsmeriaid;
- gweithio gyda meysydd gwasanaeth i edrych ar ffyrdd o weithio'n wahanol a defnyddio arbenigedd o feysydd gwasanaeth eraill megis y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi i ddarparu gwasanaethau dwyieithog;
- cyflwyno systemau mwy cadarn i osod targedau ar gyfer dysgwyr ac i gydnabod cyflawniadau;
- parhau i gynnig darpariaeth dysgu Cymraeg bwrpasol a hyblyg i Aelodau'r Cynulliad a'u staff;
- archwilio modelau newydd, amrywiol ac arloesol o helpu dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau iaith, er enghraifft secondiadau a chynlluniau trochi ieithyddol, ac yn treialu'r modelau hyn dros gyfnod y cynllun hwn.

Thema 3: Cynllunio ieithyddol

Er mwyn i'r holl gamau gweithredu a restrir uchod fod yn effeithiol, bydd angen i holl feysydd gwasanaeth y Cynulliad gynllunio'n effeithiol ar gyfer darparu gwasanaethau dwyieithog. Bydd y system recriwtio newydd yn cael ei chefnogi gan hyfforddiant sgiliau iaith priodol, a fydd, yn ei dro, yn arwain at fwy o gapasiti dwyieithog. Roedd y Strategaeth Sgiliau Dwyieithog a gynhaliwyd o dan y Cynllun Ieithoedd Swyddogol yn ei gwneud yn ofynnol i feysydd gwasanaeth gyhoeddi eu cynlluniau iaith eu hunain. Mae'r rhain yn nodi capasiti dwyieithog y tîm mewn perthynas â swyddogaethau'r gwasanaethau o ddydd-i-ddydd, ac yn amlinellu sut mae pob tîm yn gwneud y defnydd gorau o'r sgiliau iaith sydd o fewn y tîm a thu hwnt iddo. Ar gyfer y Pumed Cynulliad, bydd angen i'r cynlluniau iaith fod yn fwy cadarn a byddant yn adlewyrchu cynnydd dysgwyr Cymraeg unigol. Dylid rhoi mwy o gydnabyddiaeth ffurfiol sy'n gysylltiedig â gyrfa i aelodau o staff sy'n manteisio ar gyfleoedd hyfforddi gyda'r Tîm Sgiliau Iaith. Dylai hyn gael ei adlewyrchu yn system rheoli perfformiad y Cynulliad.

Felly, byddwn yn:

- adolygu'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog yn ystod oes y Cynllun. Dylai'r adolygiad, a'r strategaeth ddilynol, gydnabod y buddsoddiad a wneir gan ddysgwyr Cymraeg unigol, y Tîm Sgiliau Iaith a rheolwyr llinell wrth ddysgu Cymraeg;
- gweithio i wella effeithiolrwydd cynlluniau iaith meysydd gwasanaeth unigol i gefnogi ein gwaith ar recriwtio;
- gweithio â gwasanaethau unigol i adolygu eu cynlluniau iaith fel rhan o gynllunio capasiti blynyddol meysydd gwasanaeth ac fel rhan o adroddiadau cydymffurfio blynyddol y Cynllun hwn; ac
- edrych ar ffyrdd o gadw gwybodaeth gyfoes am sgiliau iaith ar fformat adroddiadwy naill ai drwy ein system Adnoddau Dynol a chyflogres neu drwy ein system rheoli perfformiad.

Thema 4: Trafodion y Cynulliad

Cynyddodd y gwaith a wnaed yn ystod y Pedwerydd Cynulliad y cyfleoedd a roddir i Aelodau'r Cynulliad i baratoi ar gyfer trafodion y Cynulliad a chymryd rhan ynddynt yn eu dewis iaith. Erbyn hyn, mae'r Aelodau'n gallu cael papurau briffio pwyllgorau yn eu dewis iaith; geirfaon o dermau technegol a gaiff eu paratoi i gyd-fynd â thaith Biliau drwy'r senedd ac ymchwiliadau penodol pwyllgorau; mae cymorth un-i-un ar gael i Aelodau sy'n ddysgwyr er mwyn cymryd rhan drwy gyfrwng y Gymraeg. Gan weithio gyda'r aelodau newydd a'r pwyllgorau newydd ar gyfer y Pumed Cynulliad, byddwn yn integreiddio gweithio'n ddwyieithog ar gyfer y rhai sy'n dymuno gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar gyfer pwyllgorau, mae'r dull tîm integredig wedi gweithio'n dda fel modd o nodi anghenion unigol Aelodau'r Cynulliad. Byddwn yn cryfhau rolau'r timau drwy ddarparu cyfeillion cyswllt i Aelodau'r Cynulliad sy'n dymuno gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a fydd yn bwydo gofynion yr Aelodau i'r tîm integredig cyfan.

Byddwn yn:

- meithrin dealltwriaeth o ddewisiadau unigol Aelodau'r Cynulliad mewn perthynas â pharatoi ar gyfer trafodion y Cynulliad drwy gyfrwng y Gymraeg;
- datblygu rhaglen ehangach o hyfforddiant sgiliau iaith pwrpasol gan ystyried gofynion a dulliau dysgu gwahanol Aelodau'r Cynulliad sy'n dysgu Cymraeg neu sy'n dymuno gwella eu sgiliau Cymraeg;
- datblygu rolau'r timau integredig i roi cefnogaeth well i Aelodau'r Cynulliad sy'n dymuno gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg; a
- rhoi cyngor ac arweiniad ar weithio'n ddwyieithog ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth.

Thema 5: Datblygu ethos dwyieithog y sefydliad

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn sefydliad dwyieithog sy'n gwasanaethu cenedl ddwyieithog. Ein dyletswydd statudol yw trin dwy iaith swyddogol y Cynulliad yn gyfartal a darparu rhyddid o ran dewis iaith swyddogol. Rhaid i'n hunaniaeth ddiwylliannol a chorfforaethol adlewyrchu'r gofynion hyn. Bydd y camau gweithredu o ran yr is-themâu canlynol yn sicrhau bod ein hymrwymiad i ddwyieithrwydd yn dod yn rhan fwy integredig byth o waith y Cynulliad o ddydd i ddydd.

Adnabod staff dwyieithog

Fel rhan o'n cynnig rhagweithiol corfforaethol, byddwn yn atgyfnerthu'r hawl i bawb sy'n dod i gysylltiad â ni i ddefnyddio'r ddwy iaith swyddogol neu'r naill iaith neu'r llall. Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, gwnaethom gynnydd o ran y Gymraeg yn cael ei gweld a'i chlywed yn fwy ar draws y sefydliad. Un enghraifft syml ond effeithiol o'r ffordd yr ydym wedi cyflawni hyn yw drwy gyflwyno llinynnau gwddf ar gyfer dysgwyr. Cawsant eu seilio ar y llinynnau gwddf 'Iaith Gwaith' mwy adnabyddus, ond gyda 'Dysgwr' wedi'i farcio'n glir arnynt. Mae'r llinynnau gwddf wedi bod yn boblogaidd gyda dysgwyr, ac wedi sicrhau cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg yng nghoridorau a swyddfeydd y Cynulliad. Maent hefyd wedi bod yn boblogaidd gyda sefydliadau allanol, gyda llawer yn gofyn i'r Cynulliad ddarparu llinynnau gwddf i'w sefydliadau.

Fodd bynnag, mae llawer o waith i'w wneud eto yn y maes hwn. Byddwn yn gweithio gyda meysydd gwasanaeth unigol i edrych ar ffyrdd o adnabod aelodau o staff sy'n gallu darparu gwasanaethau dwyieithog. Byddwn hefyd yn sicrhau eu bod, yn eu tro, yn hawdd i ddefnyddwyr gwasanaethau eu hadnabod.

Byddwn yn:

- datblygu ffyrdd i staff nodi eu bod yn ddwyieithog neu'n ddysgwyr yn eu negeseuon e-bost;
- sicrhau bod staff dwyieithog yn gwisgo llinynnau gwddf 'Iaith Gwaith' neu 'Dysgwr'

Dylai aelodau o staff rheng flaen sy'n siarad Cymraeg fod yn hawdd eu hadnabod er mwyn i siaradwyr Cymraeg sy'n ymweld â'r Cynulliad allu ymgysylltu â hwy heb orfod troi i'r Saesneg. Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad darparwyd gwersi Cymraeg pwrpasol i bob aelod o staff y Gwasanaeth Diogelwch a chynhaliwyd sesiynau gydag aelodau'r gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg er mwyn cynyddu eu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg. Cynhaliwyd nifer o ymgyrchoedd recriwtio penodol hefyd. Arweiniodd yr amrywiol ddulliau hyn at gynnydd

cyffredinol yng nghapasiti dwyieithog y gwasanaeth, ac mae'r maes gwasanaeth hwn yn ymrwymedig iawn i wella hynny. Bydd y dull hwn yn cael ei atgyfnerthu yn y Pumed Cynulliad. Byddwn yn:

- sicrhau bod aelodau o staff rheng flaen megis y gwasanaeth Diogelwch yn cael rhagor o hyfforddiant iaith pwrpasol;
- datblygu dulliau hyfforddi newydd a hyblyg i ystyried patrymau shifftiau a chylchdroi;
- ystyried ffyrdd arloesol o recriwtio swyddogion diogelwch dwyieithog, o bosibl drwy asiantaethau recriwtio arbenigol; a
- sicrhau bod ffordd i ymwelwyr ag ystâd y Cynulliad ac aelodau o staff y Cynulliad adnabod aelodau staff rheng flaen sy'n siarad Cymraeg neu sy'n ddysgwyr;

Ymwybyddiaeth

Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad darparwyd seminarau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg gorfodol ar gyfer pob aelod o staff Comisiwn y Cynulliad. Roeddent yn ddull llwyddiannus o godi ymwybyddiaeth ynghylch y defnydd hanesyddol a chyfredol o'r Gymraeg mewn bywyd cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r tîm leithoedd Swyddogol yn y Cynulliad wedi cynhyrchu fideo sy'n crynhoi prif themâu'r seminarau hynny. Mae'n cynnwys cyfweiliadau gyda rhai o'r dysgwyr yn y Cynulliad, sy'n egluro sut mae dysgu Cymraeg wedi helpu eu datblygiad proffesiynol.

Byddwn yn:

- darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth i'r holl newydd-ddyfodiaid fel rhan o'r broses gynefino gorfforaethol i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth o ofynion y Cynllun;
- darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth i'r rhai a ymunodd â'r Cynulliad ar ôl i'r seminarau ymwybyddiaeth gael eu cynnal;
- darparu cyfleoedd parhaus i ategu neu ddatblygu dealltwriaeth o'r Cynllun ac o natur gweithio'n ddwyieithog; a
- pharhau i ddefnyddio fforwm cydgysylltwyr y Cynllun leithoedd Swyddogol i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun ymhlith staff.

Yn 2016, cynhaliwyd cyfres o weithgareddau drwy gydol y flwyddyn i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Ym mis Hydref 2015, cynhaliwyd cyfres wythnos o hyd o ddigwyddiadau i gyd-fynd â 'Diwrnod Shwmae/Sumae' cenedlaethol, lle mae pawb yn cael eu hannog i gyfarch ei gilydd yn y Gymraeg. Cynhaliwyd nifer o weithgareddau bob diwrnod o'r wythnos er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael i bob aelod o staff ar draws y sefydliad.

Byddwn yn:

- parhau i drefnu gweithgareddau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y Cynulliad; a
- rhoi cyhoeddusrwydd i gyflawniadau ein dysgwyr Cymraeg drwy amrywiol gyfryngau a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

Technoleg

Un o'n prif gyflawniadau yn ystod oes y Cynllun cyntaf oedd y prosiect cyfieithu peirianyddol gyda Microsoft i gyflwyno'r Gymraeg fel opsiwn iaith ar amrywiaeth o raglenni Microsoft, gan gynnwys Microsoft Office (gweler tudalen x). Bydd angen cynnal y berthynas yr ydym wedi'i meithrin gyda Microsoft, er mwyn parhau i wella ansawdd y cynnyrch cyfieithu, ac er mwyn bod mewn sefyllfa dda i fanteisio ar unrhyw ddatblygiadau pellach yn y maes.

Rydym yn sicrhau ein bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf o ran theori a chymhwysio technoleg iaith. Mae sicrhau bod gan ieithoedd llai eu defnydd fel y Gymraeg bresenoldeb gweladwy a hygyrch ar gynifer o lwyfannau â phosibl yn un ffordd o osgoi'r posibilrwydd o'u difodiant digidol.

Er mwyn ategu agenda ymgysylltu digidol y Cynulliad, rydym yn sicrhau ein bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf yn y maes, a byddwn yn mynd ati'n rhagweithiol i ffeindio ffyrdd o weithio gyda phartneriaid i ddarparu rhyngwynebau dwyieithog.

Byddwn yn:

- parhau i ddatblygu ein perthynas gyda Microsoft yn dilyn cyflwyno'r Gymraeg yn llwyddiannus ar raglenni sy'n defnyddio Microsoft Translator yn fyd-eang;
- mynd ati i chwilio am gyfleoedd i gydweithio ar ddatblygiad technoleg ac offer iaith, gan gynnwys datblygiadau ym maes technoleg llais-i-destun;
- ymchwilio i ffyrdd o ddarparu rhyngwynebau cyfrwng Cymraeg yn rhagweithiol ar broffiliau TGCh Aelodau'r Cynulliad, staff cymorth neu staff newydd Comisiwn y Cynulliad sy'n nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg, a sicrhau eu bod yn cael cymorth i ddefnyddio'r rhyngwynebau hynny;
- ceisio cyfleoedd i wneud defnydd creadigol o dechnolegau newydd sy'n dod i'r amlwg er mwyn ehangu ein dulliau ymgysylltu, ac er mwyn galluogi ein cyfranddeiliaid i ymgysylltu â ni mewn fformat o'u dewis a thrwy gyfrwng eu dewis iaith swyddogol; a
- chydweithio fel y bo'n briodol â phartneriaid i ehangu'r ddarpariaeth o ran rhyngwynebau dwyieithog sydd ar gael i'n cyfranddeiliaid.

DRAFT

Adran 4: Trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd yn ôl

Yr awdurdod dros weithredu'r Cynllun hwn a'r cyfrifoldeb am ei roi ar waith

Mae Comisiwn y Cynulliad a Chynulliad Cenedlaethol Cymru a Bwrdd Rheoli Staff y Cynulliad yn awdurdodi, yn cefnogi ac yn cymeradwyo'r Cynllun hwn yn llwyr.

Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad Cenedlaethol sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau y caiff y Cynllun hwn ei roi ar waith. Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Comisiwn sydd â'r cyfrifoldeb dros gydgylltu, monitro a, phan fo angen, cynghori ar ddiwygio cynnwys y Cynllun. O ddydd i ddydd, Rheolwr y Cynllun leithoedd Swyddogol fydd sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth â'r Cynllun a chyd-drafod â chydgylltydd pob gwasanaeth i wella ystod ac amseriad ein gwasanaethau yn y ddwy iaith swyddogol.

Mae pob aelod o staff y Cynulliad yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r mesurau yn y Cynllun ac am gydymffurfio â hwy wrth iddynt wneud eu gwaith o ddydd i ddydd. Bydd hyfforddiant a chymorth yn cael eu darparu i staff i'w galluogi i gyflawni gofynion y Cynllun.

Mae gan bob rheolwr gyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo iddo dros:

- weithredu'r agweddau hynny ar y Cynllun sy'n berthnasol i'w waith;
- annog staff i ddatblygu, gwella a defnyddio eu sgiliau iaith;
- nodi dulliau neu gymorth a allai gynorthwyo staff i ddefnyddio'u sgiliau iaith; a
- sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o ethos dwyieithog y Cynulliad, yr uchelgais a'r gwasanaethau a amlinellir yn y Cynllun hwn;

O dan y Cynllun cyntaf, creodd Comisiwn y Cynulliad fforwm o gydgylltwyr y cynllun o bob maes gwasanaeth. Mae'r fforwm yn cyfarfod yn rheolaidd, ac mae'r cydgylltwyr yn gyfrifol am:

- fod yn bwynt cyswllt cyntaf y maes gwasanaeth ar gyfer aelodau'r staff ar gyfer unrhyw agwedd ar y Cynllun leithoedd Swyddogol;
- darparu cyngor ar y gwaith o gyflawni'r Cynllun yn eu maes gwasanaeth;
- darparu gwybodaeth a hyfforddiant ymwybyddiaeth i staff newydd yn eu maes gwasanaeth;
- adolygu cynnydd yn erbyn gofynion y Cynllun drwy Fforwm Cydgylltwyr y Cynllun leithoedd Swyddogol, gan gynnwys cydymffurfio â materion fel llofnod awtomatig dwyieithog a negeseuon llais;
- hysbysu Rheolwr y Cynllun leithoedd Swyddogol am unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio â'r Cynllun;
- adnabod a rhannu enghreifftiau o arferion da a drwg.

Monitro ac adrodd yn ôl

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn osod adroddiad gerbron y Cynulliad sy'n nodi sut y mae'r Comisiwn wedi rhoi'r Cynllun ar waith yn ystod y flwyddyn o dan sylw.

Rhaid i'r adroddiad blynyddol nodi i ba raddau, os o gwbl, y darparwyd y gwasanaethau y cyfeirir atynt yn y Cynllun ac, os yn berthnasol, y rhesymau pam na ddarparodd y Comisiwn y gwasanaethau hynny. Byddwn hefyd yn monitro cydymffurfiaeth pob gwasanaeth unigol â'r Cynllun.

Bydd monitro cydymffurfiaeth yn flynyddol yn sicrhau bod ein dull o ddarparu gwasanaethau dwyieithog i Aelodau a'r cyhoedd yn dryloyw, ac yn eu galluogi i ddwyn y Comisiwn i gyfrif wrth i ni roi'r Cynllun ar waith. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth i'r Comisiwn sy'n ei alluogi i ddatblygu a gwella ein gwasanaethau dwyieithog yn y dyfodol.

Mae lluo o gyfleoedd i Aelodau'r Cynulliad graffu ar y Cynllun a'i weithrediad:

- ymgynghorir â hwy bob tymor Cynulliad cyn ei fabwysiadu;
- mae swyddogion y Cynulliad yn ymgysylltu â'r Aelodau'n rheolaidd ar weithrediad y Cynllun o ddydd i ddydd;
- cynhelir dadl ar adroddiad blynyddol y Cynllun yn y Cyfarfod Llawn.

Adolygu a diweddaru'r Cynllun

Mae'r Cynllun hwn yn cael ei adolygu yn unol â pharagraff 8(g) o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan adran 2 o Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol) 2012).

Bydd y Comisiwn yn cynnal ymgynghoriad ar unrhyw ddiwygiad i'r Cynllun hwn a Chynlluniau drafft yn y dyfodol yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth berthnasol. Ni ellir mabwysiadu diwygiadau i'r Cynllun oni bai fod y copïau drafft:

- wedi'u cyhoeddi a'u gosod gerbron y Cynulliad;
- ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus a bod unrhyw sylwadau wedi'u hystyried;
- wedi'u hailosod gerbron y Cynulliad; ac
- wedi'u cymeradwyo drwy benderfyniad y Cynulliad.

DRAFT

Ymdrin â chwynion

Rydym am i'r cyhoedd, Aelodau'r Cynulliad, eu staff a staff y Cynulliad ein hysbysu ynghylch unrhyw bryderon sydd ganddynt, gan gynnwys enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â'r Cynllun, cyn gynted â phosibl. Bydd hyn yn ein galluogi i unioni'r sefyllfa ac i wella'r gwasanaeth a ddarparwn.

Byddwn yn ymdrin â chwynion yn unol â Chod Ymarfer y Cynulliad Cenedlaethol ar Gwynion.

Os oes gennych bryder neu gŵyn, dylech godi'r mater gyda'r swyddog y buoch yn ymdrin ag ef yn y lle cyntaf. Os na fydd hyn yn tawelu eich pryderon yn ddigonol, dylech wneud cwyn swyddogol. Gallwch wneud hyn drwy e-bost, ffacs, llythyr neu drwy lenwi ein ffurflen gwyno. Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, neu berson arall a enwebwyd ganddi, fydd yn ymchwilio i'r gŵyn yn unol â'n proses gwyno. Os nad ydych yn fodlon ar y canlyniad, gallwch ofyn i'r mater gael ei ystyried gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Safonau gwasanaeth ar gyfer monitro ac adrodd yn ôl

25 Cydgysylltu'r broses o roi'r Cynllun ar waith

- 25.1** O ddydd i ddydd, Rheolwr y Cynllun leithoedd Swyddogol sy'n gyfrifol am gydgysylltu'r broses o ddatblygu'r Cynllun a'i roi ar waith ac am fonitro cydymffurfiaeth â'r Cynllun.
- 25.2** Mae Cydgysylltydd Cynllun leithoedd Swyddogol pob maes gwasanaeth yn cynorthwyo gydag agweddau perthnasol ar gyflawni'r Cynllun a sicrhau cydymffurfiaeth ag ef.

26 Ymdrin â chwynion ac achosion o fethu â chydymffurfio

- 26.1** Bydd unrhyw gwynion ac ymatebion iddynt yn cael eu prosesu gan y gwasanaeth perthnasol ar y cyd â chydysylltydd Cynllun leithoedd Swyddogol y gwasanaeth. Bydd chwynion neu achosion o fethu â chydymffurfio yn cael eu trin yn yr un modd ag unrhyw ohebiaeth arall a bydd Rheolwr y Cynllun leithoedd Swyddogol yn cael gwybod amdanynt bob tro.

27 Yr adroddiad blynyddol

- 27.1** Rheolwr y Cynllun leithoedd Swyddogol fydd yn gyfrifol am reoli'r broses o lunio ein hadroddiad blynyddol, a'i baratoi i'w ystyried gan y Cynulliad yn unol â pharagraff 8(9) o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan adran 2 o Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol) 2012.
- 27.2** Bydd adroddiad blynyddol yn cael ei osod gerbron y Cynulliad i'w ystyried ym mis Gorffennaf bob blwyddyn yn ystod oes y Cynllun hwn.

DRAFT

Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a
Chyfathrebu

**Cynulliad Cenedlaethol
Cymru - Y Cynllun Ieithoedd
Swyddogol drafft**

Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Mai 2017



Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Tudalen y pecyn 101

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r dogfen hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:

www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopiau caled gan:

Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd

CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **SeneddDGCh@cynulliad.cymru**

Twitter: **[@SeneddDGCh](https://twitter.com/SeneddDGCh)**

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a
Chyfathrebu

Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Y Cynllun Ieithoedd Swyddogol drafft

Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Mai 2017



Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Tudalen y pecyn 103

Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Sefydlwyd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar 28 Mehefin 2016 i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisi, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): diwylliant; y celfyddydau; yr amgylchedd hanesyddol; y Gymraeg; cyfathrebu; darlledu a'r cyfryngau.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Bethan Jenkins AC (Cadeirydd)
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



Hannah Blythyn AC
Llafur Cymru
Delyn



Dawn Bowden AC
Llafur Cymru
Merthyr Tydfil a Rhymni



Suzy Davies AC
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



Neil Hamilton AC
UKIP Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Dai Lloyd AC
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



Jeremy Miles AC
Llafur Cymru
Castell-nedd



Lee Waters AC
Llafur Cymru
Llanelli

Cynnws | Contents

Rhif Number	Sefylliad	Organisation
AWOLS01	Mentrau Iaith	Mentrau Iaith (Welsh Only)
AWOLS02	Cymdeithas yr Iaith	Cymdeithas yr Iaith (Welsh Only)
AWOLS03	Undebau'r Cynulliad Cenedlaethol Cymru	National Assembly for Wales' Unions
AWOLS04	Comisiynydd y Gymraeg	Welsh Language Commissioner (Welsh Only)
AWOLS05	Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru	Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru (Welsh Only)

1. Cefndir

1.1. Cyflwynir y sylwadau isod mewn ymateb i gais gan Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu'r Cynulliad i Mentrau Iaith Cymru gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar y Cynllun (drafft) Ieithoedd Swyddogol y Cynulliad Cenedlaethol.

1.2. Rydym yn canmol y Cynulliad am y datblygiadau cadarnhaol amlwg wnaethpwyd yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. Mae'n rhaid cydnabod hefyd bod rhai cyrff eraill o flaen y Cynulliad o ran eu polisiau iaith ar hyn o bryd, ac felly mae angen parhau gyda'r datblygiadau cadarnhaol hyn er mwyn dal i fyny ac i'r cynulliad arwain yn y maes polisi iaith, yn sicr dangos y ffordd i eraill ddylai'r cynulliad wneud os am fod yn "ganolbwynt cenedlaethol bywyd democrataidd yng Nghymru".

2. Sylwadau cyffredinol

2.1 Recriwtio

Rydym yn falch o weld fod y cynulliad am fabwysiadu'r polisi recriwtio sy'n gofyn am ryw lefel sylfaenol o ddealltwriaeth o'r Gymraeg ar gyfer pob swydd a hysbysebir. Ond credwn fod angen mynd cam ymhellach a mabwysiadu'r un polisi, o ran ystyried lefelau rhuglder yn y Gymraeg wrth ddyrchafu staff.

2.2 Uchelgais:

Os mae'r uchelgais yw bod yn "wirioneddol ddwyieithog" ac i "aelodau cynulliad, y cyhoedd a'r staff ddewis gweithio neu gyfathrebu'n naturiol drwy ddefnyddio'r naill iaith swyddogol neu'r llall" yna mae angen i'r camau yn y drafft fynd ymhellach o blaid yr iaith Gymraeg: Megis drwy:

2.3 Targedau

Mae prinder targedau penodol o fewn y drafft, megis targedau o ran % penodol o staff yn gallu cyrraedd lefelau uwch rhuglder yn y Gymraeg, neu ganran penodol o staff yn mynychu cyrsiau fydd yn gwella eu sgiliau iaith, heb dargedau penodol anodd yw mesur llwyddiant

2.4 Hybu

Er mwyn cyflawni dyletswydd o dan y Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012 i drin y ddwy iaith yn gyfartal, mae angen hybu'r iaith sy'n israddol ar hyn o bryd, sef y Gymraeg. Felly mae'r uchelgais "lle caiff y defnydd o'r ddwy iaith ei annog a'i hwyluso yn frwd" angen newid, oherwydd nid oes angen

annog a hwyluso'r iaith Saesneg, dim ond yr iaith Gymraeg, gan fod y Saesneg yn amlwg yn brif iaith bresennol y Cynulliad ar hyn i bryd. Dim ond pan mae'r ddwy iaith yn gyfartal o ran defnydd y mae "annog a hwyluso yn frwd" ei angen i'r ddwy iaith.

Adran 3: Sylwadau Penodol ar y Cynllun drafft

3.1 Paratoi ar Gyfer y Cyfarfod Llawn

Nid oes angen eithriad yma (1.2) mae eithrio ar unrhyw beth yn gosod y Gymraeg dan anfantais, felly ni welwn fod angen eithriad wrth osod rheol fod pob Bil sy'n cael ei ystyried gan y Cynulliad yn cael ei gyflwyno yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Argymhellwn fod angen newid pwyntiau 1.5, 1.6, 2.5 a 2.6- mae angen i'r cynulliad wirio o flaen llaw fod y dogfennau sy'n cyrraedd yn uniaith Saesneg ddim wedi dod gan sefydliad sydd i fod i gyflwyno'r fath beth yn ddwyieithog o dan y Safonau. Ac os ydynt wedi dod gan y fath sefydliad mae angen i'r cynulliad wrthod eu derbyn hyd nes eu bod yn y ddwy iaith, dim ond drwy gefnogi'r Safonau yn y fath ffyrdd y mae'r Safonau yn mynd i gael effaith er gwell, a gan fod y Cynulliad yn "ganolbwynt cenedlaethol bywyd democrataidd yng Nghymru" mae rôl gan y cynulliad i sicrhau fod hyn yn digwydd.

3.2 Cymryd Rhan ym Musnes y Cynulliad

Cyfieithu- (3.2 a 3.3) Credwn fel Mentrau Iaith y dylai cyfieithu ar y pryd, o'r Saesneg i'r Gymraeg, fod ar gael. Rhan hanfodol o gyfathrebu yw gwrando, felly os cyflawni'r uchelgais mae angen i bawb allu gwrando yn yr iaith yr hoffent wrando, sydd wedyn yn gwneud hi'n haws iddynt ymateb yn eu hiaith o ddewis. Dylai siaradwyr Cymraeg sy'n ymweld â'r cynulliad hefyd fedru gwrando ar drafodaethau yn y Gymraeg, fel arall nid yw'r ddwy iaith yn cael eu trin yr un fath.

3.3 Cofnodi'r Cyfarfod Llawn a Chofnodi Cyfarfodydd Pwyllgor

Os yw'r Cynulliad eisiau i "defnydd o'r ddwy iaith (gael) ei annog a'i hwyluso yn frwd" yna mae'n rhaid i'r cofnodion gael eu cyhoeddi yn y ddwy iaith yr un pryd (4.1, 4.2 a 5.1, 5.2), mae cyhoeddi'r Gymraeg ar ôl y Saesneg yn tansilio'n syth unrhyw uchelgais i drin y ddwy iaith yr un fath. Byddai cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn gallu cefnogi'r nod posib o gyhoeddi cofnodion yn gydamserol.

3.4 Gymorth i Gomisiwn y Cynulliad

Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg fyddai'r Mentrau iaith yn hoff o gael ei weld yn cael ei ychwanegu yma (6.2)

3.5 Grwpiau Trawsbleidiol

Eto codi'r y mater o gyfieithu ar y pryd (7.1), awgrymir ail feddwl am y geiriau “ar gais” ac ystyried bod cyfieithu ar y pryd o'r naill iaith i'r llall ar gael ymhob cyfarfod o'r grwpiau trawsbleidiol.

Awgrymir y cynllun drafft ar hyn o bryd, drwy gynnwys y geiriau “ar gais” (am gyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg) yn yr adran hon, fod y Gymraeg yn iaith weledol yn unig, hynny yw i'w defnyddio pan mae i'w gweld yn y trafodion swyddogol, yn hytrach na wedi ei gwreiddio ym musnes dydd i ddydd y cynulliad, fel mewn cyfarfodydd o'r Grwpiau Trawsbleidiol. Awgrymir y geiriau “ar gais” fod angen trefniant o flaen llaw i gyfieithu mewn grŵp trawsbleidiol, sydd wedyn yn gwneud i'r person sydd eisiau siarad Cymraeg orfod meddwl os yw hyn ar gael i eraill a'i pheidio, ac os nad yw ar gael mae ganddynt ddewis o gyfrannu yn Saesneg, neu orfod dal gwaith y grŵp yn nôl drwy ofyn i gyfieithu fod yn bosib, neu ar y gwaethaf gohirio cyfarfod. Ni ddylai unrhyw siaradwr Cymraeg byth gael ei roi yn y sefyllfa yma.

Ond yn fwy na dim nid yw “ar gais” yn mynd i ysbrydoli dysgwyr sydd ella am roi ymgais ar gyfrannu'n Gymraeg, anodd iawn fyddai gwneud hynny heb wybod os yw'r cyfieithu yn sicr yn mynd i fod ar gael, ymhob cyfarfod, bob tro.

3.6 Hysbysebion a gohebiaeth etholaethol Aelodau'r Cynulliad

Mae'r gronfa cyfeirir ati i'w chroesawu yn sicr, ond dylid cynnwys geiriad megis “awgrymir” neu “anogir” i aelodau ddefnyddio'r gronfa, dydi bod y gronfa ar gael ddim yn ddigon yn ei hun, mae peidio ac “awgrymu” neu “annog” defnydd y gronfa yn ei hun yn tanseilio'r Gymraeg.

3.7 Cefnogi a Datblygu Sgiliau iaith

Credwn fod y datblygiadau yn ystod y cynulliad diwethaf, o dan y teitl Tîm Sgiliau iaith, i'w canmol, braf bydd gweld y datblygiadau hyn yn parhau ac ymestyn yn ystod y pumed Cynulliad.

Un peth i'w ystyried yw'r “llinyrnau gwddf 'Iaith Gwaith' neu 'Dysgwr’” (9.3), er y gellir gweld fod y rhain yn gweithio ar hyn o bryd, mae angen ystyried newid i'r system yn y tymor hir. Yn y pen draw, os ydym fel cenedl i gyrraedd nod y llywodraeth bresennol o beth bynnag Miliwn o siaradwyr Cymraeg, bydd rhaid i'r system yma newid, bydd angen parhau gyda'r llinyn gwddf “dysgwr”, ond hepgor yr un “iaith Gwaith” ac yn ei le i'r siaradwyr Cymraeg hynny sydd hefyd yn siarad Saesneg beidio â gwisgo llinyn gwddf o gwbl. Beth sydd angen ei ddatblygu wedyn yw i' rhai hynny sydd ddim gyda'r sgil yma wisgo llinyn gwddf yn esbonio nad ydynt yn gallu siarad yr iaith. Cael cyn lleied â phosib o bobl yn gwisgo llinyn gwddf ddylai'r nod fod yn y pen draw, a drwy gael y bobl hynny sy'n ddwyieithog i beidio gwisgo rhai rŵan

bydda hyn yn dangos na gallu'r ddwy iaith yw'r peth cyffredin i wneud. Efallai fod hi'n fuan i wneud hyn, ond yn sicr dyma gam fydd angen ei gymryd yn y blynyddoedd nesa; ac fel “ganolbwynt cenedlaethol bywyd democrataidd yng Nghymru”, braf byddai gweld y cynulliad yn arwain ar y cam hwn.

3.8 Deunydd cyfathrebu i Aelodau'r Cynulliad gan staff y Cynulliad

Angen ychwanegu “Yn gydamserol” i 10.1 er mwyn sicrhau cysondeb rhwng y ddwy iaith.

Safonau gwasanaeth ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu â phobl Cymru

3.9 Gohebu â'r cyhoedd (e-bost neu gopi caled)

Mae angen i ohebiaeth safonol neu gylchlythyrau sydd yn mynd at bobl tu allan i Gymru (11.3) hefyd fod yn ddwyieithog, hyn am ddau reswm, sef bod cannoedd o filoedd o siaradwyr Cymraeg yn byw tu allan i Gymru, a hefyd fod angen i sefydliadau Cymraeg arddel yr iaith, nid ei thrin fel ei bod dan glo yn ein gwald ein hunain. Os yw'r ddwy iaith yw trin yn gyfartal mae rhaid i ohebiaeth sydd yn mynd tu allan i Gymru hefyd fod yn ddwyieithog.

3.10 Galwadau Ffôn

Llawer rhu hawdd yw'r frawddeg “neu os yw'n well gan y cwsmer, parhau yn Saesneg” (12.3), mae hon yn frawddeg sy'n tansilio cynlluniau iaith ac mae angen ei dileu o hwn a phob cynllun arall. Nid yw brawddeg fel hyn yn gwneud dim tuag at drin y ddwy iaith yr un fath. Mae pob cyfrannwr i'r ymatebiad hwn wedi nodi ein bod wedi derbyn y cynnig “o barhau yn Saesneg” rywbryd neu'i gilydd ar y ffon gyda gwahanol endidau, er mwyn sicrhau gwasanaeth, nid yw hyn yn deg ar siaradwyr Cymraeg, nid yw hyn yn trin y ddwy iaith yr un fath. Mae angen dileu'r frawddeg yma a sicrhau fod gwasanaeth Cymraeg ar gael.

Dylai pob neges ffôn (12.4 a 12.5) yn ddieithriad yn ddwyieithog.

3.11 Ein delwedd gyhoeddus:

Mae angen ychwanegu eithriad i 13.1. fel bod modd i'r Cynulliad ddefnyddio deunydd uniaith Gymraeg yn yr Eisteddfod Genedlaethol a digwyddiadau uniaith Gymraeg eraill.

Croesawn baragraff 13.2. Gobeithiwn weld y Cynulliad fel sefydliad yn mabwysiadu enw uniaith Gymraeg os bydd yn newid ei enw yn y dyfodol.

3.12 Gwasanaethau ymgysylltu â gwybodaeth gyhoeddus:

Cyfieithu, angen sicrhau fod isdeitlau o'r Saesneg i'r Gymraeg (14.11) yn digwydd a dylid hefyd cyfieithu'r trawsgrifiadau o'r Saesneg i'r Gymraeg.

Safonau gwasanaeth ar gyfer ein staff er mwyn hwyluso gweithio'n ddwyieithog

3.13 Cyfathrebu â staff:

Defnyddir y geiriau "ar gais" unwaith eto yma (21.4), yn gwneud i'r rhai hynny sydd eisiau siarad Cymraeg orfod meddwl a nodi o flaen llaw eu bod yn siarad Cymraeg, nid yw hyn yn trin y ddwy iaith yr un fath, ac yn ei gwneud hi'n anodd iawn i ddysgwyr roi ymgais ar ddefnyddio'r Gymraeg. Dylai cyfieithu ar y pryd fod ar gael o'r Gymraeg i'r Saesneg ymhob cyfarfod, pob tro, a dylid meddwl am gael y cyfieithu yma o'r Saesneg i'r Gymraeg hefyd.

Gwelir y geiriau "ar gais" eto fyth yn 21.6, eto mae angen newid hwn, drwy ddefnyddio'r geiriau yma mae'r pwyslais ar y rhai hynny sydd eisiau'r gwasanaeth yn y Gymraeg i ofyn, yn hytrach nag ei fod yn rhan annatod o'r sefydliad. Mae hyn yn enwedig yn wir wrth i staff drafod materion sy'n sensitif yn ymwneud â chyflogaeth, gellir rhagweld pobl yn ofn holi am y fath beth oherwydd teimlad y gallai fynd yn ei herbyn. Dylai'r cyfieithu hefyd fod o'r Saesneg i'r Gymraeg, oherwydd natur gymhleth rheolau cyflogaeth dylai'r siaradwr Cymraeg glywed y geiriau yn nôl yn yr iaith y mae hwy am siarad ynddi.

3.14 Gweithio'n ddwyieithog:

Fel soniwyd yn yr adran sylwadau cyffredinol dylid gosod targedau penodol os am wir gynyddu defnydd o'r Gymraeg. Yn yr adran hon gellir hyn fod yn debyg i:

- Cynyddu'r nifer (gosod % neu ffigwr penodol) o unigolion sy'n cyfathrebu drwy'r Gymraeg rhan fwyaf o'r amser
- Targed ar gyfer adrannau unigol yn gweithio drwy'r Gymraeg, dim ond drwy osod targedau y mae posib cyrraedd yr uchelgais fod staff yn cael "dewis gweithio" yn yr iaith yr hoffent. Yn yr un modd os am "annog a hwyluso yn frwd" rhaid gosod targedau sydd yn gallu cael eu mesur.

3.15 Strategaeth Sgiliau Dwyieithog:

Targedau sydd eto ar goll yn yr adran hon, angen gosod targed o % o staff fydd wedi cyflawni lefelau uwch o ruglder yn y Gymraeg, a hynny cyn terfyn amser penodol.

Beth am ddefnyddio cynllun sabothol i staff fynd i ddysgu'r Gymraeg am gyfnod fel sydd yn digwydd efo gwasanaeth sifil Gwlad y Basg – gan fanteisio ar ddatblygiadau newydd Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, ella creu

partneriaeth arloesol gyda'r ganolfan fydd yn enghraifft o Arfer Dda i weddill y gwasanaethu cyhoeddus yng Nghymru?

3.16 Rhaglen gynefino ac ymwybyddiaeth:

Credwn y dylai pob aelod o staff newydd gael hyfforddiant Cymraeg os nad ydynt yn gallu siarad yr iaith (24.2) byddai hyn yn golygu nad oes neb yn dechrau gweithio heb fod yn gwisgo'r llinyn gwddf "laith gwaith" neu "dysgwr", dylid cael yr ymrwymiad i ddysgu gan bob aelod o staff newydd. Os oes angen y lefel cwrteisi i gael swydd, yna os bosib fod pob aelod newydd o staff yn ddysgwr?

4. Themâu ar gyfer cyfnod y cynllun hwn

4.1 Thema 1: Recriwtio

Fel soniwyd yn y sylwadau cyffredinol mae'r thema recriwtio i'w ganmol, ond angen mynd ymhellach a defnyddio rhuglder iaith fel llinyn mesur angenrheidiol wrth ddyrchafu staff hefyd.

Beth am fynd allan i ysgolion i hyrwyddo'r Cynllun yma a thrafod Creu Marchnad Lafur Cymraeg lleol, ella bydda modd gweithio ar gynllun efo Mentrau lleol? Rydym angen hysbysu disgyblion a'u teuluoedd o'r newidiadau sydd wedi digwydd gyda'r Safonau, er mwyn rhoi tegwch iddynt wrth edrych tuag at eu dyfodol, fel arweinydd cenedlaethol mae gan y Cynulliad rôl i chwarae yn hyn.

4.2 Thema 3: Cynllunio leithyddol:

Croesawn y ffaith fod cydnabyddiaeth ffurfiol yn mynd i gael i roi i staff sydd yn ymwneud a'r Tîm Sgiliau Iaith, mae'n hanfodol fod pobl yn gweld y Gymraeg fel sgil sylfaenol sydd yn hwb i'w gyrfa, ac mae hwn yn gam yn y cyfeiriad cywir.

4.2 Thema 5: Datblygu Ethos Dwyieithog y Sefydliad.

Pam mae dim ond yn 2016 cafwyd wythnos o weithgareddau yn cyd-fynd gyda'r "Diwrnod shwmae/ sumae", pam ddim gwneud hyn bob blwyddyn? Hefyd beth am ddefnyddio dyddiau eraill, megis Dydd Miwsig Cymru, i hyrwyddo'r iaith?

5. Trefn ar gyfer Monitro ac Adrodd Nôl

5.1 Mae Mentrau Iaith Cymru yn diolch am y cyfle i ymateb i'r cynllun, beth am fynd gam ymhellach a chael yr endidau sydd wedi ymateb i gymryd rhan mewn monitro achlysurol o'r cynllun?

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

1. Cefndir

1.1. Cyflwynir y sylwadau isod mewn ymateb i gais am dystiolaeth gan y Gymdeithas ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol Drafft y Cynulliad Cenedlaethol.

1.2. Mae gan y Cynulliad gyfrifoldeb arbennig ac unigryw i fod yn arweinydd i bob corff arall yn y wlad o ran polisi iaith. Er bod llawer o gynnydd wedi bod hyd yma, mae'n rhaid cydnabod hefyd bod rhai cyrff eraill ymhell o flaen y Cynulliad o ran eu polisiau iaith ar hyn o bryd

1.3. Amcangyfrifwn fod tua hanner cant y cant o Aelodau Cynulliad yn meddu ar sgiliau Cymraeg yn y Cynulliad hwn. Nodir yn y Cynllun bod tri chwarter staff y Comisiwn yn meddu ar ryw lefel o sgiliau iaith. Fodd bynnag, mae defnydd y Gymraeg ym musnes y sefydliad a'r weinyddiaeth mewn nifer o adrannau yn parhau i fod yn isel o gymharu â chyrff eraill. Mae'n rhaid cydio felly yn y cyfle mae'r Cynllun diweddaraf hwn yn ei gynnig o ran tyfu defnydd y Gymraeg yn y Cynulliad dros gyfnod y Pumed tymor.

2. Sylwadau cyffredinol

2.1. Croesawn y ffaith bod rhagor o bwyslais ar gynllunio'r gweithlu yn y Cynllun hwn, yn enwedig y cyfeiriad at fabwysiadu polisi recriwtio Heddlu'r Gogledd. Fodd bynnag, credwn fod lle i wella'n sylweddol o hyd. Mae'r Strategaeth Sgiliau bresennol yn wan iawn, ac yn gwbl annigonol. Mae angen i'r Cynulliad fabwysiadu'r un polisi o ran ystyried y Gymraeg wrth ddyrchafu staff ag sydd gan Heddlu'r Gogledd yn ogystal â'r polisi recriwtio.

2.2. Yn y rhagymadrodd i'r Cynllun ar dudalen 7 lle amlinellir y cyd-destun deddfwriaethol, nodir er nad yw'r Cynulliad yn destun cyfundrefn Safonau'r Gymraeg, mai dyhead y Cynulliad yw bod yn fwy uchelgeisiol o ran polisi iaith na gofynion y Safonau, gan beidio mynd "islaw" y Safonau. O'r herwydd, credwn y dylai fod ymrwymiad i ddarparu cyfieithu ar y pryd o'r Saesneg i'r Gymraeg mewn rhai manau yn y Cynllun hwn, fel y mae disgwyl i awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru ei wneud o dan y Safonau erbyn hyn.

2.3. Credwn y dylai fod targedau meintiol penodol mewn nifer o fannau yn y ddogfen. Dylid mabwysiadu'r targedau canlynol:

- (i) sicrhau bod dros 50% o staff yn cyrraedd lefel 4 neu 5 yn y Gymraeg erbyn diwedd tymor y Cynulliad hwn;

(ii) sicrhau bod 50 o staff y flwyddyn yn mynychu cyrsiau trochi Cymraeg am gyfnodau llawn amser mewn bloc o tua mis – byddai hynny'n gwneud cyrraedd targedau o ran sgiliau staff yn rhwydd iawn; a

(iii) targed i gynyddu nifer yr adrannau sy'n gweinyddu'n fewnol drwy'r Gymraeg

2.4. Ieithoedd swyddogol: credwn fod yr uchelgais gychwynnol – "*Ile caiff y defnydd o'r ddwy iaith ei annog a'i hwyluso yn frwd*" – yn amlygu diffyg ym meddylfryd y sefydliad o safbwynt egwyddorion sylfaenol. Nid oes angen annog na hwyluso defnydd o'r Saesneg, y Saesneg yw iaith ddiofyn y Cynulliad ar hyn o bryd. Er mwyn newid hynny, mae angen hybu'r Gymraeg. Nid oes anghysondeb rhwng hynny â Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012. Mae'n amlwg nad yw'r ddwy iaith yn gyfartal ar hyn o bryd, ac er mwyn cyflawni eich dyletswydd o dan y Ddeddf i drin y ddwy iaith yn gyfartal, mae angen hybu'r iaith sy'n cael ei hisraddio ar hyn o bryd, sef y Gymraeg. Mae'n hanfodol newid y meddylfryd hwn felly.

3. Sylwadau Penodol ar y Cynllun drafft

Adran 1

3.1. Nodir yn y Cynllun bod "*adran un, uchod, yn nodi ein huchelgais a'n hymrwymiad*". Hyd y gwelwn, nid yw'r adran hon mewn gwirionedd yn cynnwys ymrwymadau. Datgenir yn y cyflwyniad i'r ddogfen y "*Caiff ein dwy iaith swyddogol eu cydnabod fel ieithoedd gweinyddu mewnol*". Dylai fod cydnabyddiaeth yma o'r angen i gynyddu nifer yr adrannau sy'n gweinyddu drwy'r Gymraeg, gan osod nod tymor canolog i'r corff weinyddu'n Gymraeg drwyddo draw.

3.2. Argymhellwn y dylid newid y frawddeg sy'n cyfeirio at wella sgiliau staff fel ei bod yn glir y bydd strwythur yn ei lle sy'n rhoi sgiliau Cymraeg i bob aelod o staff dros amser. Felly, yn lle anelu at fod:

"yn gyflogwr sy'n cefnogi pob aelod o staff sydd am ddatblygu neu wella eu sgiliau yn y ddwy iaith swyddogol neu yn y naill iaith neu'r llall i safon sy'n briodol i'w swydd, neu ymhellach os dymunant"

argymhellwn y dylid anelu at fod:

"yn gyflogwr sydd gyda'r strwythur hyfforddiant iaith gorau yng Nghymru er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff yn meddu ar sgiliau ardderchog yn ein dwy iaith swyddogol"

Adran 2

3.3. Iaith deddfwriaeth: credwn bod angen cael gwared ar yr eithriadau yn Rheol Sefydlog 26.5 – ni welwn fod angen eithriad i'r rheol y dylai biliau sy'n cael eu hystyried gan y Cynulliad fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

3.4. Derbyn gohebiaeth gan drydydd parti: credwn y dylid newid adrannau 1.5, 1.6, 2.5 a 2.6 sy'n ymwneud â derbyn gohebiaeth a phapurau gan drydydd parti. Dylai'r Cynulliad wrthod derbyn papurau uniaith Saesneg gan gyrff sydd dan ddyletswydd i'w darparu yn Gymraeg o ganlyniad i Safonau'r Gymraeg neu'u cynlluniau iaith. Dylid nodi yn y Cynllun y bydd y Cynulliad yn gwneud cwyn i Gomisiynydd y Gymraeg (neu'r corff unigol os ydynt yn gweithredu dan gyfundrefn Deddf Iaith 1993) bob tro y derbynnir tystiolaeth bod corff yn gweithredu'n groes i'w ddyletswyddau statudol i ddarparu dogfennaeth yn Gymraeg. Mae hyn yn arbennig o wir yng nghyd-destun Llywodraeth Cymru. Fel corff sy'n datgan mai un o'i bwrpasau yw 'dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif' credwn fod brawddeg olaf cymal 1.6 (a 2.6) amlygu enghraifft o esgeuluso eich dyletswydd fel sefydliad.

3.5. Credwn y dylai fod hawl gan sefydliadau ac unigolion i gyflwyno dogfennau i'r Cynulliad yn Gymraeg yn unig, ac i wneud hynny gan ddisgwyl y bydd pawb sy'n dymuno eu darllen yn gallu gwneud hynny. Dylid ychwanegu cymal felly sy'n nodi'r hawl hwn ac yn nodi y bydd y Cynulliad yn sicrhau bod dogfennau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu cyfieithu i'r Saesneg os na fydd pawb y bwriadwyd y dogfennau ar eu cyfer yn gallu darllen Cymraeg.

3.6. Cyfieithu ar y pryd: cred Cymdeithas yr Iaith y dylai fod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Saesneg i'r Gymraeg fod ar gael yn nhrefodion swyddogol y Cynulliad, yn ogystal â chyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg. Dyna'r unig ffordd o sicrhau bod pawb yn cael dewis clywed y trafodion yn eu dewis iaith, a byddai'n llawer haws i'r rhai sy'n siarad Cymraeg gyfrannu at drafodion yn Gymraeg petaent yn gallu clywed y drafodaeth gyfan yn yr iaith honno. Byddai hefyd yn hwyluso'r llwyth gwaith cofnodi chyfieithu – fel sy'n digwydd yn achos y cyfieithiad o'r Gymraeg i'r Saesneg ar hyn o bryd ac yn fodd o sicrhau nad yw darpariaeth Gymraeg y Cynulliad yn mynd islaw gwaelodlin cyfundrefn Safonau'r Gymraeg yng ngweddill y sector cyhoeddus.

3.7. Y Cofnod: dylid newid paragraffau 4.1 i 4.3 er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg. Dylai fersiwn Gymraeg o'r Cofnod fod ar gael ar yr un pryd â'r Saesneg, gan gynnwys y fersiynau drafft. Os yw hynny'n golygu oedi cyn ei gyhoeddi o gwbl, dyna y dylid ei wneud, yn hytrach na'r sefyllfa bresennol sy'n rhoi blaenoriaeth i gyhoeddi drafft Saesneg. Drwy gynyddu capasiti mewnol ac ad-drefnu, ni fyddai dim i rwystro cyhoeddi fersiwn dreigl yn y ddwy iaith ar yr un pryd os oes dymuniad i wneud hynny.

3.8. Yn yr un modd dylid newid paragraffau 5.1 a 5.2. Credwn y dylai fod cofnodion y pwyllgorau ar gael yn gwbl ddwyieithog, fel cofnodion y Cyfarfod Llawn.

3.9. Grwpiau trawsbleidiol: dylid ail-ystyried paragraff 7.1. Dylid darparu cyfieithu ar y pryd ym mhob cyfarfod grŵp trawsbleidiol (oni nodir neu ddisgwylir yn rhesymol bod pawb sy'n mynychu yn medru'r Gymraeg) er mwyn gwireddu hawliau pobl i

ddefnyddio'r Gymraeg, a meithrin yr arfer ymhlith Aelodau Cynulliad i ddefnyddio'r Gymraeg i drafod busnes y Cynulliad. Fel arall, dylid manylu ar ac esbonio ystyr 'ar gais'. Fan leiaf, dylai fod dyletswydd ar y rhai sy'n trefnu'r cyfarfodydd hyn i holi pobl ynghylch pa iaith neu ieithoedd y maent yn dymuno eu defnyddio yn y cyfarfodydd. A dylai fod dyletswydd i drefnu cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd pan nad yw pawb sy'n mynychu yn medru'r Gymraeg.

3.10. Hysbysebion a gohebiaeth etholaethol Aelodau'r Cynulliad: croesawn adran 8 fel modd o sicrhau bod modd i bob Aelod Cynulliad gyfathrebu yn Gymraeg gyda'u hetholwyr. Fodd bynnag, dylid ychwanegu cymal sy'n ymrwymo i annog Aelodau Cynulliad i ohebu a hysbysebu yn Gymraeg. Ymhellach, ym mharagraff 8.5 dylid defnyddio'r gair 'Anogir' yn lle 'Gall' ar ddechrau'r frawddeg.

3.11. Cefnogi a datblygu sgiliau iaith: nid oes rheswm pam na ddylai Cysgliad fod ar bob cyfrifiadur felly dylid dileu ail frawddeg paragraff 9.4 a mewnosod yn lle:

"Darperir Cysgliad, y feddalwedd gramadeg a gwirio sillafu Cymraeg, i bob Aelod Cynulliad a'u staff cymorth o'r cychwyn cyntaf."

3.12. Deunydd cyfathrebu i Aelodau'r Cynulliad gan staff y Cynulliad: dylid ychwanegu ymrwymiad i baragraff 10.1 y bydd pob tudalen ar y rhyngrwyd yn Gymraeg ac yn gweithio yn llawn yn Gymraeg, a hynny ar yr un pryd â'r Saesneg

3.13. Galwadau ffôn: ar ddiwedd paragraff 10.4, dylid dileu'r geiriau "*neu, os yw'n well gan y sawl sy'n galw, parhau yn Saesneg.*"

3.14. Dylid ychwanegu ymrwymiad i ateb pob galwad ffôn gyda chyfarfod Cymraeg.

3.15. Ar ddiwedd paragraff 12.3, dylid dileu'r geiriau "*neu, os yw'n well gan y cwsmer, parhau yn Saesneg.*"

3.16. Dylid ychwanegu brawddeg yn yr adran hon sy'n ymrwymo i sicrhau bod pob neges awtomatig ar y ffôn yn Gymraeg, yn unol ag ymrwymadau Safonau'r Gymraeg ar gyrff eraill. Ar hyn o bryd, dyw paragraff 12.4 ddim ond yn cyfeirio at ffonau ar eich switsfwrdd a'ch derbynfeydd.

3.17. Ein delwedd gyhoeddus: dylid ychwanegu eithriad i baragraff 13.1. fel bod modd i'r Cynulliad ddefnyddio deunydd uniaith Gymraeg yn yr Eisteddfod Genedlaethol a digwyddiadau uniaith Gymraeg eraill. Croesawn baragraff 13.2. Gobeithiwn weld y Cynulliad fel sefydliad yn mabwysiadu enw uniaith Gymraeg os bydd yn newid ei enw yn y dyfodol.

3.18. Gwasanaethau ymgysylltu â gwybodaeth gyhoeddus: dylid ychwanegu ymrwymiad i is-deitlau Cymraeg a chyfieithiadau o'r Saesneg i'r Gymraeg ym mharagraff 14.11.

3.19. Ymwelwyr ag ystâd y Cynulliad Cenedlaethol: dylid ychwanegu ymrwymiad y bydd pob aelod o staff yn cyfarch pob ymwelydd a chwsmer yn Gymraeg.

3.20. Credwn ei bod yn bwysig cefnogi'r hawl i gyrff weithredu'n uniaith Gymraeg, ym mharagraff 17.1 felly, dylid newid "gwahoddiadau dwyieithog" i "gwahoddiadau Cymraeg neu ddwyieithog".

3.21. Cyfathrebu â staff: dylid ail-ystyried paragraff 21.4. Dylid darparu cyfieithu ar y pryd ym mhob cyfarfod (oni nodir neu y disgwylir yn rhesymol bod pawb sy'n mynychu yn medru'r Gymraeg) er mwyn gwireddu hawliau pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, a meithrin yr arfer ymhlith staff a rheolwyr o ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith.

3.22. Dylid manylu ar ac esbonio ystyr 'ar gais'. Fan leiaf, dylai fod dyletswydd ar y rhai sy'n trefnu'r cyfarfodydd hyn i holi pobl ynghylch pa iaith neu ieithoedd y maent yn dymuno eu defnyddio yn y cyfarfodydd. Dylai fod dyletswydd hefyd i drefnu cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd pan nad yw pawb sy'n mynychu yn medru'r Gymraeg.

3.23. Dylid dileu paragraff 21.6 a mewnosod yn lle:

"Mae gan staff yr hawl i drafod materion yn ymwneud â'u chyflogaeth yn Gymraeg, gan ddefnyddio offer lle bo angen. Mae hynny'n cynnwys ymrwymiad i gynnal cyfarfodydd adolygiadau perfformiad, cwynion a phrosesau disgyblu yn Gymraeg".

3.24. Gweithio'n ddwyieithog: yn yr adran hon, dylid gosod targed i gynyddu nifer yr adrannau sy'n gweinyddu'n fewnol drwy'r Gymraeg, gan osod amserlen ar gyfer adrannau unigol.

3.25. Dylid dileu ail frawddeg paragraff 22.5 a mewnosod yn lle:

"Darperir Cysgliad, y feddalwedd gramadeg a gwirio sillafu Cymraeg, i bob Aelod Cynulliad a'u staff cymorth o'r cychwyn cyntaf."

3.26. Strategaeth Sgiliau Dwyieithog: yn yr adran hon, dylid gosod targed i sicrhau bod dros 50% o staff yn cyrraedd lefel 4 neu 5 yn y Gymraeg erbyn diwedd tymor y Cynulliad hwn.

3.27. Rhaglen gynefino ac ymwybyddiaeth: mae'n hollbwysig bod pob aelod o staff nad ydynt yn gallu gweithio drwy'r Gymraeg yn cael hyfforddiant Cymraeg yn ddiofyn. Credwn felly y dylid dileu paragraff 24.2. a mewnosod yn lle:

"Bydd pob aelod newydd o staff, nad ydynt yn rhugl yn Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn derbyn cynllun a fydd yn esboniad o'r hyfforddiant a ddarperir iddynt er mwyn datblygu neu wella eu sgiliau iaith fel rhan o'r broses gynefino."

Adran 3

3.28. Thema 1: Recriwtio: yn gyffredinol, croesawn yr ymrwymadau yn yr adran hon. Credwn ei fod yn ddatblygiad a allai gael effaith gadarnhaol iawn ar y sefydliad.

3.29. Er mwyn sicrhau bod y polisi yn cael yr effaith fwyaf cadarnhaol bosibl a threiddio drwy'r sefydliad i gyd, mae'n rhaid i ddatblygu sgiliau Cymraeg fod yn rhan o'r polisi dyrchafu staff yn ogystal â'u recriwtio a'u cynefino fel y gwneir gan Heddlu Gogledd Cymru.

3.30. Yn y frawddeg olaf yn y paragraff cyntaf, dylid newid "*byddai llawer ohonynt ar y lefel isaf*" i "*byddai rhai ohonynt ar y lefel isaf*".

3.31. Er mwyn sicrhau bod pob aelod newydd o staff yn cael datblygiad iaith digonol, dylid mewnosod y canlynol yn lle'r trydydd pwynt bwled:

"darparu hyfforddiant pwrpasol ar gyfer pob aelod newydd o staff nad yw'n rhugl yn Gymraeg"

3.32. Thema 2: Sgiliau iaith: yn yr adran hon, dylid gosod targed i sicrhau bod o leiaf 50 o staff y flwyddyn yn mynychu cyrsiau trochi Cymraeg am gyfnodau llawn amser mewn bloc o tua mis. Byddai cyrraedd y targed hwnnw yn gallu gweddnwedd defnydd y Gymraeg o fewn y sefydliad yn ogystal â chyfrannu at dargedau cenedlaethol o ran cynyddu defnydd yr iaith.

3.33. Dylid cydnabod dyletswydd gymdeithasol ehangach y Cynulliad i addysgu'r Gymraeg i'w staff. Gyda hynny mewn golwg, dylid ychwanegu ymrwymiad i gynorthwyo staff i fod yn rhugl yn Gymraeg, nid yn unig at ddibenion eu swyddi, ond yn ogystal er mwyn eu galluogi i fyw eu bywydau yn Gymraeg fel dinasyddion Cymru. Dylid ychwanegu nod i sicrhau, dros amser, bod holl staff y Cynulliad yn rhugl eu Cymraeg er lles ein cymdeithas yn gyffredinol, nid yn unig eu lles yn y gweithle.

3.34. Yn y pwynt bwled olaf, nid yw'n gywir cyfeirio at "secondiadau a chynlluniau trochi" fel modelau newydd ac arloesol. Dylid yn ogystal cydweithio â'r endid newydd Cymraeg i Oedolion ar y mater hwn. Yn lle'r pwynt hwnnw felly, dylid mewnosod:

"cydweithio â Chymraeg i Oedolion er mwyn sefydlu cynlluniau newydd i helpu dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau iaith, er enghraifft secondiadau a chynlluniau trochi ieithyddol, dros gyfnod y cynllun hwn."

3.35. Thema 3: Cynllunio ieithyddol: croesawn yn fawr yr ymrwymiad i "roi mwy o gydnabyddiaeth ffurfiol sy'n gysylltiedig â gyrfa i aelodau o staff sy'n manteisio ar gyfleoedd hyfforddi gyda'r Tîm Sgiliau Iaith." ac y bydd yn cael ei gydnabod yn y system reoli perfformiad.

3.36. Thema 5: Datblygu ethos dwyieithog y sefydliad: ar dudalen 38, y trydydd pwynt bwled, dylid newid "ymchwilio i ffyrdd o ddarparu rhyngwynebau cyfrwng Cymraeg" i "ddarparu rhyngwynebau cyfrwng Cymraeg".

Adran 4

3.37. Trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd yn ôl: er mwyn sicrhau craffu digonol a gwelliant parhaus, credwn y dylai fod pwyllgor allanol i fonitro'r cynllun a'i weithredu.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

01. Cefndir

01.01. Mae Ochr yr Undebau Llafur (TUS) Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnwys y tri undeb llafur a gydnabyddir yn ffurfiol gan Gomisiwn y Cynulliad fel cyflogwr staff y Comisiwn. Y rhain yw PCS, FDA a Prospect. Caiff y mwyafrif helaeth o staff Comisiwn y Cynulliad eu cynrychioli gan y tri undeb.

01.02. Mae'r safbwyntiau yn y dystiolaeth wedi cael eu tynnu ynghyd o'r gwahanol lefelau o waith ymgynghori ar y cynllun hwn y mae'r tri undeb wedi llwyddo i'w gwblhau yn yr amser a oedd ar gael.

02. Sylwadau cyffredinol

02.01. Mae Ochr yr Undebau Llafur yn gyffredinol falch o gael ymateb i'r ymgynghoriad ar ddrafft cynnar o'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol newydd ar gyfer y Pumed Cynulliad ac o gael ymateb nawr i'r Pwyllgor.

02.02. Rydym yn dathlu'r ffordd gydweithredol y mae Rheolwyr Comisiwn y Cynulliad yn gweithio mewn partneriaeth gydag Ochr yr Undebau Llafur fel undebau i ddatblygu'r ystod eang o bolisiâu ac arferion gwaith sy'n effeithio ar staff Comisiwn y Cynulliad.

02.03. Yn nes ymlaen yn y ddogfen hon, rydym yn gwneud sylwadau ar rai o'r meysydd penodol lle hoffem weld gwelliant pellach. Rydym yn ymwybodol bod rhan o'n trylwyredd wrth graffu ar y ddogfen hon, yn anochel, yn sgil y ffaith bod llawer o'n haelodau yn gweithio mewn rolau craffu ac wedi arfer â chraffu'n llawn ar unrhyw ddogfen ysgrifenedig sy'n cael ei rhoi o'u blaen. Nid ydym am ddibrisio'r budd a welwn yn y cynnydd a gafwyd drwy roi statws cyfartal i'n hieithoedd swyddogol drwy gydol y Pedwerydd Cynulliad ac yn y gwelliannau at y dyfodol sydd i'w gweld yn y cynllun drafft newydd hwn.

02.04. Yn gyffredinol, rydym yn teimlo bod hwn yn bolisi call sy'n taro cydbwysedd da rhwng hyrwyddo'r Gymraeg yn ein gwaith bob dydd a bod yn deg hefyd i'r rhai hynny nad ydynt yn siarad Cymraeg yn y gweithle (ac nad ydynt yn dymuno gwneud hynny). Mae'n sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu darparu i'r Aelodau (lle dymunir) a'r cyhoedd.

02.05. Fodd bynnag, hoffem weld y ddwy iaith swyddogol yn cael eu trin yn fwy cyfartal. Mae nifer o feysydd a nodir isod lle caiff y Gymraeg, ei defnydd a

datblygu sgiliau staff yn yr iaith hon eu crybwyll yn benodol, ond lle na chaiff gwaith tebyg i wella gwasanaethau neu sgiliau yn Saesneg ei nodi. Os yw'r ddwy iaith swyddogol am gael eu trin yn gyfartal, hoffem weld termau cyfartal yn cael eu defnyddio drwy gydol y ddogfen.

03. Sylwadau ar eiriad penodol yn y cynllun

03.01. Rydym yn awyddus bod y staff yn cael y cyfle i wella eu holl sgiliau yn y gweithle. Yn y cyd-destun hwn, rydym yn awyddus i sicrhau y cynigir cyfleoedd i wella sgiliau yn y **ddwy** iaith swyddogol

Tud. 6 - 'yn gyflogwr sy'n cefnogi pob aelod o staff sydd am ddatblygu neu wella eu sgiliau yn y ddwy iaith swyddogol neu yn y naill iaith neu'r llall i safon sy'n briodol i'w swydd, neu ymhellach os dymunant'

03.02. Rydym o blaid hyrwyddo gwasanaethau dwyieithog i staff newydd a phresennol fel ei gilydd. Rydym yn cwestiynu'r mentrau codi ymwybyddiaeth "parhaus" ac yn meddwl a fyddai ailadroddus neu reolaidd yn iaith gliriach.

Tud. 10 - 'codi ymwybyddiaeth o'r Cynllun a'i ofynion ymysg staff yn barhaol drwy ddarparu hyfforddiant cychwynnol i bob aelod o'r staff fel rhan o'u rhaglen gynefino, a mentrau codi ymwybyddiaeth parhaus drwy gydol y flwyddyn seneddol'

Tud. 37 - 'darparu cyfleoedd parhaus i ategu neu ddatblygu dealltwriaeth o'r Cynllun...'

03.03. Mater o gydraddoldeb iaith: rydym yn gobeithio y bydd cyfleoedd o'r fath i staff wella eu sgiliau iaith ar gael i wella yn y Gymraeg a'r Saesneg ac ar bob lefel briodol, ac yn gofyn am ymrwymiad i'r perwyl hwnnw.

*Tud. 26 - 'mynediad i gymorth hyblyg wedi'i deilwra i aelodau o staff sy'n dymuno datblygu neu **wella eu sgiliau iaith...**'*

03.04. Mae iaith "hawliau" yma yn mynd yn groes i iaith "dewis" yng ngweddill y ddogfen. Os oes gan y ddau ochr "haw" i weithio yn yr iaith o'u dewis, ond bod y dewis yn wahanol, sut y caiff y gwrthdaro rhwng yr "hawliau" hyn ei ddatrys.

Tud 26 - 'parchu hawliau Aelodau, cydweithwyr a'r cyhoedd i ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall neu'r ddwy iaith swyddogol'

03.05. I lawer o wasanaethau â disgyblaethau arbenigol, gallai darparu "unrhyw wybodaeth newydd" yn ddwyieithog arwain at gynnydd mawr mewn cyfieithu diangen o ddogfennau hynod dechnegol ac arbenigol gyda nifer fechan iawn o

ddarllenwyr o bosibl, mewn rhai achosion dim ond yr awdur ac o bosibl un arall mewn argyfwng. Rydym yn awgrymu bod iaith y pwynt hwn braidd yn gryf a bod angen ystyried o ddifrif y goblygiadau o ran adnoddau cyn ei roi ar waith.

Tud 27 – Mae unrhyw wybodaeth newydd y mae staff yn ei datblygu am eu gwasanaethau (e.e. gwybodaeth ar y fewnrwyd ac ar ffurf copi caled) yn ddwyieithog

03.06. Caiff newidiadau i opsiynau recriwtio eu croesawu. Mae'r maen prawf presennol "Cymraeg yn ddymunol" yn annymunol ac yn amwys. Ond rydym eisiau mwy o sicrwydd.

03.07. Er bod y cysyniad yn cael ei groesawu, mae pryderon hefyd wedi cael eu mynegi ynghylch y broses o roi'r newidiadau recriwtio hyn ar waith. Mewn trafodaethau cynharach ynghylch y cynllun hwn, dywedodd Ochr yr Undebau Llafur yn glir mai un o'r gofynion ynghylch gwneud y newid hwn oedd y byddai angen darparu deunyddiau ategol i reolwyr sy'n cyflogi a'r rhai sy'n gwneud cais am swyddi er mwyn egluro'r lefelau newydd cyn dechrau eu defnyddio'n llawn.

03.08. Nid ydym yn siŵr a allai dryswch godi lle mai dim ond "cwrteisi ieithyddol sylfaenol" sy'n ofynnol ac a ydym yn gofyn i ymgeiswyr gael y sgiliau cyn iddynt gael eu penodi neu'n dweud y gallant ennill y sgiliau hynny fel rhan o'r broses gynefino (tudalen 32). Mae angen inni fod yn glir a yw hyn yn rhan o asesiad y broses recriwtio. Rydym yn tybio y bydd yn gymwys i swyddi mewnol ac allanol. Rydym yn pryderu y gall unrhyw ddiffyg eglurder o'r hyn a ddisgwylir ar adeg yr asesiad achosi i geisiadau beidio â chael eu gwneud a phrofi rhinweddau, efallai drwy grŵp ffocws o amrywiaeth eang o ddarpar ymgeiswyr a bod unrhyw ddysgu yn llywio sut y caiff y polisi hwn ei weithredu (gweler y pwynt isod ynghylch yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb).

03.09. Os ydym am weithio gyda lefelau safonol o sgiliau mewn iaith, yna mae angen bod profion safonol ar gyfer y sgiliau hynny ar gael i'r rhai sy'n recriwtio er mwyn sicrhau proses deg a thryloyw. Gan ein bod yn gweithio gyda'n dwy iaith swyddogol ar y sail eu bod yn gyfartal, yna mae'n dilyn y dylai staff hefyd fod yn barod i gael asesiad o'u sgiliau yn y naill iaith/yn y ddwy iaith yn gyfartal adeg eu recriwtio.

*Tud 28 – 'Caiff ymgeiswyr **eu hasesu yn briodol** yn ystod y broses recriwtio er mwyn sicrhau eu bod yn gyffyrddus â'r hyn sy'n ddisgwyledig o ddeiliad y swydd.'*

03.10. Mae Ochr yr Undebau Llafur wedi nodi y gallai'r lefel newydd "cwrteisi ieithyddol sylfaenol" yn Gymraeg fel gofyniad ar gyfer pob swydd gael effaith bosibl ar gyfle cyfartal y Cynulliad wrth recriwtio. Hoffem weld canlyniad yr Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb o'r dull gweithredu newydd hwn. Unwaith eto, efallai y bydd y risgiau yn cael eu lliniaru drwy'r ffordd y caiff y cynllun newydd hwn ei gyflwyno, ond nid yw'r ddogfen hon nac unrhyw ganllawiau ategol yn rhoi manylion ynghylch sut y bydd y cynllun yn cael ei gyflwyno. Serch hynny, ymddengys fod rhai o'r newidiadau yn y polisi drafft eisoes wedi'u rhoi ar waith, o leiaf yn achos rhai ymarferion recriwtio prawf.

Tud. 33 – 'O dan y fframwaith, byddai angen rhyw lefel sylfaenol o ddealltwriaeth o'r Gymraeg ar gyfer pob swydd a hysbysebiri, er y byddai llawer ohonynt ar y lefel isaf lle mae angen 'cwrteisi ieithyddol sylfaenol' yn unig

03.11. A ydym yn gofyn i ymgeiswyr i feithrin sgiliau cyn eu penodi, ond hefyd yn dweud y gallant ddysgu'r sgiliau hynny fel rhan o'r broses gynefino? A yw hyn yn anghyson?

Tud. 32 –

- 'mabwysiadu dull lle mae angen o leiaf lefel sylfaenol o sgiliau Cymraeg ('cwrteisi ieithyddol sylfaenol') ar gyfer pob swydd a hysbysebiri a bod disgwyl i ymgeiswyr ddangos tystiolaeth o'r sgiliau hynny adeg eu penodi, neu ymrwymiad i ddysgu'r sgiliau hynny fel rhan o'r broses gynefino;*
- rhoi cyngor i'r holl ymgeiswyr ar **feithrin y sgiliau iaith priodol cyn eu penodi**, gan gynnwys adnoddau ar-lein...'*

03.12. Er ein bod yn annog staff i gyflawni'r lefel angenrheidiol ar ôl recriwtio neu drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus, byddai gennym bryderon am unrhyw ddysgu sy'n ofynnol ar gyfer y gweithle y byddai disgwyl iddo gael ei wneud yn ddi-dâl neu cyn dechrau gweithio i'r Cynulliad yn ffurfiol.

03.13. Rydym yn croesawu'r ymrwymiad i gefnogi staff sydd eisieu dysgu, ond hoffem wybod mwy am hyn ar gyfer y rheini sy'n rheolwyr. Mae gan bob rheolwr aelod o staff sy'n dysgu, sy'n beth da, ond nid ydym yn gwybod am y ddarpariaeth gyffredinol a gynnigir gan y Comisiwn.

03.14. Mae arfer dysgu da yn nodi y dylid cytuno ar amcanion dysgu rhwng y dysgwyr a'r tiwtor. Rydym yn gobeithio y bydd modd mabwysiadu'r dull hwn yn hytrach na dim ond rhoi targedau i ddysgwyr iaith.

Tud. 34 - ...bydd y tîm hefyd yn rhoi targed dysgu penodol bob blwyddyn i bob dysgwr sy'n cofrestru ar gyrsiau dan arweiniad tiwtor'

03.15. Pwynt bach am linyddau gwddf. Mae'r ddogfen yn nodi -

Tud. 36 - '...sicrhau bod staff dwyieithog yn gwisgo llinynnau gwddf 'laith Gwaith' neu 'Dysgwr'...'

03.16. Oni ddylai pob aelod o staff gael dewis ynghylch llinynnau gwddf yn hytrach na bod yn rhaid iddynt wisgo llinyn gwddf penodol sy'n eu gwahaniaethu? Rydym yn deall ac yn cefnogi'r cysyniad o ddarparu llinynnau gwddf ond nid felly o ran eu gwisgo.

03.17. Pwynt o ran drafftio: a yw "staff rheng flaen/front-facing staff" yn derm priodol? A ddylem ddweud "staff sy'n ymdrin â'r cyhoedd/public-facing" yn lle hynny?

*Tud. 24 - '...gall y cyhoedd ddisgwyl gallu sgwrsio â **staff rheng flaen** naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg...'*

*Tud. 36 - 'Dylai **aelodau o staff rheng flaen** sy'n siarad Cymraeg fod yn hawdd eu hadnabod'*

03.18. Mae pryder hefyd nad yw'r term hwn yn cael ei ddiffinio yn y ddogfen hon, nac yn unrhyw bolisi gweithredol arall y Cynulliad. Byddai'n dda cael eglurhad ynghylch sut y caiff y categorïau rôl hyn eu diffinio a lle y dylai fod disgwyl i'r ffin orwedd.

03.19. Unwaith eto, ar sail cydraddoldeb, hoffem weld gwelliannau a chyflawniadau pob aelod o staff yn y ddwy iaith swyddogol yn cael eu cydnabod. Hoffem hefyd weld cydnabyddiaeth i'r rhai sy'n mynd ati'n fwy i ddefnyddio'r sgiliau iaith sydd ganddynt eisoes ac sydd wedi cael eu mireinio trwy fagwraeth ar aelwyd Gymraeg neu drwy fynychu ysgol Gymraeg yn hytrach na dim ond y rhai sy'n cael eu cyfrif fel "dysgwyr Cymraeg" .

Tud. 37 – 'rhoi cyhoeddusrwydd i gyflawniadau ein dysgwyr Cymraeg drwy amrywiol gyfryngau a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol'.

04. Casgliad

04.01. Mae llawer o ewyllys da ymhlith staff y Cynulliad tuag at y ddwy iaith swyddogol. Maent yn cydnabod bod angen i'r Cynulliad allu darparu ystod lawn o wasanaethau yn Gymraeg a Saesneg ac yn benodol i ddarparu gwasanaethau sy'n caniatáu i holl Aelodau'r Cynulliad ac eraill sy'n cymryd rhan yn nhrefodion y Cynulliad wneud hynny yn eu dewis iaith.

04.02. Mae ein defnydd o'r ieithoedd swyddogol wedi aeddfedu ers cyflwyno Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012 a'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol cyntaf, ac mae modd clywed sut y mae'r Cynulliad wedi dod yn lle mwy dwyieithog yn y pedair blynedd diwethaf. Rydym yn credu bod lle i wella gwasanaethau fwyfwy drwy hyfforddiant a thrwy wella'r ddarpariaeth ieithyddol ar gyfer y ddwy iaith swyddogol.

04.03. Fodd bynnag, nid oes modd osgoi'r ffaith bod nifer sylweddol o staff y Cynulliad yn parhau i ddweud eu bod yn ddi-Gymraeg neu fod ganddynt "gwrteisi ieithyddol sylfaenol" yn unig, ac ni fyddem am i gyfleoedd gyrfa gael eu rhwystro'n ddiangen o ganlyniad i beidio â gallu siarad Cymraeg i lefel ddigonol.

05. Bod yn agored a thystiolaeth lafar

05.01. Rydym yn fodlon i'r ymateb hwn gael ei gyhoeddi'n llawn. Fodd bynnag, rydym yn gyndyn i roi tystiolaeth lafar. Rwy'n siŵr y bydd y Pwyllgor yn deall, fel aelodau cyfredol o staff y Cynulliad, y gallai unigolion y byddai gofyn iddynt roi tystiolaeth gael eu rhoi mewn sefyllfa anodd pe credir eu bod yn feirniadol o'r Cynulliad neu Gomisiwn y Cynulliad.

Cefndir

1. Prif nod y Comisiynydd yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn trwy ddwyn sylw at y ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.
2. Mae dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:
 - Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru;
 - Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.
4. Comisiynydd y Gymraeg sy'n gyfrifol am gymeradwyo Cynlluniau Iaith Gymraeg a baratoir gan sefydliadau yn unol â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac am osod Safonau ar sefydliadau yn unol â darpariaethau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Nid yw'n rhan o swyddogaethau statudol y Comisiynydd i gytuno neu gymeradwyo cynnwys Cynllun Ieithoedd Swyddogol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Croesawaf y cyfle i fynegi barn ar gynnwys y cynllun a cyfrannir y sylwadau isod yn unol â rôl y Comisiynydd dan Adran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i roi cyngor a chyflwyno sylwadau i unrhyw berson.

Cyd-destun

5. Ystyriaif Gynllun Ieithoedd Swyddogol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gynllun hollbwysig, nid yn unig wrth osod polisiau ar wasanaethau i'w darparu yn Gymraeg gan y Cynulliad ond hefyd wrth sicrhau twf mewn defnydd y Gymraeg o fewn prif gorff democrataidd Cymru. Credaf bod gweld a chlywed y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n gyson ar lawr y Senedd ac yn nhrefodaethau'r pwyllgorau yn hollbwysig i statws y Gymraeg a bod hynny'n annog ac yn awdurdodi eraill i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn bywyd cyhoeddus yn Nghymru. O ystyried hynny, croesawaf fwriad y Comisiwn i gyflwyno cynllun newydd sy'n adeiladu ar y cynllun blaenorol a'r cyfle a gynigir gan yr ymgynghoriad hwn i bersonau yng Nghymru gyfrannu at ddatblygiad y cynllun.

Cynnwys y cynllun

6. Ym mis Rhagfyr ymatebais i ymgynghoriad gan Gomisiwn y Cynulliad ar ddrafft o Gynllun Ieithoedd Swyddogol newydd. Nodais groeso i'r cynllun sy'n adeiladu ar y

cynllun blaenorol drwy gynnwys nifer o ddarpariaethau newydd a chadarnhaol, er enghraifft mewn perthynas â defnydd y Cynulliad o dechnoleg gwybodaeth wrth gynyddu defnydd y Gymraeg. Cynigiais i'r Comisiwn rhai gwelliannau y gellid eu gwneud i'r cynllun drafft, er enghraifft er mwyn sicrhau cysondeb gyda defnydd y Gymraeg gan sefydliadau sy'n destun Safonau'r Gymraeg. Atodaf y sylwadau anfonwyd i'r Comisiwn bryd hynny.

7. Yn ogystal â'r sylwadau gynigiwyd i'r Comisiwn bryd hynny, hoffwn ddwyn sylw'r pwyllgor at un rhan penodol o'r cynllun drafft. Wrth drafod ymgynghoriadau a gynhelir gan bwyllgorau, noda gynllun 2013 y canlynol:

'Bydd pwyllgorau yn gofyn o'r cychwyn cyntaf am ddogfennau neu ymatebion ysgrifenedig i ymgynghoriadau gan sefydliadau allanol a thrydydd parti y bwriedir eu cyhoeddi a/neu eu defnyddio yn nhrefodion y Cynulliad Cenedlaethol yn ddwyieithog.... Pan nad yw'n bosibl sicrhau dogfennau gan sefydliadau allanol a thrydydd parti yn y ddwy iaith, rydym yn eu cyhoeddi yn yr iaith y'u cyflwynwyd, gan nodi y daeth y dogfennau i law yn yr iaith honno yn unig. Caiff dogfennau Cymraeg eu cyfieithu i'r Saesneg at ddefnydd yr Aelodau.'

Mae'r paragraffau uchod wedi eu cynnwys air am air yn y cynllun drafft newydd, heblaw am y frawddeg olaf sydd wedi ei hepgor o'r cynllun newydd. Hyderwn nad yw hynny'n golygu na fydd y Cynulliad bellach yn cyfieithu i'r Saesneg ymatebion a gyflwynir yn Gymraeg yn unig mewn ymateb i ymgynghoriadau'r pwyllgorau. Mae'n gwbl rhesymol i'r Cynulliad annog personau eraill i gyflwyno ymatebion dwyieithog i ymgynghoriadau'r pwyllgorau. Ar yr un pryd, rhaid derbyn y gall fod yn anodd i rai personau wneud hynny ac mae'n anochel y bydd rhai yn cyflwyno eu hymatebion mewn un iaith yn unig. Lle cyflwynir ymateb i ymgynghoriad yn Saesneg yn unig, bydd holl aelodau'r pwyllgorau yn medru darllen a deall yr ymateb hwnnw. Yr unig ffordd o sicrhau y gall holl aelodau pwyllgorau hefyd ystyried ymatebion a dderbynnir yn Gymraeg yn unig, a thrwy hynny sicrhau tegwch i'r rheini sy'n cyflwyno ymatebion yn Gymraeg yn unig, yw parhau i gyfieithu'r ymatebion hynny i'r Saesneg. Hyderaf felly nad yw hepgor y frawddeg uchod o'r cynllun drafft newydd yn golygu y bwriedir rhoi'r gorau i gyfieithu ymatebion Cymraeg i'r Saesneg.

8. Hoffwn nodi fy ngwerthfawrogiad bod fy swyddogion wedi cael cyfle'n ddiweddar i drafod ein sylwadau ar y cynllun drafft gyda swyddogion y Cynulliad. Deallaf bod swyddogion y Cynulliad wedi derbyn yr holl sylwadau a gynigiwyd gennym a'u bod yn bwriadu ymgorffori'r newidiadau a gynigiwyd gennym i ddrafft terfynol y cynllun.

Hyderaf bydd y sylwadau sydd uchod ac ynghlwm o ddefnydd i'r pwyllgor wrth iddo graffu ar y Cynllun Ieithoedd Swyddogol drafft. Os yw'n fwriad gan y pwyllgor i gyhoeddi ei sylwadau ar y cynllun byddwn yn ddiolchgar am dderbyn copi ohonynt.

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

1. Yn 2014 roedd hi'n frainit i Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru fod yn rhan o lansiad y model Cymraeg byd-eang ar gyfer Microsoft Translator. Rydym yn falch iawn, felly, fod y Cynulliad Cenedlaethol yn bwriadu parhau i ddatblygu ei berthynas gyda Microsoft. Bydd hyn yn siŵr o arwain at ddatblygu a gwella ymhellach yr opsiwn Cymraeg o fewn Microsoft Translator. Mae hyn, wrth gwrs, yn hanfodol os yw'r feddalwedd i fod yn un gwerth ei defnyddio. Mae'r ffaith fod defnyddio'r feddalwedd hon wedi cynyddu effeithlonrwydd cyfieithwyr hyd at 20% i'w groesawu ac yn dangos ei fod yn erfyn pwysig ac effeithiol i gyfieithwyr wrth eu gwaith. I eraill sydd am ddefnyddio'r Gymraeg, bydd yn gymorth gwerthfawr iddyn nhw yn eu cyfathrebu, a nodwn eich bod yn cynnig cyngor a hyfforddiant er mwyn sicrhau fod y dechnoleg yn cael ei ddefnyddio'n briodol.

Rydym yn falch iawn y bydd papur ar y modd y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn defnyddio technoleg cyfieithu peirianyddol yn cael ei gyflwyno gan un o'ch cyfieithwyr yng Nghynhadledd yr Institute of Translation and Interpreting, un o gynadleddau pwysigaf y byd cyfieithu, yng Nghaerdydd ym mis Mai 2017, a hynny ar anogaeth y Gymdeithas hon.

2. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol dîm ardderchog o gyfieithwyr ar y pryd medrus a galluog, ac mae'r rhan fwyaf ohonyn nhw'n aelodau Cyfieithu ar y Pryd o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru. Mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn golygu y gall pob un gyfrannu at y trafodaethau yn ei ddewis iaith yn ddirwystr. Bydd y gwasanaeth hwn, felly, yn bwysig wrth weithredu'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol newydd. Mae dyfyniad Heledd Roberts o swyddfa Rhun ap Iorwerth AC yn yr Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol yn brawf diamheuol o hyn.
3. P'un ai Microsoft Translator neu gyfieithu ar y pryd, yr hyn sy'n bwysig yw bod yr Aelodau a'r staff yn defnyddio'r holl adnoddau a chyfleusterau sydd ar gael iddyn nhw er mwyn sicrhau y caiff y Gymraeg ei defnyddio'n naturiol yng ngwaith y sefydliad.

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 4

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Ofcom

sicrhau bod cyfathrebiadau'n
gweithio i bawb

Gwasanaethau'r BBC: cynulleidfaedd yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi:

29 Mawrth 2017

Gair am y ddogfen hon

Bydd y drwydded ar gyfer gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU yn rhoi'r amcanion a'r amodau rheoleiddio mae modd eu gorfodi sy'n briodol ym marn Ofcom ar gyfer ei gwneud yn ofynnol i'r BBC gyflawni ei genhadaeth a hyrwyddo ei ddibenion cyhoeddus; i sicrhau darpariaeth sy'n cynnwys allbwn a gwasanaethau unigryw; ac i sicrhau bod holl gynulleidfaoedd y BBC yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael gwasanaeth da.

Mae'n rhaid i'r BBC gydymffurfio â'r amodau rheoleiddio yn y drwydded weithredu. Gall Ofcom gymryd camau gorfodi mewn achos o ddiffyg cydymffurfio.

Rydym yn ymgynghori'n gyhoeddus ar yr amodau rydyn ni'n cynnig eu gosod yn y drwydded weithredu. Dyma'r ddogfen ar wahân ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru sy'n nodi'r amodau rheoleiddio rydyn ni'n cynnig a ddylai fod yn berthnasol i wasanaethau cyhoeddus y DU yng Nghymru'n benodol.

Mae ein dogfen ymgynghori, "Dal y BBC i gyfrif am gyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus", wedi'i chyhoeddi ar ein gwefan¹ ac mae'n cynnwys manylion ynghylch sut mae ymateb i'r ymgynghoriad. Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw Dydd Llun, 17 Gorffennaf 2017.

¹<https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/bbc-performance>

Cynnwys

Adran

- 1 Gwasanaethau'r BBC yng Nghymru:
- 2 Amcanion ac amodau rheoleiddio penodol i Gymru

Tudalen

1
3

Atodiad

Drafft o'r drwydded weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC
yn y DU

Tudalen

9

Gwasanaethau'r BBC yng Nghymru:

- 1.1 Mae'r BBC i bawb ledled y Deyrnas Unedig. Mae Siarter newydd y BBC yn sicrhau bod cyflawni gwasanaethau ar gyfer holl wledydd a rhanbarthau'r DU yn ganolog i amcanion y BBC. Mae darparu allbwn a gwasanaethau sy'n diwallu anghenion gwledydd a rhanbarthau'r DU, ac sy'n cyfrannu at yr economi greadigol, yn sail i un o bum diben cyhoeddus y BBC. Yn unol â'r Siarter, mae'n rhaid i'r BBC adlewyrchu amrywiaeth y DU, a chynrychioli a phortreadu bywydau pobl ledled y DU yn gywir ac yn ddilys.
- 1.2 Fel rheoleiddiwr allanol y BBC, mae'r Siarter yn rhoi'r rôl i Ofcom o ddal y BBC i gyfrif am gyflawni ei holl ddibenion cyhoeddus ledled gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU. Rhaid i ni osod trwydded weithredu sy'n rhoi gofynion ar y BBC, sydd wedi'u llunio i sicrhau bod hynny'n digwydd, ac i adrodd ar ei berfformiad. Mae gofyn i'r BBC ystyried anghenion cynulleidfaoedd ym mhob un o wledydd a rhanbarthau'r DU, ac felly mae'n rhaid i Ofcom roi ystyriaeth arbennig i hynny wrth osod gofynion ar y BBC. Mae'r Cytundeb a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Siarter yn rhoi cyfrifoldeb penodol i Ofcom dros osod targedau cadarn i'r BBC eu cyrraedd wrth gynhyrchu rhaglenni a rhai mathau o raglenni ym mhob un o wledydd y DU.
- 1.3 Mae llawer o weithgareddau'r BBC yn cael eu cynnal ledled y DU, ac rydyn ni'n cynnig adlewyrchu hynny drwy sefydlu un drwydded weithredu ar gyfer y BBC.² Mae llawer o'r gofynion rydyn ni'n eu cynnig yn y drwydded honno yn berthnasol i wasanaethau a gweithgareddau'r BBC ledled y DU - er enghraifft, mae'r amodau sy'n berthnasol i'r diben cyhoeddus cyntaf, yr ail ddiben cyhoeddus a'r trydydd diben cyhoeddus i gyd yn berthnasol i'r DU, megis y natur unigryw gyffredinol teledu rhwydwaith a gwasanaethau radio'r BBC.
- 1.4 Ar ben hynny, ceir gofynion sy'n neilltuo i Gymru yn unig: mae'r rhain yn ofynion penodol ynghylch gweithgareddau'r BBC yng Nghymru, ac ynghylch y gwasanaethau mae'n ei ddarparu sy'n canolbwyntio ar gynulleidfaoedd yng Nghymru. Mae'n hollbwysig bod modd i dalwyr ffi'r drwydded weld yn hawdd beth sy'n ofynnol i'r BBC ei ddarparu iddynt, lle bynnag maent yn y DU.
- 1.5 Rydyn ni'n sicrhau bod y drwydded weithredu ddrafft ar gael i bob un o wledydd y DU ar ffurf sy'n egluro beth rydyn ni'n cynnig ei ofyn i'r BBC yn y wlad honno. Mae'r ddogfen hon yn gwneud hynny ar gyfer Cymru. Ar gyfer pob un o wledydd y DU, rydyn ni'n sicrhau bod y drwydded weithredu ddrafft ar gael ar ffurf sy'n egluro beth rydyn ni'n cynnig ei ofyn i'r BBC yn y wlad honno. Mae'r ddogfen hon yn gwneud hynny ar gyfer Cymru. Mae'n gosod yr amcanion penodol a'r gofynion gorfodadwy ("amodau rheoleiddio") rydyn ni'n eu cynnig a fydd yn berthnasol i'r BBC yng Nghymru. Mae'r rhain yn edrych ar amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys buddsoddiad y BBC yng Nghymru yn ogystal â'r gofynion sy'n benodol i ddarparu rhaglenni ar gyfer Cymru, megis lefel sylfaenol o allbwn newyddion lleol a materion cyfoes i gael eu darlledu ar y BBC yng Nghymru.
- 1.6 Rydyn ni'n bwriadu mesur yn flynyddol sut mae'r BBC yn perfformio yn erbyn y gofynion hyn, ac i ba raddau mae'n bodloni disgwyliadau talwyr ffi'r drwydded ym mhob rhan o'r DU. Fel rhan o hynny, rydyn ni'n cynnig sefydlu rhaglen ymchwil

²Mae'r amodau rheoleiddio yn cynnwys gofynion sy'n berthnasol ledled y DU a gofynion ar gyfer pob un o wledydd a rhanbarthau'r DU. Y "drwydded weithredu ar gyfer Gwasanaethau y BBC yn y DU" yw fersiwn awdurdodol yr amodau rheoleiddio hyn, sef drafft sydd wedi'i atodi yn y ddogfen hon.

ymsg cynulleidfaoedd bob blwyddyn i sicrhau bod perfformiad y BBC yn cael ei dracio'n gadarn ac yn gyhoeddus. Gyda'r ymchwil hwn, byddwn yn mesur i ba raddau y mae pobl ledled Cymru defnyddio gwasanaethau'r BBC ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol. Rydyn ni'n hefyd yn cynnig casglu gwybodaeth ynglŷn â faint o arian mae'r BBC yn ei wario, a'r nifer o oriau'r flwyddyn y mae'n darlledu rhaglenni Cymreig ac yn darlledu allbwn rhwydwaith yng Nghymru.

Adran 2

Amcanion ac amodau rheoleiddio penodol i Gymru

Mae'r adran hon yn rhestru'r holl amcanion a'r amodau rheoleiddio gorfodadwy rydyn ni'n cynnig eu gosod ar y BBC yng Nghymru yn y drwydded weithredu. Caiff rhif y paragraff ei restru hefyd fel bod modd mapio'r amodau yn ôl i'r drwydded weithredu ddrafft llawn, sydd wedi'i chynnwys fel atodiad i'r ddogfen hon.

Rhif cyfeirnod	Amcanion
1.31 (1.31.1 i 1.31.4)	<p>Mewn perthynas â gwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig, dylai'r BBC wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• cynrychioli a phortreadu pob carfan o gynulleidfa'r gwledydd a'r rhanbarthau yn gywir ac yn ddilys ledled ei allbwn, ei wasanaethau a'i genres³;• dosbarthu ei adnoddau cynhyrchu ledled y Deyrnas Unedig gan sicrhau ei fod yn cefnogi'r diwydiannau creadigol yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Dylai hyn hefyd gynnwys cynhyrchu ledled rhanbarthau Lloegr a meithrin twf cynaliadwy ar gyfer y diwydiannau creadigol ym mhob cwr o'r Deyrnas Unedig;• sicrhau bod rhaglenni ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau yn gwasanaethu'r bobl sy'n byw yn yr ardal lle darperir y gwasanaeth ac yn creu cynnwys sy'n berthnasol ac o ddiddordeb iddynt. Yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, dylai hyn gynnwys amrywiaeth helaeth o genres, gan gynnwys drama, comedi, chwaraeon, darlledu yn yr ieithoedd brodorol; a• chyfrannu at les cymdeithasol drwy addysg ddiwylliannol, ymwybyddiaeth a dod â phobl at ei gilydd i rannu profiadau.
1.32 (1.32.1 i 1.32.4)	<p>Mewn perthynas ag amrywiaeth, dylai'r BBC wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• gwasanaethu pob cynulleidfa ledled y Deyrnas Unedig a chreu cynnwys sy'n berthnasol iddynt ac o ddiddordeb iddynt;• adlewyrchu amrywiaeth gwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig yn briodol yn ei allbwn, ei wasanaethau a'i genres. Dylai hyn gynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd a chred, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol a chefnidir economaidd-gymdeithasol;• cynrychioli a phortreadu'r cymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig yn gywir ac yn ddilys; a

³Ystyr 'cynrychiolaeth' yw'r raddfa y mae pobl a nodweddion yn ymddangos ac ystyr 'portread' yw'r ffyrdd y caiff y bobl a'r cymeriadau hyn eu darlunio. Er mwyn i gynrychiolaeth fod yn gywir rydyn ni'n disgwyl i nifer y bobl sy'n ymddangos ar raglenni'r BBC fod yn adlewyrchiad cyffredinol o boblogaeth y DU. Byddwn yn asesu i ba raddau y mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu portreadu mewn ffordd go iawn drwy ymchwil ymysg defnyddwyr.

	<ul style="list-style-type: none"> • helpu i gyfrannu at les cymdeithasol drwy addysg ddiwylliannol, ymwybyddiaeth a dod â phobl at ei gilydd i rannu profiadau.
--	---

Rhif amod trwydded	Amodau rheoleiddiol
2.39 (2.39.1 – 2.39.3)	<p>Y Deyrnas Unedig (y tu allan i ardal yr M25)</p> <p>Yn ystod bob Blwyddyn Galendr, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod o leiaf 50% o oriau y Rhaglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig y tu allan i ardal yr M25; • bod y Rhaglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig y tu allan i ardal yr M25 (gyda'i gilydd) yn cynrychioli ystod briodol o raglenni; a • bod o leiaf 50% o Werthiant y BBC ar Raglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cyfeirio at raglenni a gynhyrchir mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu y tu allan i ardal yr M25.
2.42 (2.42.1 – 2.42.2)	<p>Cymru</p> <p>Yn ystod bob Blwyddyn Galendr, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod o leiaf 5% o oriau'r Rhaglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cael eu gwneud yng Nghymru; a • bod o leiaf 5% o Wariant y BBC ar Raglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cyfeirio at raglenni a gynhyrchir mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu yng Nghymru.
2.44	<p>Canolfannau cynhyrchu</p> <p>Mae'r gwahanol ganolfannau cynhyrchu y mae'r Gwariant y cyfeirir ato yn amodau 2.39.3, 2.40.2, 2.41.2, 2.42.2 and 2.43.2 yn cyfeirio atynt, yn gorfod cynrychioli ystod eang o ganolfannau cynhyrchu o'r fath.</p>
2.45	<p>Arweiniad</p> <p>Wrth gydymffurfio ag amodau 2.39 i 2.44, rhaid i'r BBC ystyried unrhyw arweiniad y mae modd i Ofcom ei gyhoeddi.</p>
2.46	<p>Mewn perthynas â Gwasanaethau Radio Cyhoeddus y DU, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf traean o'r Gwariant perthnasol yn cael ei wario y tu allan i ardal yr M25 bob Blwyddyn. Mae'r "Gwariant Perthnasol" yn cynnwys Gwariant ar raglenni gwreiddiol a ddarlledir am y tro cyntaf, ond nid yw'n cynnwys Gwariant ar allbwn newyddion neu chwaraeon. At ddiben y gofyniad hwn, mae "rhaglenni gwreiddiol a ddarlledir am y tro cyntaf" yn golygu rhaglenni a gomisiynir gan neu ar gyfer Gwasanaeth Radio Cyhoeddus yn y DU ac nad ydynt wedi cael eu darlledu ar wasanaeth radio yn y Deyrnas Unedig o'r blaen.</p>

<p>2.47 (2.47.1 – 2.47.5)</p>	<p>Er mwyn diwallu'r gofyniad yn amod 2.46, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod rhywfaint o'r gwariant perthnasol yn cael ei wario mewn perthynas â phob un o'r gwasanaethau radio canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Radio 1; • Radio 2; • Radio 3; • Radio 4; • BBC Radio 5 live.
<p>2.48</p>	<p>Mewn perthynas â Radio 3, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf traean o'r Gwariant perthnasol yn cael ei wario y tu allan i ardal yr M25 bob Blwyddyn. At ddiben y gofyniad hwn, mae'r "Gwariant perthnasol" yn cynnwys Gwariant ar raglenni gwreiddiol a ddarllidir am y tro cyntaf a'r ffordd y dyrannwyd cymorthdaliadau'r cerddorfeydd canolog gan BBC3, ond nid yw'n cynnwys Gwariant ar allbwn newyddion a chwaraeon.</p>
<p>2.49 (2.49.1 – 2.49.5)</p>	<p>Mewn perthynas â BBC One a BBC Two gyda'i gilydd, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau'r canlynol ym mhob Blwyddyn Galendr:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod o leiaf 6,300 o oriau yn cael eu neilltuo i raglenni sydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol; • bod y rhaglenni hynny'n cynnwys ystod briodol o raglenni (gan gynnwys rhaglenni newyddion rhanbarthol); • bod o leiaf 95% o'r rhaglenni hynny yn cynnwys rhaglenni sydd wedi'u gwneud mewn gwlad neu ranbarth sy'n gysylltiedig â'r rhaglenni a fydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol; • bod o leiaf 700 o oriau o'r rhaglenni hynny yn cynnwys darlledu rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion yn ystod y Cyfnod Gwyllo Brig; a • bod o leiaf 335 o oriau o'r rhaglenni hynny yn cynnwys rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion sy'n cael eu darlledu yn syth o flaen y Cyfnod Gwyllo Brig, neu'n syth ar ei ôl.
<p>2.50</p>	<p>Yn ystod bob Blwyddyn Galendr, rhaid i'r BBC sicrhau bod yr amser sydd wedi'i neilltuo ar gyfer rhaglenni sydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol yn unol ag amod 2.49, yn cynnwys darlledu o leiaf 4,300 o oriau o newyddion sydd o ddiddordeb rhanbarthol ar gyfnodau drwy gydol y diwrnod ar BBC One, a bod rhaid i o leiaf 2,200 o'r rheini fod yn ystod y Cyfnod Gwyllo Brig.</p>
<p>2.51</p>	<p>Wrth gydymffurfio ag amodau 2.49 a 2.50, rhaid i'r BBC ystyried unrhyw arweiniad y mae modd i Ofcom ei gyhoeddi.</p>
<p>2.52</p>	<p>Mewn perthynas â BBC Parliament, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 300 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni ynghylch gweithdrefnau Senedd yr Alban, Cynulliad Gogledd Iwerddon a Chynulliad Cymru bob Blwyddyn.</p>
<p>2.53 (2.53.1 –</p>	<p>Mewn perthynas â phob Gwasanaeth Radio Cyhoeddus y DU a bennir yn amod 2.54, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod cyfran y cynnwys sy'n gynnwys sgwrsio ar y gwasanaeth hwnnw yn diwallu'r amodau canlynol bob Blwyddyn:</p>

2.53.2)	<ul style="list-style-type: none"> • O leiaf 60% ar gyfartaledd yn ystod Oriau Craidd; a • 100% yn ystod yr Oriau Brig Amser Brecwast.
2.54 (2.54.1 – 2.54.6)	<p>Nodir y Gwasanaethau Radio Cyhoeddus canlynol o'r DU at ddiben amod 2.53:</p> <ul style="list-style-type: none"> • pob gwasanaeth BBC Local Radio; • BBC Radio Scotland; • BBC Radio nan Gàidheal; • BBC Radio Wales; • BBC Radio Cymru; • BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle.
2.55	Yn amod 2.53, ystyr "Oriau Craidd" yw 06:00 i 19:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac ystyr "Oriau Brig Amser Brecwast" yw 07:00 i 08:30 o ddydd Llun i ddydd Gwener.
2.66 (2.66.1 – 2.66.2)	<p>Mewn perthynas â BBC One Wales, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bob Blwyddyn Galendr:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod o leiaf 275 o oriau bob Blwyddyn yn cael eu neilltuo i raglenni newyddion a materion cyfoes; a • bod o leiaf 65 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion. At ddiben y gofyniad hwn, nid yw "rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion" yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailadrodd a'u caffael, ac nid yw'n cynnwys rhaglenni newyddion neu raglenni materion cyfoes.
2.67	Mewn perthynas â BBC One Wales a BBC Two Wales gyda'i gilydd, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn darparu ystod o genres yn ei raglenni sy'n adlewyrchu diwylliant Cymru.
2.68 (2.68.1 – 2.68.3)	<p>Mewn perthynas â BBC Two Wales, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 175 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion bob Blwyddyn. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion":</p> <ul style="list-style-type: none"> • yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu a'u caffael; • nid yw'n cynnwys newyddion; • nid yw'n cynnwys materion cyfoes.
2.69 (2.69.1 – 2.69.2)	<p>Mewn perthynas â BBC Radio Wales, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod o leiaf 32 o oriau bob wythnos yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (gan gynnwys rhai sy'n cael eu hailddarlledu a'u caffael); a • bod cynnwys a cherddoriaeth sy'n berthnasol i Gymru yn benodol yn cael eu darparu.
2.70 (2.70.1 –	<p>Mewn perthynas â BBC Radio Cymru, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod o leiaf 23 o oriau bob wythnos yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni

2.70.2)	<p>newyddion a materion cyfoes (gan gynnwys rhai sy'n cael eu hailddarlledu); a</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod cynnwys a cherddoriaeth sy'n berthnasol i Gymru yn benodol yn cael eu darparu.
2.71 (2.71.1 – 2.71.2)	<p>Mewn perthynas â BBC Ar-lein, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod cynnwys yn cael ei ddarparu yn y Gymraeg; a • bod darpariaeth chwaraeon penodol i Gymru yn cael ei ddarparu.
2.78 (2.78.1 – 2.78.5)	<p>Mae'n rhaid i'r BBC roi adroddiad blynyddol ar sut mae Gwasanaethau Cyhoeddus y DU yn gyffredinol wedi adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig yn ystod y Flwyddyn flaenorol. Yn benodol, mae'n rhaid i'r BBC ddangos sut mae wedi gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ei fod wedi ystyried yr ystod o gymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig. Dylai hyn gynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd a chred, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol a chefnidir economaidd-gymdeithasol; • ei fod wedi gwasanaethu a darparu cynnwys ar gyfer yr ystod o gymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig; • ei fod wedi cynrychioli cymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig yn gywir; • ei fod wedi a rhoi portread go iawn o'r cymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig; a'i • fod wedi codi ymwybyddiaeth am wahanol ddiwylliannau a safbwyntiau'r cymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig.
2.79 (2.79.1 – 2.79.3)	<p>Mae'n rhaid i'r BBC fesur boddhad cynulleidfaoedd yn ystod y Flwyddyn flaenorol o ran adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol ym mhob cwr o'r DU ledled Gwasanaethau Cyhoeddus y DU, ac adrodd ar hynny bob blwyddyn gan roi sylw penodol i gynnwys sy'n cael ei ddarlledu am y tro cyntaf ym mhob genre. Rhaid i hyn gynnwys boddhad cynulleidfaoedd yn y meysydd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sut mae'r BBC yn cynrychioli, yn portreadu ac yn gwasanaethu cynulleidfaoedd amrywiol; • sut mae'r BBC yn adlewyrchu poblogaeth gyfan y Deyrnas Unedig ar sgrin ac ar yr awyr, gan roi sylw penodol i gynnwys sy'n cael ei ddarlledu am y tro cyntaf ym mhob genre; a • sut mae'r BBC yn codi ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau a safbwyntiau.
2.80 (2.80.1 – 2.80.2)	<p>Os bydd mesuriad y BBC o foddhad cynulleidfaoedd yn unol ag amod 2.79 yn awgrymu bod carfan benodol o'r gynulleidfa yn anfodlon â pherfformiad y BBC yn y meysydd hyn, mae'n rhaid i'r BBC:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yn unol ag amod 2.79, nodi yn ei adroddiad ar gyfer y Flwyddyn honno'r camau y bydd rhaid eu cymryd i geisio gwella boddhad cynulleidfaoedd ymysg y carfannau penodol hynny o'r gynulleidfa; ac, • yn unol ag amod 2.79, nodi yn ei adroddiad ar gyfer y Flwyddyn ganlynol y camau a gymerwyd a'u heffaith ar foddhad cynulleidfaoedd mewn perthynas â'r carfannau penodol hynny o'r gynulleidfa.

2.81	Mae'n rhaid i'r BBC bennu cod ymarfer wedi'i gymeradwyo gan Ofcom sy'n nodi'r camau y bydd y BBC yn eu cymryd pan fydd yn comisiynu cynnwys ledled pob genre er mwyn sicrhau bod cynnwys yn cynrychioli'n gywir a rhoi portread go iawn o'r cymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig, a chydymffurfio â'r cod hwnnw.
------	--

Atodiad 1:

Drafft o'r drwydded weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU

Mae'r atodiad hwn yn rhoi drafft o'r drwydded weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU. Rydym yn ymgynghori ar ein cynigion ar gyfer y drwydded, ac ar sut rydym yn mesur perfformiad y BBC. Mae'r ddogfen ymgynghori, "Dal y BBC i gyfrif am gyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus", wedi'i chyhoeddi ar ein gwefan⁴ ac mae'n cynnwys manylion ynghylch sut mae ymateb i'r ymgynghoriad. Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw Dydd Llun, 17 Gorffennaf 2017.

⁴<https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/bbc-performance>

Gair am y ddogfen hon

[NODER: drafft o drwydded gweithredu'r BBC ar gyfer ymgynghoriad yw'r ddogfen hon.]

Dyma ddrafft o'r drwydded weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU. Mae'n nodi'r amodau rheoleiddiol y mae Ofcom yn eu hystyried yn briodol er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC gyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus; sef sicrhau darpariaeth sy'n cynnwys allbwn a gwasanaethau unigryw; a sicrhau bod holl gynulleidfaoedd y BBC yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael gwasanaeth da.

Mae'n rhaid i'r BBC gydymffurfio â'r amodau rheoleiddiol yn y drwydded hon. Gall Ofcom gymryd camau gorfodi mewn achos o ddiffyg cydymffurfio.

Mae dogfen ar wahân ar gael ar gyfer cynulleidfaoedd ym mhob gwlad yn y Deyrnas Unedig, sy'n nodi'r amodau rheoleiddiol perthnasol i Wasanaethau'r BBC yn y wlad honno'n benodol.

Cynnwys

Adran

1 Y Drwydded

Tudalen

1

Amserlenni

1 Amodau rheoleiddiol
2 Diffiniadau a dehongliadau
3 Crynodeb o'r amodau rheoleiddiol
4 Gwasanaethau Cyhoeddus y DU

Tudalen

9
244
277
355

Adran 1

Y Drwydded

- 1.1 Dyma ddrafft o'r drwydded weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU (y "Drwydded"). Mae Ofcom wedi cyflawni swyddogaethau'r Drwydded o dan y Siarter Frenhinol ar gyfer parhad y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (y "Siarter") a'r Cytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a'r BBC (y "Cytundeb"), yn unol ag adran 198 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003¹.
- 1.2 Yn benodol, mae swyddogaethau Ofcom yn cynnwys² pennu trwydded weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y DU sy'n cynnwys amodau rheoleiddiol y mae Ofcom yn eu hystyried yn briodol er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC wneud y canlynol:
- 1.2.1 cyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus;
- 1.2.2 sicrhau y darperir allbwn a gwasanaethau unigryw; a
- 1.2.3 sicrhau bod cynulleidfaoedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael gwasanaeth da.
- 1.3 Ar ben hynny, mae Ofcom wedi pennu'r Drwydded yn unol â'r gofyniad³ er mwyn gorfodi amodau penodol⁴ sy'n ymwneud â'r canlynol:
- bod yn unigryw (lle mae'n ofynnol arnom, yn benodol, yn y drwydded weithredu gyntaf i geisio gwella'r gofynion presennol a nodir gan Ymddiriedolaeth y BBC er mwyn sicrhau bod allbwn a gwasanaethau unigryw yn cael eu darparu);
 - newyddion a materion cyfoes (niferoedd ac amserlennu);
 - cwotâu ar gyfer Cynyrchiadau Gwreiddiol; a
 - chwotâu ar gyfer rhaglennu a chreu rhaglenni mewn gwledydd a rhanbarthau.
- 1.4 Yn y Drwydded, mae Ofcom wedi gorfodi amodau rheoleiddiol pellach y mae'n eu hystyried yn briodol er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC gyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus⁵.
- 1.5 Hefyd, mae Ofcom wedi gorfodi amodau rheoleiddiol pellach y Drwydded y mae'n eu hystyried yn briodol er mwyn ei gwneud yn ofynnol bod cynulleidfaoedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael gwasanaeth da⁶.

¹ Mae Adran 198 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn darparu ar gyfer swyddogaethau Ofcom mewn perthynas â'r BBC.

² Erthygl 46(3) o'r Siarter.

³ Cymal 13(2) y Cytundeb.

⁴ Amodau rheoleiddiol y drwydded weithredu a nodir yn Atodlen 2 o'r Cytundeb.

⁵ Cymal 13(3) y Cytundeb.

⁶ Cymal 13(4) y Cytundeb.

- 1.6 Mae'r Drwydded yn berthnasol i bob un o Wasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU fel y nodir yn y Cytundeb⁷ ac mae'n berthnasol i bob un o wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig. Mae Ofcom wedi cynhyrchu dogfen ar wahân ar gyfer pob gwlad yn y Deyrnas Unedig, sy'n nodi'r gofyniad rheoleiddiol penodol i'r wlad berthnasol, i'w darllen ynghyd â'r Drwydded hon.
- 1.7 Nid yw'r drwydded yn nodi cyllidebau na strategaethau ar gyfer gwasanaethau a rhaglenni'r BBC. Nid yw'r meysydd hyn yn rhan o swyddogaethau Ofcom mewn perthynas â'r BBC. Yn unol â darpariaethau'r Siarter a'r Cytundeb, mae Bwrdd y BBC yn gyfrifol am sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus, yn ogystal â phennu'r cyfeiriad strategol a'r cylch gwaith creadigol er mwyn gwneud hynny⁸. Mae'n rhaid i'r BBC gyhoeddi cynllun blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, cyn y cyfnod y mae'n berthnasol iddo, ac mae'n rhaid iddo gynnwys (ymysg pethau eraill) y cylch gwaith creadigol ar gyfer y flwyddyn honno, y cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn honno, a'r ddarpariaeth ar gyfer gwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig⁹.
- 1.8 Mae Ofcom wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus cyn pennu'r Drwydded hon¹⁰, a bydd Ofcom yn pennu'r Drwydded yn unol â darpariaethau perthnasol y Fframwaith Gweithredu¹¹.
- 1.9 Efallai y bydd Ofcom yn diwygio'r Drwydded hon ac mae'n ystyried y bydd yn debygol y bydd yn gwneud hynny'n rheolaidd dros gyfnod y Siarter. At ddibenion egluro yn unig, efallai y bydd Ofcom yn ei hystyried yn briodol diwygio'r Drwydded ar ôl pwysu a mesur tystiolaeth am berfformiad y BBC mewn meysydd penodol, neu ar ôl ystyried newidiadau mewn arferion gwyllo a gwranddo cynulleidfaoedd, neu newidiadau mewn technoleg: er enghraifft, rhagor o ddefnydd ledled llwyfannau gwahanol. Cyn diwygio'r Drwydded, bydd Ofcom yn ymgynghori â'r BBC. Bydd Ofcom hefyd yn ymgynghori ag unrhyw un arall y mae'n ei ystyried yn briodol mewn perthynas â natur a defnyddioldeb y diwygiad arfaethedig, yn unol â darpariaethau perthnasol y Fframwaith Gweithredu.
- 1.10 Mae'n rhaid i'r BBC gydymffurfio ag Amodau Rheoleiddiol y Drwydded mewn perthynas â darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU¹². Mae'n rhaid i Ofcom fynnu bod y BBC yn cydymffurfio ag Amodau Rheoleiddiol y Drwydded¹³ ac, yn benodol, efallai y bydd Ofcom yn ystyried cwynion mae'n eu derbyn gan unigolion ac yn cynnal archwiliadau y mae'n eu hystyried yn briodol¹⁴. Hefyd, mae'n rhaid i Ofcom sicrhau bod y BBC yn cydymffurfio â gofynion rheoleiddio sy'n berthnasol i'r BBC yn uniongyrchol drwy'r Siarter neu'r Cytundeb, neu drwy ddeddfwriaeth, fel cwtâu ar gyfer cynrychiadau annibynnol¹⁵, a gofynion mewn perthynas â darpariaeth ar gyfer pobl â nam ar y golwg neu'r clyw¹⁶.

⁷ Mae rhestr o Wasanaethau Cyhoeddus y DU wedi'u nodi yn Atodlen 4 y Drwydded hon.

⁸ Erthygl 20(3)(a) a (b) o'r Siarter.

⁹ Erthygl 36 o'r Siarter.

¹⁰ Mae Cymal 13(5) o'r Cytundeb yn nodi bod rhaid i Ofcom, cyn pennu trwydded weithredu, ymgynghori â'r BBC ac unrhyw un y mae Ofcom yn ei ystyried yn briodol.

¹¹ Mae Erthygl 46(3) o'r Siarter yn nodi bod rhaid i Ofcom bennu trwydded weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y DU yn unol â'r Fframwaith Gweithredu.

¹² Cymal 7(2) y Cytundeb.

¹³ Mae'r amodau rheoleiddio yn "ofynion penodol" o dan gymal 59(b) o'r Cytundeb.

¹⁴ Erthygl 49(1) o'r Siarter.

¹⁵ Paragraff 6 o Atodlen 3 yn y Cytundeb, ac Atodlen 12 i Ddeddf Darlledu 2003.

¹⁶ Paragraff 9 o Atodlen 3 i'r Cytundeb.

- 1.11 Os yw Ofcom yn fodlon bod y BBC wedi methu cydymffurfio ag un o amodau rheoleiddiol y Drwydded, a'i fod wedi rhoi cyfle rhesymol i'r BBC roi sylwadau ar y mater, efallai y bydd Ofcom yn:
- 1.11.1 rhoi cyfarwyddyd i'r BBC gymryd camau y mae Ofcom yn ystyried y byddant yn unioni'r methiant i gydymffurfio (neu dderbyn ymrwymadau i wneud hynny gan y BBC), a sicrhau bod y BBC yn cydymffurfio â'u gofynion yn briodol yn y dyfodol;
 - 1.11.2 cyflwyno hysbysiad i'r BBC yn datgan y bydd yn rhaid talu cosb ariannol benodedig o hyd at £250,000 i Ofcom o fewn cyfnod penodol¹⁷.
- 1.12 Mae Ofcom wedi egluro sut bydd yn defnyddio ei bwerau gorfodi yn y Fframwaith Gweithredu¹⁸.
- 1.13 Mae'n ofynnol bod y BBC yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, ac mae'n rhaid iddo gynnwys (ymysg pethau eraill) sut mae'r BBC wedi cyflawni ei gylch gwaith creadigol a'i gynllun gwaith; darpariaeth y BBC ar gyfer gwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys sut cyflawnodd y BBC ei gylch gwaith creadigol yn y gwledydd a'r rhanbarthau; sut sicrhawyd bod allbwn a gwasanaethau'r BBC ar gael i'r cyhoedd; a'r gwariant ar Wasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU fesul genre¹⁹.
- 1.14 Ar ôl derbyn adroddiad blynyddol y BBC, mae'n rhaid i Ofcom hefyd gyhoeddi adroddiad blynyddol, sy'n nodi sut mae Ofcom wedi cyflawni ei brif swyddogaethau yn unol â'r Siarter ledled y Deyrnas Unedig. Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys (ymysg pethau eraill) asesiad Ofcom o gydymffurfiaid y BBC ag Amodau Rheoleiddiol y Drwydded²⁰. Mae gan Ofcom y pŵer i fynnu bod y BBC yn darparu gwybodaeth at ddibenion Ofcom er mwyn cyflawni ei swyddogaethau²¹.

Cenhadaeth y BBC

- 1.15 Cenhadaeth y BBC²² yw gweithredu er lles y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu cynnyrch a gwasanaethau diduedd ac unigryw o safon uchel sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu.

Dibenion Cyhoeddus y BBC

- 1.16 Dyma Ddibenion Cyhoeddus y BBC²³:
- 1.16.1 **Darparu newyddion a gwybodaeth ddiuedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas:** dylai'r BBC ddarparu rhaglenni newyddion, materion cyfoes a ffeithiol sy'n ddigon cywir a diduedd er mwyn gwella dealltwriaeth pobl o bob rhan o'r Deyrnas Unedig a'r byd ehangach. Dylai'r cynnwys arddel y safonau golygyddol uchaf. Dylai gynnig cynnwys a dadansoddiad manwl ac amrywiol, nad ydynt ar gael yn helaeth gan

¹⁷ Erthygl 49(2) i (5) o'r Siarter ac adran 198(5) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Mae Ofcom yn pasio unrhyw gosbau ariannol sy'n cael eu talu ymlaen at Drysorlys EM.

¹⁸ <https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/enforcement-bbc-agreement-compliance>

¹⁹ Erthygl 37 o'r Siarter.

²⁰ Erthygl 50 o'r Siarter.

²¹ Erthygl 47 o'r Siarter.

²² Erthygl 5 o'r Siarter.

²³ Erthygl 6 o'r Siarter.

ddarparwyr newyddion eraill y Deyrnas Unedig, drwy ddefnyddio newyddiadurwyr a chyflwynwyr o'r radd flaenaf, a hybu rhyddid mynegiant, er mwyn i'r holl gynulleidfaoedd allu ymgysylltu'n llawn â materion pwysig yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol yn y Deyrnas Unedig a ledled y byd, yn ogystal â chyfrannu at y broses ddemocrataidd, ar bob lefel, fel dinasyddion gwybodus.

1.16.2 **Cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed:** dylai'r BBC helpu pawb i ddysgu am wahanol bynciau mewn ffordd hygyrch a difyr sy'n eu hysbrydoli a'u herio. Dylai'r BBC ddarparu cynnwys addysgol arbenigol er mwyn helpu i gefnogi dysgu plant a phobl ifanc ledled y Deyrnas Unedig. Dylai annog mwy o bobl i archwilio pynciau newydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau newydd drwy feithrin partneriaethau gyda sefydliadau ym meysydd addysg, chwaraeon a diwylliant.

1.16.3 **Dangos cynnyrch a gwasanaethau creadigol ac unigryw o'r ansawdd gorau:** dylai'r BBC ddarparu allbwn o safon uchel mewn nifer o wahanol genres ar draws amrywiaeth o wasanaethau a llwyfannau, sy'n gosod y safonau yn y DU ac yn rhyngwladol. Dylai ei wasanaethau fod yn wahanol i'r rheini a ddarperir mewn manau eraill, a dylai gymryd risgiau creadigol, hyd yn oed os nad yw pob un yn llwyddiannus, er mwyn datblygu dulliau newydd a chynnwys arloesol.

1.16.4 **Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig, a chefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig drwy wneud hynny:** dylai'r BBC adlewyrchu amrywiaeth y Deyrnas Unedig yn ei allbwn a'i wasanaethau. Drwy wneud hynny, dylai'r BBC gynrychioli a phortreadu yn gywir ac yn ddidwyll fywydau pobl y Deyrnas Unedig heddiw, a chodi ymwybyddiaeth o'r diwylliannau gwahanol a'r safbwyntiau amgen sy'n creu ei chymdeithas. Dylai sicrhau ei fod yn darparu cynnyrch a gwasanaethau sy'n diwallu anghenion gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r Deyrnas Unedig. Dylai'r BBC ddod â phobl at ei gilydd i rannu profiadau a helpu i gyfrannu at les a chydlyniant cymunedol y Deyrnas Unedig. Dylai'r BBC, drwy ei waith comisiynu a darparu allbwn, fuddsoddi yn economïau creadigol pob un o'r gwledydd a chyfrannu at eu datblygiad.

1.16.5 **Adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd:** dylai'r BBC sicrhau darpariaeth newyddion o safon uchel i gynulleidfaoedd rhyngwladol, sy'n seiliedig ar werthoedd Prydeinig o ran cywirdeb, didueddrwydd a thegwch. Dylai ei wasanaethau rhyngwladol roi'r Deyrnas Unedig yng nghyd-destun y byd, gan wella dealltwriaeth pobl o'r Deyrnas Unedig yn gyffredinol, gan gynnwys y gwledydd a'r rhanbarthau lle bo hynny'n briodol. Dylai sicrhau ei fod yn cynhyrchu allbwn a gwasanaethau y bydd pobl yn eu mwynhau yn y Deyrnas Unedig a ledled y byd²⁴.

1.17 Mae'r Drwydded hon yn amlinellu Amodau Rheoleiddiol er mwyn sicrhau bod y BBC yn parhau i ddarparu cymysgedd o genres allweddol ac allbwn o safon uchel ar y teledu, ar y radio ac ar-lein, yn ogystal â sicrhau bod cyfran sylweddol o'r rhaglenni gwreiddiol yn cael eu cynhyrchu ar gyfer cynulleidfaoedd y Deyrnas Unedig.

²⁴ Bydd y BBC yn cyflawni ei bumed diben cyhoeddus, sef adlewyrchu'r DU i'r byd, drwy BBC World Service yn bennaf. Ni fydd y drwydded weithredu newydd yn cynnwys BBC World Service; cyfrifoldeb y BBC yw pennu trwydded ar gyfer BBC World Service (cymal 34 o'r Cytundeb).

- 1.18 Mae'r gofynion rydym wedi'u pennu ar gyfer y BBC wedi'u llunio er mwyn sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus, yn ogystal â darparu allbwn a gwasanaethau unigryw. Cadwyd yr Amodau Rheoleiddiol a bennwyd gan yr Ymddiriedolaeth sy'n cyflawni hyn, a chawsant eu cryfhau lle bo hynny'n briodol. Ni chadwyd targedau eraill yr Ymddiriedolaeth. Lle y bo'n briodol, mae amodau newydd wedi cael eu pennu er mwyn sicrhau bod y nodau hyn yn cael eu cyflawni.
- 1.19 Efallai y bydd angen newid y gofynion hyn dros amser, yn ddibynol ar y ddarpariaeth barhaus ac ymrwymiad y BBC yn y meysydd hyn, neu i adlewyrchu unrhyw gyfyngiadau ariannol ar y BBC. Hefyd, efallai y bydd yr amodau hyn yn cael eu diwygio os bydd Ofcom o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny, er enghraifft, yn unol â pherfformiad y BBC.
- 1.20 Mae gweddill y Drwydded hon (gan gynnwys yr Amodau Rheoleiddiol) wedi'i drefnu yn ôl Diben Cyhoeddus. Pennir yr Amodau Rheoleiddiol yn Atodlen 1 i'r Drwydded.
- 1.21 Mae'r Amodau Rheoleiddiol naill ai'n ymwneud â gwasanaethau unigol neu, lle y bo'n briodol, yn pennu ymrwymadau rhwng gwasanaethau. Mae'n bwysig nodi y gallai nifer o Amodau Rheoleiddiol fod yn berthnasol i fwy nag un Diben Cyhoeddus. Er enghraifft, mae nifer o'r Amodau Rheoleiddiol ledled y drwydded yn cyfrannu at sicrhau bod allbwn a gwasanaethau unigryw yn cael eu darparu. Mae crynodeb o'r Amodau Rheoleiddiol penodol wedi'u trefnu yn ôl gwasanaeth ar gael yn Atodlen 3 (at bwrpas cyfeirio yn unig).

Diben (1): Darparu newyddion a gwybodaeth ddiuedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas

- 1.22 Er mwyn cyflawni ei Ddiben Cyhoeddus o ddarparu newyddion a gwybodaeth ddiuedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas, yn unol â'i rwymedigaethau o dan y Siarter, mae Ofcom yn credu y dylai'r BBC wneud y canlynol:
- 1.22.1 darparu lefel sylweddol o raglenni newyddion, materion cyfoes a ffeithiol ledled ei ystod lawn o wasanaethau a llwyfannau, yn ogystal ag ymdrechu i gyrraedd ac i wasanaethu pob cynulleidfa gyda'r allbwn hwn;
 - 1.22.2 ceisio cynnal ei ddarpariaeth o themâu rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol yn ei raglenni ffeithiol, newyddion a materion cyfoes, er mwyn galluogi cynulleidfaoedd i ddatblygu dealltwriaeth helaeth o'r hyn sy'n digwydd yn lleol, yn genedlaethol ac yn y byd ehangach;
 - 1.22.3 parhau i ddarparu allbwn ffeithiol, newyddion, materion cyfoes a gwybodaeth ddibynadwy y mae modd ymddiried ynddo, a hynny yn unol â'r safonau golygyddol uchaf;
 - 1.22.4 sicrhau ei fod yn darparu digon o ddolenni i ddeunydd trydydd parti ar-lein, yn enwedig yng nghyswllt ei straeon newyddion, er mwyn darparu cyfoeth o wybodaeth i'w ddefnyddwyr a chefnogi darparwyr eraill yn y diwydiant ar yr un pryd. Wrth wneud hynny, dylai'r BBC ystyried y dolenni mae'n eu cynnig yn ofalus.
- 1.23 Yn unol â hynny, mae Ofcom wedi mynnu bod y BBC yn cydymffurfio â'r Amodau Rheoleiddiol, fel y nodir yn Atodlen 1, a bydd Ofcom yn sicrhau hynny.

Diben (2): Cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed

- 1.24 Er mwyn cyflawni ei Ddiben Cyhoeddus o gefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed, yn unol â'i rwymedigaethau o dan y Siarter, mae Ofcom yn credu y dylai'r BBC wneud y canlynol:
- 1.24.1 parhau i ddarparu amrywiaeth helaeth o gynnwys ledled ei wasanaethau, a fydd yn rhoi cyfleoedd i'r holl gynulleidfaedd ddysgu. Rydym yn disgwyl i'r BBC gynhyrchu cynnwys dysgu anffurfiol, gan gynnwys rhaglenni sy'n mynd i'r afael â phynciau fel celf, cerddoriaeth, gwyddoniaeth, natur, busnes a hanes. Dylai'r cynnwys hwn fod ar gael yn helaeth, a dylai'r BBC ymdrechu i gyrraedd a gwasanaethu'r cynulleidfaedd mwyaf eang posib â'r cynnwys hwn drwy ei brif sianeli teledu, ei brif orsafoedd radio a'i brif wefannau;
 - 1.24.2 fel rhan o'i ddyletswydd i annog pobl i ddysgu am bynciau newydd a gwahanol, rydyn ni'n disgwyl i'r BBC helpu oedolion a phlant i ddatblygu sgiliau er mwyn archwilio a defnyddio'r adnoddau mae'n ei gynnig ledled ei wasanaethau, a'i wasanaethau ar-lein yn enwedig;
 - 1.24.3 sicrhau ei fod yn gwasanaethu plant o bob oed, gan gynnwys plant hŷn a phobl ifanc yn eu harddegau, a'i fod yn cynhyrchu cynnwys difyr ac ysgogol ar gyfer dysgu anffurfiol sydd ar gael ar ffurfiau a gwasanaethau y mae plant yn eu defnyddio; a
 - 1.24.4 chwarae rôl bwysig o ran addysg a dysgu yn y Deyrnas Unedig drwy feithrin partneriaethau â sefydliadau ym meysydd addysg, diwylliant a chwaraeon. Dylai'r BBC rannu ei arbenigedd a'i adnoddau, gan gynnwys ei archif, lle bo hynny'n briodol, fel rhan o'r partneriaethau hyn â sefydliadau arbenigol, er budd cynulleidfaedd y DU.
- 1.25 Yn unol â hynny, mae Ofcom wedi mynnu bod y BBC yn cydymffurfio â'r Amodau Rheoleiddiol, fel y nodir yn Atodlen 1, a bydd Ofcom yn sicrhau hynny.

Diben (3): Dangos cynnyrch a gwasanaethau creadigol ac unigryw o'r ansawdd gorau

- 1.26 Mae'r Siarter a'r Cytundeb yn diffinio "gwasanaethau ac allbwn unigryw", gan gyfeirio at greadigrwydd a safon uchel. Mae Erthygl 63 o'r Siarter, a pharagraff 1 o Atodlen 2 i'r Cytundeb, yn diffinio gwasanaethau ac allbwn unigryw fel a ganlyn:

"allbwn a gwasanaethau, a ystyrir gyda'i gilydd, sy'n wahanol iawn i ddarparwyr eraill tebyg ledled pob Gwasanaeth Cyhoeddus yn y DU, yn ystod oriau brig ac yn gyffredinol; ac ar y teledu, ar y radio ac ar-lein, o ran-

(a) y gymysgedd o wahanol allbwn a gwasanaethau;

(b) ansawdd yr allbwn;

(c) swm y cynnyrch gwreiddiol a gynhyrchir yn y DU;

(d) lefel yr arloesi, yr her, yr uchelgais creadigol a chymryd risg; a'r

(e) cynulleidfaedd amrywiol mae'n eu gwasanaethu."

- 1.27 Mae Ofcom o'r farn bod ei ddiffiniad o wasanaethau ac allbwn unigryw, ar lefel uchel, yn mynd i'r afael â'r meysydd pwysicaf y dylai'r BBC eu hystyried wrth fodloni ei Ddiben Cyhoeddus yng nghyswllt dangos allbwn a gwasanaethau creadigol ac unigryw o'r ansawdd gorau. Mae Ofcom yn ystyried hynny mewn perthynas â darparu allbwn a gwasanaethau unigryw.
- 1.27.1 mewn perthynas â'r gymysgedd o genres gwahanol, dylai'r BBC sicrhau bod amrywiaeth o raglenni yn cael eu darparu ledled ei wasanaethau teledu. Dylai hefyd sicrhau helaethrwydd ac amlygrwydd y genres hynny sydd mewn perygl neu'n dirywio ledled darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Ar ei wasanaethau radio, dylai'r BBC sicrhau bod ei bortffolio o orsafoedd yn cynnig yr amrywiaeth ehangaf bosib o allbwn cerddorol, a bod yr amrywiaeth o allbwn cerddorol ar ei wasanaethau radio poblogaidd yn fwy eang na darparwyr tebyg;
- 1.27.2 mewn perthynas ag ansawdd yr allbwn, dylai'r BBC sicrhau ansawdd uchel ledled ei allbwn, gan ystyried y cynnwys, ansawdd cynhyrchu'r cynnwys, yn ogystal â sgil broffesiynol a gonestrwydd golygyddol y cynhyrchiad hwnnw;
- 1.27.3 mewn perthynas â swm yr allbwn gwreiddiol a gynhyrchir yn y Deyrnas Unedig, dylai'r BBC sicrhau bod cyfran helaeth o'r rhaglenni sy'n cael eu darlledu ar ei wasanaethau teledu yn Gynyrchiadau Gwreiddiol, yn enwedig yn ystod Cyfnodau Gwyllo Brig. Dylai'r BBC hefyd sicrhau bod nifer priodol o raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn cael eu dangos ledled ei wasanaethau teledu, gan sicrhau eu bod yn llenwi cyfran helaeth o'r Cyfnod Gwyllo Brig. Dylai'r BBC gyfrannu at economïau creadigol y Deyrnas Unedig drwy fuddsoddi'n gyson mewn cynnwys gwreiddiol;
- 1.27.4 mewn perthynas â lefel yr arloesi, yr her, yr uchelgais creadigol a chymryd risg, dylai'r BBC barhau i gymryd risgiau yng nghyswllt yr allbwn mae'n ei gomisiynu, yr amrywiaeth o sefydliadau mae'n comisiynu ganddynt a cheisio lleihau nifer y cyfresi sydd wedi rhedeg ers tro byd dros amser. Dylai hefyd gomisiynu allbwn gan amrywiaeth eang o gynhyrchwyr annibynnol i sicrhau bod amrywiaeth o leisiau a syniadau'n cael eu hadlewyrchu ar draws ei wasanaethau;
- 1.27.5 mewn perthynas â'r gynulleidfa mae'n ei gwasanaethu, dylai'r BBC sicrhau fod ei allbwn a'i wasanaethau gwasanaethu ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol y Deyrnas Unedig, drwy ei wasanaethau genres cymysg poblogaidd a'i wasanaethau un diben a mwy arbenigol.
- 1.28 Yn unol â hynny, mae Ofcom wedi mynnu bod y BBC yn cydymffurfio â'r Amodau Rheoleiddiol, fel y nodir yn Atodlen 1, a bydd Ofcom yn sicrhau hynny.
- 1.29 Oherwydd natur gymhleth a chysylltiedig yr agweddau gwahanol ar fod yn unigryw, mae Ofcom yn disgwyl i'r BBC ddatgan yn glir yn ei gynllun blynyddol a'i gylch gwaith creadigol sut bydd y sicrhau bod allbwn a gwasanaethau unigryw yn cael eu darparu, a sut bydd pob un o Wasanaethau Cyhoeddus y DU yn cyfrannu at gyflawni hyn.

Diben (4): Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig, a chefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig drwy wneud hynny

- 1.30 Er mwyn cyflawni ei Ddiben Cyhoeddus o adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig, a chefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig drwy wneud hynny, yn unol â'i rwymedigaethau o dan y Siarter, mae Ofcom yn credu y dylai'r BBC wneud y canlynol:

Gwledydd a Rhanbarthau

- 1.31 Mewn perthynas â gwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig, dylai'r BBC wneud y canlynol:
- 1.31.1 cynrychioli a phortreadu pob carfan o gynulleidfa'r gwledydd a'r rhanbarthau yn gywir ac yn ddilys ledled ei allbwn, ei wasanaethau a'i genres²⁵;
 - 1.31.2 dosbarthu ei adnoddau cynhyrchu ledled y Deyrnas Unedig gan sicrhau ei fod yn cefnogi'r diwydiannau creadigol yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Dylai hyn hefyd gynnwys cynhyrchu ledled rhanbarthau Lloegr a meithrin twf cynaliadwy ar gyfer y diwydiannau creadigol ym mhob cwr o'r Deyrnas Unedig;
 - 1.31.3 sicrhau bod rhaglenni ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau yn gwasanaethu'r bobl sy'n byw yn yr ardal lle darperir y gwasanaeth ac yn creu cynnwys sy'n berthnasol ac o ddiddordeb iddynt. Yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, dylai hyn gynnwys amrywiaeth helaeth o genres, gan gynnwys drama, comedi, chwaraeon, darlledu yn yr ieithoedd brodorol; a
 - 1.31.4 chyfrannu at les cymdeithasol drwy addysg ddiwylliannol, ymwybyddiaeth a dod â phobl at ei gilydd i rannu profiadau.

Amrywiaeth

- 1.32 Mewn perthynas ag amrywiaeth, dylai'r BBC wneud y canlynol:
- 1.32.1 gwasanaethu pob cynulleidfa ledled y Deyrnas Unedig a chreu cynnwys sy'n berthnasol iddynt ac o ddiddordeb iddynt;
 - 1.32.2 adlewyrchu amrywiaeth gwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig yn briodol yn ei allbwn, ei wasanaethau a'i genres. Dylai hyn gynnwys oedran, anabled, ailbennu rhywedd, hil, crefydd a chred, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol a chefnidir economaidd-gymdeithasol;
 - 1.32.3 cynrychioli a phortreadu'r cymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig yn gywir ac yn ddilys; a

²⁵ Ystyr "cynrychiolaeth" i ba raddau y mae pobl a nodweddion yn ymddangos, ac ystyr "portread" yw'r ffyrdd y caiff y bobl a'r cymeriadau hyn eu darlunio. Er mwyn i gynrychiolaeth fod yn gywir rydyn ni'n disgwyl i nifer y bobl sy'n ymddangos ar raglenni'r BBC fod yn adlewyrchiad cyffredinol o boblogaeth y Deyrnas Unedig. Byddwn yn asesu i ba raddau y mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu portreadu'n ddilys drwy ymchwil ymysg defnyddwyr.

- 1.32.4 helpu i gyfrannu at les cymdeithasol drwy addysg ddiwylliannol, ymwybyddiaeth a dod â phobl at ei gilydd i rannu profiadau.
- 1.33 Yn unol â hynny, mae Ofcom wedi mynnu bod y BBC yn cydymffurfio â'r Amodau Rheoleiddiol, fel y nodir yn Atodlen 1, a bydd Ofcom yn sicrhau hynny.

Atodlen 1

Amodau rheoleiddiol

- 2.1 Mae Ofcom wedi pennu'r Amodau Rheoleiddiol canlynol y mae'n ei hystyried yn briodol er mwyn ei gwneud yn ofynnol bod y BBC yn:
- 2.1.1 cyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo Dibenion Cyhoeddus;
 - 2.1.2 sicrhau y darperir allbwn a gwasanaethau unigryw; a
 - 2.1.3 sicrhau bod cynulleidfaoedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael gwasanaeth da.
- 2.2 Mae Ofcom wedi pennu'r Amodau Rheoleiddiol ar ôl ystyried yr hyn mae'n ei ddisgwyl gan y BBC yn unol â'r Drwydded hon. Bydd yr Amodau Rheoleiddiol hyn yn cael eu diwygio gan Ofcom yn rheolaidd os bydd Ofcom o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny gan gynnwys diwygio yn unol â pherfformiad y BBC.
- 2.3 Mae'n rhaid i'r BBC gydymffurfio â'r Amodau Rheoleiddiol wrth ddarparu Gwasanaethau Cyhoeddus y DU drwy gydol Cyfnod y Drwydded, gan gychwyn ar [commencement date].

Diben (1): Darparu newyddion a gwybodaeth ddiuedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas

- 2.4 Mewn perthynas â **BBC One**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:
- 2.4.1 ei fod yn dangos rhaglenni newyddion yn achlysurol drwy gydol y dydd;
 - 2.4.2 bod o leiaf 1,520 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion yn ystod pob Blwyddyn Galendr, a rhaid i o leiaf 280 o'r oriau hynny fod yn ystod y Cyfnod Gwyllo Brig. At ddibenion y gofyniad hwn, nid yw "rhaglenni newyddion" yn cynnwys rhaglenni dros nos sy'n gyd-ddarllediadau o'r rhaglenni ar sianel BBC News, ac
 - 2.4.3 bod o leiaf 45 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni ynghylch materion cyfoes yn ystod y Cyfnod Gwyllo Brig bob Blwyddyn Galendr.
- 2.5 Mewn perthynas â **BBC One** a **BBC Two** gyda'i gilydd, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 450 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni ynghylch materion cyfoes yn ystod bob Blwyddyn Galendr, a rhaid i o leiaf 106 o'r oriau hynny fod yn ystod y Cyfnod Gwyllo Brig.
- 2.6 Mewn perthynas â **CBBC**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:
- 2.6.1 ei fod yn dangos newyddion yn achlysurol drwy gydol y dydd; a
 - 2.6.2 bod o leiaf 85 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer newyddion yn ystod pob Blwyddyn Galendr.
- 2.7 Mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod **sianel BBC News** yn cynnwys

- 2.7.1 mwy o newyddion rhyngwladol; a
- 2.7.2 mwy o safbwyntiau a newyddion a lleol/rhanbarthol na phrif sianeli newyddion parhaus eraill y Deyrnas Unedig.
- 2.8 Mewn perthynas â **Radio 1**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:
- 2.8.1 bod o leiaf awr yn cael ei neilltuo ar gyfer newyddion yn ystod y Dydd bob diwrnod gwaith, a bod hynny'n cynnwys dau fwletin estynedig, ac mae'n rhaid i o leiaf un o'r rhain fod yn ystod y Cyfnod Gwrandio Brig; a
- 2.8.2 bod bwletinau rheolaidd yn cael eu darparu yn ystod y Dydd ar benwythnosau.
- 2.9 Mewn perthynas â **1Xtra**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:
- 2.9.1 bod o leiaf awr yn cael ei neilltuo ar gyfer newyddion yn ystod y Dydd bob diwrnod gwaith, a bod hynny'n cynnwys dau fwletin estynedig; a
- 2.9.2 bod bwletinau rheolaidd yn cael eu darparu yn ystod y Dydd ar benwythnosau.
- 2.10 Mewn perthynas â **Radio 2**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:
- 2.10.1 bod o leiaf 17 awr yn cael ei neilltuo ar gyfer rhaglenni ynghylch materion cyfoes bob wythnos, a rhaid i o leiaf 3 awr o'r rheini fod yn ystod y Cyfnod Gwrandio Brig; a
- 2.10.2 bod bwletinau newyddion rheolaidd yn cael eu darparu.
- 2.11 Mewn perthynas â **Radio 3**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn darparu newyddion yn achlysurol drwy gydol y dydd.
- 2.12 Mewn perthynas â **Radio 4**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:
- 2.12.1 bod o leiaf 2,750 o oriau bob Blwyddyn yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (gan gynnwys ailddarllediadau); a
- 2.12.2 bod adroddiadau dyddiol ynghylch gweithgareddau Seneddol yn cael eu darparu pan mae'r Senedd yn eistedd.
- 2.13 Mewn perthynas â **BBC Radio 5 live**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:
- 2.13.1 bod o leiaf 75% o'r allbwn bob Blwyddyn yn cynnwys rhaglenni newyddion a materion cyfoes; a
- 2.13.2 bod darpariaeth helaeth ynghylch etholiadau lleol a chyffredinol, ac etholiadau yn siambrau datganoledig y Deyrnas Unedig, yn ogystal â darpariaeth reolaidd ynghylch gwleidyddiaeth Ewrop a gwleidyddiaeth ryngwladol.
- 2.14 Mewn perthynas â **BBC 6 Music**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 6 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer newyddion bob wythnos.
- 2.15 Mewn perthynas â **BBC Asian Network**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 24 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes bob wythnos.

- 2.16 Mewn perthynas â **BBC Ar-lein**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn darparu digon o ddolenni i ddeunydd gan drydydd partïon.

Diben (2): Cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed

- 2.17 Mewn perthynas â **BBC One**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 45 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni cerddoriaeth a'r celfyddydau bob Blwyddyn, a rhaid i rai o'r rhain fod yn ystod yr Oriau Gwyllo Brig. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "rhaglenni cerddoriaeth a'r celfyddydau" yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu a'u caffael.
- 2.18 Mewn perthynas â **BBC One** a **BBC Two** gyda'i gilydd, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 115 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni crefyddol bob Blwyddyn, a rhaid i rai o'r rhain fod yn ystod yr Oriau Gwyllo Brig. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "rhaglenni crefyddol" yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu a'u caffael.
- 2.19 Mewn perthynas â **BBC Two**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 175 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni cerddoriaeth a'r celfyddydau bob Blwyddyn, a rhaid i rai o'r rhain fod yn ystod yr Oriau Gwyllo Brig. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "rhaglenni cerddoriaeth a'r celfyddydau" yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu a'u caffael.
- 2.20 Mewn perthynas â **BBC Four**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 175 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni cerddoriaeth a'r celfyddydau newydd bob Blwyddyn. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "rhaglenni newydd cerddoriaeth a'r celfyddydau" yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu caffael.
- 2.21 Mewn perthynas â **CBeebies**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn darparu cynnwys mewn amrywiaeth o genres sy'n cefnogi dysgu plant cyn-ysgol bob Blwyddyn.
- 2.22 Mewn perthynas â **CBBC**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bob Blwyddyn:
- 2.22.1 bod o leiaf 1,000 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni drama (gan gynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu a'u caffael); a
 - 2.22.2 bod o leiaf 675 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni ffeithiol. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "rhaglenni ffeithiol" yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu a'u caffael.
- 2.23 Mewn perthynas â **BBC Alba**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 5 awr bob wythnos yn cael ei neilltuo ar gyfer rhaglenni gwreiddiol wedi'u hanelu at bobl sy'n dysgu Gaeleg. At ddibenion y gofyniad hwn ynghylch "rhaglenni gwreiddiol":
- 2.23.1 nid ydynt yn cynnwys newyddion;
 - 2.23.2 maent yn cynnwys rhaglenni sydd wedi cael eu dangos ar Wasanaethau Cyhoeddus eraill yn y DU.
- 2.24 Mewn perthynas â **Radio 1**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn darlledu o leiaf 40 o raglenni dogfen sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf bob Blwyddyn. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "rhaglenni dogfen a ddarlledir am y tro cyntaf" yn cynnwys rhaglenni dogfen sydd wedi'u darlledu ar 1Xtra.
- 2.25 Mewn perthynas â **1Xtra**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn darlledu o leiaf 40 o raglenni dogfen sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf bob Blwyddyn. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "rhaglenni dogfen" yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu.

- 2.26 Mewn perthynas â **Radio 2**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bob Blwyddyn:
- 2.26.1 bod o leiaf 100 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni celfyddydol. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "rhaglenni celfyddydol" yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu;
 - 2.26.2 bod o leiaf 130 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni dogfen. At ddibenion y gofyniad hwn, nid yw "rhaglenni dogfen" yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu; a
 - 2.26.3 rhaid i o leiaf 170 o oriau gael eu neilltuo ar gyfer allbwn crefyddol, a rhaid i'r allbwn hwnnw gwmpasu ystod eang o grefyddau. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "allbwn crefyddol" yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu.
- 2.27 Mewn perthynas â **Radio 3**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bob Blwyddyn:
- 2.27.1 bod o leiaf 45% o allbwn cerddoriaeth yr orsaf yn cynnwys cerddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig neu gerddoriaeth fyw;
 - 2.27.2 bod o leiaf 440 o berfformiadau byw neu sydd wedi'u recordio'n arbennig yn cael eu darlledu;
 - 2.27.3 bod o leiaf 25 o weithiau cerddorol newydd yn cael eu comisiynu (heb gynnwys ailddarllediadau); a
 - 2.27.4 bod o leiaf 35 o raglenni dogfen newydd am bynciau celfyddydol a diwylliannol yn cael eu darlledu (heb gynnwys ailddarllediadau).
- 2.28 Mewn perthynas â **Radio 4**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bob Blwyddyn:
- 2.28.1 bod o leiaf 375 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni dogfen gwreiddiol sy'n mynd i'r afael ag amrywiaeth o wahanol bynciau (heb gynnwys ailddarllediadau); a
 - 2.28.2 bod o leiaf 200 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni crefyddol gwreiddiol (heb gynnwys ailddarllediadau).
- 2.29 Mewn perthynas â **BBC 6 Music**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 10 awr bob Blwyddyn ar gyfartaledd yn cael ei neilltuo ar gyfer traethodau, rhaglenni dogfen ac eitemau llafar bob wythnos.
- 2.30 Mewn perthynas â **BBC Ar-lein**, mae'n rhaid i'r BBC ddarparu cynnwys sy'n cynorthwyo plant a phobl ifanc â'u haddysg ffurfiol ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig.

Diben (3): Dangos cynnyrch a gwasanaethau creadigol ac unigryw o'r ansawdd gorau

Cynyrchiadau gwreiddiol

- 2.31 Bydd y BBC yn sicrhau bob Blwyddyn Galendr bod yr amser a neilltuir ar gyfer darlledu Cynyrchiadau Gwreiddiol gan bob Gwasanaeth Teledu Cyhoeddus yn y DU yn cael ei bennu yn unol â cholofn I isod:
- 2.31.1 nid yw'n llai na'r canran o gyfanswm yr amser a neilltuir i ddarlledu'r holl raglenni ar gyfer y gwasanaeth a nodir yng ngholofn II, ac
- 2.31.2 nid yw'n llai na'r canran o gyfanswm yr amser a neilltuir i ddarlledu'r holl raglenni ar gyfer y gwasanaeth hwnnw yn ystod y Cyfnod Gwyllo Brig, a nodir yng ngholofn III.

Colofn I Gwasanaeth	Colofn II Cynyrchiadau Gwreiddiol fel canran o oriau'r holl raglenni	Colofn III Cynyrchiadau Gwreiddiol yn ystod Oriau Gwyllo brig fel canran o oriau'r holl raglenni yn ystod Oriau Gwyllo Brig
BBC One	75%	90%
BBC Two	75%	90%
BBC Four	75%	60%
BBC Parliament	90%	-
Sianel BBC News	90%	-
CBBC	72%	-
CBeebies	70%	-
BBC Alba	75%	-

Rhaglenni Gwreiddiol sy'n cael eu Darlledu am y Tro Cyntaf yn y DU

- 2.32 Mewn perthynas â **BBC One**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 4,000 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer darlledu Rhaglenni Gwreiddiol sy'n cael eu Darlledu am y Tro Cyntaf yn y DU, yn ystod y Dydd ac yn ystod Oriau Gwyllo Brig.
- 2.33 Mewn perthynas â **BBC Two**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 2,200 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer darlledu Rhaglenni Gwreiddiol sy'n cael eu Darlledu am y Tro Cyntaf yn y DU, yn ystod y Dydd ac yn ystod Oriau Gwyllo Brig.
- 2.34 Mewn perthynas â **CBBC**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 400 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer darlledu Rhaglenni Gwreiddiol sy'n cael eu Darlledu am y Tro Cyntaf yn y DU, yn ystod y Dydd ac yn ystod Oriau Gwyllo Brig.
- 2.35 Mewn perthynas â **CBeebies**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 100 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer darlledu Rhaglenni Gwreiddiol sy'n cael eu Darlledu am y Tro Cyntaf yn y DU, yn ystod y Dydd ac yn ystod Oriau Gwyllo Brig.

Bod yn unigryw

- 2.36 Mewn perthynas â **Radio 1**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:
- 2.36.1 bod o leiaf 45% o'r gerddoriaeth a ddarlledir yn ystod y Dydd bob Blwyddyn gan artistiaid o'r Deyrnas Unedig.
 - 2.36.2 bod o leiaf 50% o'r gerddoriaeth a ddarlledir yn ystod y Dydd bob Blwyddyn yn Gerddoriaeth Newydd, a rhaid i gyfran sylweddol o'r rhain fod gan artistiaid newydd ac sy'n datblygu o'r Deyrnas Unedig.
 - 2.36.3 bod o leiaf 60 awr o Gerddoriaeth Arbenigol yn cael ei darlledu bob wythnos; a
 - 2.36.4 bod o leiaf 175 o sesiynau newydd, sydd wedi'u recordio yn ystod y mis ymlaen llaw, yn cael eu darlledu bob Blwyddyn (heb gynnwys aiddarllediadau); a
 - 2.36.5 bod yr orsaf yn chwarae amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth na darparwyr tebyg, gan ystyried sawl gwaith caiff caneuon eu chwarae a maint y rhestr chwarae, yn ystod y Dydd ac yn ystod Oriau Gwrando Brig.
- 2.37 Mewn perthynas â **Radio 2**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:
- 2.37.1 bod o leiaf 40% o'r gerddoriaeth a ddarlledir yn ystod y Dydd bob Blwyddyn gan artistiaid o'r Deyrnas Unedig.
 - 2.37.2 bod o leiaf 20% o'r gerddoriaeth a ddarlledir yn ystod y Dydd bob Blwyddyn yn Gerddoriaeth Newydd, a rhaid i gyfran sylweddol o'r rhain fod gan artistiaid newydd ac sy'n datblygu o'r Deyrnas Unedig.
 - 2.37.3 bod o leiaf 260 awr o gerddoriaeth fyw yn cael ei darlledu bob Blwyddyn;
 - 2.37.4 bod o leiaf 1100 awr o raglenni cerddoriaeth arbennig yn cael eu darlledu bob Blwyddyn; a
 - 2.37.5 bod yr orsaf yn chwarae amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth na darparwyr tebyg, gan ystyried sawl gwaith caiff caneuon eu chwarae a maint y rhestr chwarae, yn ystod y Dydd ac yn ystod Oriau Gwrando Brig.
- 2.38 Mewn perthynas â **BBC Radio 5 live**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bob Blwyddyn bod sylwebaeth, newyddion a rhaglenni eraill yn cael eu cynnig mewn perthynas ag o leiaf 20 o chwaraeon.

Diben (4): Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig, a chefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig drwy wneud hynny

Creu rhaglenni yn y gwledydd a'r rhanbarthau: rhaglenni rhwydwaith

Y Deyrnas Unedig (y tu allan i ardal yr M25)

2.39 Yn ystod pob Blwyddyn Galendr, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

- 2.39.1 bod o leiaf 50% o oriau y Rhaglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig y tu allan i ardal yr M25;
- 2.39.2 bod y Rhaglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig y tu allan i ardal yr M25 (gyda'i gilydd) yn cynrychioli ystod briodol o raglenni; a
- 2.39.3 bod o leiaf 50% o Wariant y BBC ar Raglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cynrychioli rhaglenni a gynhrychir mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu y tu allan i ardal yr M25.

Lloegr (y tu allan i ardal yr M25)

2.40 Yn ystod pob Blwyddyn Galendr, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

- 2.40.1 bod o leiaf 34% o oriau y Rhaglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cael eu gwneud yn Lloegr (y tu allan i ardal yr M25); a
- 2.40.2 bod o leiaf 34% o Wariant y BBC ar Raglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cynrychioli rhaglenni a gynhrychir mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu yn Lloegr (y tu allan i ardal yr M25).

Yr Alban

2.41 Yn ystod pob Blwyddyn Galendr, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

- 2.41.1 bod o leiaf 8% o oriau'r Rhaglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cael eu gwneud yn yr Alban; a
- 2.41.2 bod o leiaf 8% o Wariant y BBC ar Raglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cynrychioli rhaglenni a gynhrychir mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu yn yr Alban.

Cymru

2.42 Yn ystod pob Blwyddyn Galendr, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

- 2.42.1 bod o leiaf 5% o oriau'r Rhaglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cael eu gwneud yng Nghymru; a

- 2.42.2 bod o leiaf 5% o Wariant y BBC ar Raglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cynrychioli rhaglenni a gynhyrchir mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu yng Nghymru.

Gogledd Iwerddon

- 2.43 Yn ystod pob Blwyddyn Galendr, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:
- 2.43.1 bod o leiaf 3% o oriau y Rhaglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cael eu gwneud yng Ngogledd Iwerddon; a
- 2.43.2 bod o leiaf 3% o Wariant y BBC ar Raglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cynrychioli rhaglenni a gynhyrchir mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu yng Ngogledd Iwerddon.

Canolfannau cynhyrchu

- 2.44 Mae'r gwahanol ganolfannau cynhyrchu y mae'r Gwariant y cyfeirir ato yn amodau 2.39.3, 2.40.2, 2.41.2, 2.42.2 a 2.43.2 yn cyfeirio atynt, yn cynrychioli ystod eang o ganolfannau cynhyrchu o'r fath.

Arweiniad

- 2.45 Wrth gydymffurfio ag amodau 2.39 i 2.44, rhaid i'r BBC ystyried unrhyw arweiniad y mae modd i Ofcom ei gyhoeddi.

Creu rhaglenni yn y gwledydd a'r rhanbarthau: gwasanaethau radio

- 2.46 Mewn perthynas â Gwasanaethau **Radio Cyhoeddus y DU**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf traean o'r Gwariant perthnasol yn cael ei wario y tu allan i ardal yr M25 bob Blwyddyn. Mae'r "Gwariant Perthnasol" yn cynnwys Gwariant ar raglenni gwreiddiol a ddarlledir am y tro cyntaf, ond nid yw'n cynnwys Gwariant ar allbwn newyddion neu chwaraeon. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "rhaglenni gwreiddiol a ddarlledir am y tro cyntaf" yn golygu rhaglenni a gomisiynir gan neu ar gyfer Gwasanaeth Radio Cyhoeddus yn y DU ac nad ydynt wedi cael eu darlledu ar wasanaeth radio yn y Deyrnas Unedig o'r blaen.
- 2.47 Er mwyn diwallu'r gofyniad yn amod 2.46, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod rhywfaint o'r Gwariant perthnasol yn cael ei wario mewn perthynas â phob un o'r gwasanaethau radio canlynol:
- 2.47.1 Radio 1;
- 2.47.2 Radio 2;
- 2.47.3 Radio 3;
- 2.47.4 Radio 4;
- 2.47.5 BBC Radio 5 live.
- 2.48 Mewn perthynas â **Radio 3**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf traean o'r Gwariant perthnasol yn cael eu wario y tu allan i ardal yr M25 bob Blwyddyn. At ddibenion y gofyniad hwn, mae'r "Gwariant perthnasol" yn cynnwys Gwariant ar raglenni gwreiddiol a ddarlledir am y tro cyntaf a'r ffordd y dyrannwyd

cymorthdaliadau'r cerddorfeydd canolog, ond nid yw'n cynnwys Gwariant ar allbwn newyddion a chwaraeon.

Rhaglennu yn y gwledydd a'r rhanbarthau

- 2.49 Mewn perthynas â BBC a BBC Two gyda'i gilydd, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau'r canlynol yn ystod pob Blwyddyn Galendr:
- 2.49.1 bod o leiaf 6,300 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni sydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol;
 - 2.49.2 Bod y rhaglenni rheini yn cynnwys ystod priodol o raglenni (gan gynnwys rhaglenni newyddion rhanbarthol)'
 - 2.49.3 bod o leiaf 95% o'r rhaglenni hynny yn cynnwys rhaglenni sydd wedi'u gwneud mewn gwlad neu ranbarth sy'n gysylltiedig â'r rhaglenni a fydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol;
 - 2.49.4 bod o leiaf 700 o oriau o'r rhaglenni hynny yn cynnwys darlledu rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion yn ystod y Cyfnod Gwyllo Brig; a
 - 2.49.5 bod o leiaf 335 o oriau o'r rhaglenni hynny yn cynnwys rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion sy'n cael eu darlledu yn syth cyn neu ar ôl y Cyfnod Gwyllo Brig.
- 2.50 Yn ystod bob Blwyddyn Galendr, bod yr amser sydd wedi'i neilltuo ar gyfer rhaglenni o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol yn unol ag amod 2.49, yn cynnwys darlledu o leiaf 4,300 o oriau o newyddion sydd o ddiddordeb rhanbarthol yn achlysurol drwy gydol y dydd ar **BBC One**, a rhaid i o leiaf 2,200 o'r rheini fod yn ystod y Cyfnod Gwyllo Brig.
- 2.51 Wrth gydymffurfio ag amodau 2.49 a 2.50, rhaid i'r BBC ystyried unrhyw arweiniad y mae modd i Ofcom ei gyhoeddi.
- 2.52 Mewn perthynas â **BBC Parliament**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 300 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni ynghylch gweithgareddau Senedd yr Alban, Cynulliad Gogledd Iwerddon a Chynulliad Cymru bob Blwyddyn.
- 2.53 Mewn perthynas â phob **Gwasanaeth Radio Cyhoeddus y DU** a bennir yn amod 2.54, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod cyfran y cynnwys sy'n gynnwys llafar ar y gwasanaeth hwnnw yn diwallu'r amodau canlynol bob Blwyddyn:
- 2.53.1 o leiaf 60% ar gyfartaledd yn ystod Oriau Craidd; a
 - 2.53.2 100% yn ystod yr Oriau Brig Amser Brecwast.
- 2.54 Mae'r Gwasanaethau Radio Cyhoeddus y DU canlynol wedi'u nodi at ddibenion amod 2.53:
- 2.54.1 pob gwasanaeth BBC Local Radio;
 - 2.54.2 BBC Radio Scotland;
 - 2.54.3 BBC Radio nan Gàidheal;
 - 2.54.4 BBC Radio Wales;

2.54.5 BBC Radio Cymru;

2.54.6 BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle.

2.55 Yn amod 2.53 ystyr “Oriau Craidd” yw rhwng 06:00 a 19:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac ystyr “Oriau Brig Amser Brechwast” yw rhwng 07:00 a 08:30 o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Lloegr

2.56 Mewn perthynas â phob gorsaf **BBC Local Radio**, mae’n rhaid i’r BBC sicrhau:

2.56.1 bod newyddion a gwybodaeth perthnasol i’r ardaloedd a’r cymunedau mae’n eu gwasanaethu yn benodol yn cael eu darparu yn rheolaidd drwy gydol y dydd; a

2.56.2 bod cynnwys arall perthnasol i’r ardaloedd a’r cymunedau mae’n eu gwasanaethu yn benodol yn cael ei ddarparu.

2.57 Mewn perthynas â **BBC Local Radio**, mae’n rhaid i’r BBC sicrhau bod o leiaf 95 awr bob wythnos yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni gwreiddiol sydd wedi’u creu’n lleol ar bob gorsaf BBC Local Radio. At ddibenion y gofyniad hwn, mae “rhaglenni gwreiddiol wedi’u gwneud yn lleol” yn cynnwys rhaglenni sy’n cael eu rhannu rhwng gorsafoedd cyfagos ac yn cael eu darlledu rhwng 06:00 a 19:00.

2.58 Bydd y gofyniad yn amod 2.57 yn berthnasol i’r gorsafoedd radio BBC Local Radio canlynol, a’r amser a nodir yn y maes cyfatebol yw’r gofyniad lleiaf o ran rhaglenni gwreiddiol wedi’u gwneud yn lleol.

Gorsaf BBC Local Radio	Gofyniad lleiaf ar gyfer rhaglenni gwreiddiol wedi’u gwneud yn lleol
BBC Radio Guernsey	80 awr
BBC Radio Jersey	80 awr
BBC Radio Somerset	70 awr

Yr Alban

2.59 Mewn perthynas â **BBC One Scotland**, mae’n rhaid i’r BBC sicrhau bob Blwyddyn:

2.59.1 bod o leiaf 290 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes; a

2.59.2 bod o leiaf 155 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion. At ddibenion y gofyniad hwn, nid yw “rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion” yn cynnwys rhaglenni sy’n cael eu hailddarlledu a’u caffael, ac nid yw’n cynnwys rhaglenni newyddion neu raglenni materion cyfoes.

- 2.60 Mewn perthynas â **BBC One Scotland** a **BBC Two Scotland** gyda'i gilydd, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn darparu amrywiaeth o genres sy'n adlewyrchu diwylliant yr Alban yn ei raglenni.
- 2.61 Mewn perthynas â **BBC Two Scotland**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 200 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion bob Blwyddyn, gan gynnwys allbwn Gaeleg. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion":
- 2.61.1 yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu a'u caffael;
 - 2.61.2 nid ydynt yn cynnwys newyddion;
 - 2.61.3 nid ydynt yn cynnwys materion cyfoes.
- 2.62 Mewn perthynas â BBC Alba, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod y gwasanaeth yn cynnwys rhaglenni newyddion byw gyda'r nos bob diwrnod gwaith, gan gynnwys yn ystod Oriau Gwyllo Brig, yn ogystal ag adolygiad estynedig o'r newyddion ar benwythnosau.
- 2.63 Mewn perthynas â **BBC Radio Scotland**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:
- 2.63.1 bod o leiaf 50 o oriau bob wythnos yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (gan gynnwys ailddarllediadau); a
 - 2.63.2 bod nifer o wasanaethau eithrio rhanbarthol yn cael eu darparu bob diwrnod gwaith, sy'n cynnig newyddion, chwaraeon a gwybodaeth, yn ogystal â rhywfaint o raglenni cymunedol rhanbarthol gyda'r nos; a
 - 2.63.3 bod cynnwys a cherddoriaeth perthnasol i'r Alban yn benodol yn cael eu darparu.
- 2.64 Mewn perthynas â **BBC Radio nan Gàidheal**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:
- 2.64.1 ei fod yn cynnwys newyddion yn gyson yn ystod y dydd, yn enwedig rhwng 07:00 a 08:30, a rhwng 16:00 a 19:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhwng 07:00 ac 11:00 ar ddydd Sadwrn a dydd Sul; a
 - 2.64.2 bod cynnwys a cherddoriaeth perthnasol i'r Alban yn benodol yn cael eu darparu.
- 2.65 Mewn perthynas â **BBC Ar-lein**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:
- 2.65.1 bod cynnwys Gaeleg yn cael ei ddarparu; a
 - 2.65.2 bod darpariaeth chwaraeon penodol i'r Alban yn cael ei darparu.

Cymru

- 2.66 Mewn perthynas â **BBC One Wales**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bob Blwyddyn Galendr:
- 2.66.1 bod o leiaf 275 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes; a

- 2.66.2 bod o leiaf 65 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion. At ddibenion y gofyniad hwn, nid yw “rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion” yn cynnwys rhaglenni sy’n cael eu hailddarlledu a’u caffael, ac nid yw’n cynnwys rhaglenni newyddion neu raglenni materion cyfoes.
- 2.67 Mewn perthynas â **BBC One Wales** a **BBC Two Wales** gyda’i gilydd, mae’n rhaid i’r BBC sicrhau ei fod yn darparu amrywiaeth o genres sy’n adlewyrchu diwylliant Cymru yn ei raglenni.
- 2.68 Mewn perthynas â **BBC Two Wales**, mae’n rhaid i’r BBC sicrhau bod o leiaf 175 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion bob Blwyddyn. At ddibenion y gofyniad hwn, mae “rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion”:
- 2.68.1 yn cynnwys rhaglenni sy’n cael eu hailddarlledu a’u caffael;
- 2.68.2 nid ydynt yn cynnwys newyddion;
- 2.68.3 nid ydynt yn cynnwys materion cyfoes.
- 2.69 Mewn perthynas â **BBC Radio Wales**, mae’n rhaid i’r BBC sicrhau:
- 2.69.1 bod o leiaf 32 o oriau bob wythnos yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (gan gynnwys rhai sy’n cael eu hailddarlledu a’u caffael); a
- 2.69.2 bod cynnwys a cherddoriaeth perthnasol i Gymru yn benodol yn cael eu darparu.
- 2.70 Mewn perthynas â **BBC Radio Cymru**, mae’n rhaid i’r BBC sicrhau:
- 2.70.1 bod o leiaf 23 o oriau bob wythnos yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (gan gynnwys ailddarllediadau); a
- 2.70.2 bod cynnwys a cherddoriaeth perthnasol i Gymru yn benodol yn cael eu darparu.
- 2.71 Mewn perthynas â **BBC Ar-lein**, mae’n rhaid i’r BBC sicrhau:
- 2.71.1 bod cynnwys yn cael ei ddarparu yn y Gymraeg; a
- 2.71.2 bod darpariaeth chwaraeon penodol i Gymru yn cael ei darparu.

Gogledd Iwerddon

- 2.72 Mewn perthynas â **BBC Northern Ireland**, mae’n rhaid i’r BBC sicrhau bob Blwyddyn Galendr:
- 2.72.1 bod o leiaf 310 o oriau bob Blwyddyn yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes; a
- 2.72.2 bod o leiaf 90 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion. At ddibenion y gofyniad hwn, nid yw “rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion” yn cynnwys rhaglenni sy’n cael eu

hailddarlledu a'u caffael, ac nid yw'n cynnwys rhaglenni newyddion neu rhaglenni materion cyfoes.

2.73 Mewn perthynas â **BBC One Northern Ireland** a **BBC Two Northern Ireland** gyda'i gilydd, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn darparu amrywiaeth o genres sy'n adlewyrchu diwylliant Gogledd Iwerddon yn ei rhaglenni.

2.74 Mewn perthynas â **BBC Two Northern Ireland**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 60 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion bob Blwyddyn. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion":

2.74.1 yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu a'u caffael;

2.74.2 nid ydynt yn cynnwys newyddion;

2.74.3 nid ydynt yn cynnwys materion cyfoes.

2.75 Mewn perthynas â **BBC Two Northern Ireland**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn darparu rhaglenni Gwyddeleg a Gaeleg Ulster.

2.76 Mewn perthynas â **BBC Radio Ulster** a **BBC Radio Foyle**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

2.76.1 bod o leiaf 35 o oriau bob wythnos yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (gan gynnwys ailddarllediadau) ar Radio Ulster; a

2.76.2 bod o leiaf 20 o oriau bob wythnos yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (gan gynnwys ailddarllediadau) ar Radio Foyle;

2.76.3 bod cynnwys a cherddoriaeth perthnasol i Ogledd Iwerddon yn benodol yn cael eu darparu; a

2.76.4 bod o leiaf 240 o oriau yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni mewn ieithoedd brodorol lleiafrifol, gan gynnwys Gwyddeleg a Gaeleg Ulster, bob Blwyddyn. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "rhaglenni mewn ieithoedd brodorol lleiafrifol" yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu a'u caffael.

2.77 Mewn perthynas â **BBC Ar-lein**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

2.77.1 bod cynnwys Gwyddeleg a Gaeleg Ulster yn cael ei ddarparu; a

2.77.2 bod darpariaeth chwaraeon penodol i Ogledd Iwerddon yn cael ei darparu.

Amrywiaeth

2.78 Mae'n rhaid i'r BBC roi adroddiad blynyddol ar sut mae Gwasanaethau Cyhoeddus y DU yn gyffredinol wedi adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig yn ystod y Flwyddyn flaenorol. Yn benodol, mae'n rhaid i'r BBC ddangos sut mae wedi gwneud y canlynol:

- 2.78.1 ystyried yr ystod o gymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig. Dylai hyn gynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd a chred, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol a chefnidir economaidd-gymdeithasol;
- 2.78.2 gwasanaethu a darparu cynnwys ar gyfer yr ystod o gymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig;
- 2.78.3 cynrychioli cymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig yn gywir;
- 2.78.4 rhoi portread dilys o'r cymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig; a
- 2.78.5 chodi ymwybyddiaeth am wahanol ddiwylliannau a safbwyntiau amgen y cymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig.
- 2.79 Mae'n rhaid i'r BBC fesur boddhad cynulleidfaoedd yn ystod y Flwyddyn flaenorol o ran adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol ym mhob cwr o'r DU ledled Gwasanaethau Cyhoeddus y DU, ac adrodd ar hynny bob blwyddyn gan roi sylw penodol i gynnwys sy'n cael ei ddarlledu am y tro cyntaf ym mhob genre. Rhaid i hyn gynnwys boddhad cynulleidfaoedd yn y meysydd canlynol:
- 2.79.1 sut mae'r BBC yn cynrychioli, yn portreadu ac yn gwasanaethu cynulleidfaoedd amrywiol;
- 2.79.2 sut mae'r BBC yn adlewyrchu poblogaeth gyfan y Deyrnas Unedig ar sgrin ac ar yr awyr, gan roi sylw penodol i gynnwys sy'n cael ei ddarlledu am y tro cyntaf ym mhob genre; a
- 2.79.3 sut mae'r BBC yn codi ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau a safbwyntiau.
- 2.80 Os bydd mesuriad y BBC o foddhad cynulleidfaoedd yn unol ag amod 2.79 yn awgrymu bod carfan benodol o'r gynulleidfa yn anfodlon â pherfformiad y BBC yn y meysydd hyn, mae'n rhaid i'r BBC:
- 2.80.1 yn unol ag amod 2.79, nodi yn ei adroddiad ar gyfer y Flwyddyn honno'r camau y bydd rhaid eu cymryd i geisio gwella boddhad cynulleidfaoedd ymysg y carfannau penodol hynny o'r gynulleidfa; ac,
- 2.80.2 yn unol ag amod 2.79, nodi yn ei adroddiad ar gyfer y Flwyddyn ganlynol y camau a gymerwyd a'u heffaith ar foddhad cynulleidfaoedd mewn perthynas â'r carfannau penodol hynny o'r gynulleidfa.
- 2.81 Mae'n rhaid i'r BBC bennu cod ymarfer wedi'i gymeradwyo gan Ofcom, sy'n nodi'r camau y bydd y BBC yn eu cymryd pan fydd yn comisiynu cynnwys ledled pob genre er mwyn sicrhau bod cynnwys yn cynrychioli'n gywir ac yn rhoi portread dilys o'r cymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig, a chydymffurfio â'r cod hwnnw.

Atodlen 2

Diffiniadau a dehongliadau

3.1 Yn y Drwydded hon, oni bai fod y cyd-destun yn nodi'n wahanol:

Ystyr “**y Cytundeb**” yw'r cytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a'r BBC' (y “Cytundeb”), a wnaed ar 7 Rhagfyr 2016;

Ystyr “**y BBC**” yw'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig;

“**BBC One Northern Ireland**” yw fersiwn Gogledd Iwerddon o BBC One;

“**BBC One Scotland**” yw fersiwn yr Alban o BBC One;

“**BBC One Wales**” yw fersiwn Cymru o BBC One;

“**BBC Two Northern Ireland**” yw fersiwn Gogledd Iwerddon o BBC Two;

“**BBC Two Scotland**” yw'r fersiwn yr Alban o BBC Two;

“**BBC Two Wales**” yw'r fersiwn Cymru o BBC Two;

Nodir ystyr “**Cyfnod Brig Amser Brecwast**” yn amod 2.55;

Ystyr “**Blwyddyn Galendr**” yw cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar 1 Ionawr, â'r cyntaf o'r rheini'n cychwyn ar 1 Ionawr 2018;

Ystyr “**y Siarter**” yw'r Siarter Frenhinol ynghylch parhad y BBC ar gyfer y cyfnod sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2027;

Nodir ystyr “**Oriau Craidd**” yn amod 2.55;

Ystyr “**yn ystod y Dydd**” yw:

- (a) rhwng 06:00 a 18:00 mewn perthynas â Gwasanaeth Teledu Cyhoeddus y DU;
- (b) rhwng 06:00 a 19:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 08:00 a 14:00 ar ddydd Sadwrn a dydd Sul mewn perthynas â Gwasanaethau Radio Cyhoeddus y DU;

Ystyr “**Gwariant**” mewn cysylltiad â rhaglen yw:

- (a) gwariant sy'n cael ei ystyried yn fuddsoddiad mewn rhaglen neu wariant y mae modd ei briodoli i'r gwaith o wneud rhaglen; neu
- (b) gwariant ar gomisiynu neu gaffael rhaglen, neu gaffael hawl i gynnwys rhaglen mewn gwasanaeth neu ei darlledu;

Ystyr “**Rhaglenni Gwreiddiol sy'n cael eu Darlledu am y Tro Cyntaf yn y DU**” yw rhaglenni sy'n

- (a) cael eu comisiynu gan Wasanaeth Teledu Cyhoeddus y DU neu ar ei gyfer; ac
- (b) sydd heb gael eu dangos ar y teledu yn y Deyrnas Unedig o'r blaen;

Ystyr “**Cyfnod y Drwydded**” yw'r cyfnod rhwng [commencement date] a 31 Rhagfyr 2027;

Ystyr “**Ardal yr M25**” yw'r ardal y tu allan i ffin y Draffordd sy'n Amgylchynu Llundain (yr M25);

Ystyr “**Rhaglenni Rhwydwaith**” yw rhaglenni sydd wedi'u creu er mwyn eu gwyllo ar Wasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU, ac eithrio rhaglenni sydd wedi'u gwneud i'w gwyllo ar amrywiad o wasanaeth sy'n berthnasol i un o'r canlynol yn unig: (a) Gogledd Iwerddon; (b) Yr Alban; (c) Cymru; (d) unrhyw ranbarth yn Lloegr;

Ystyr “**Cerddoriaeth Newydd**” yw:

- (a) cerddoriaeth sydd erioed wedi'i rhyddhau o'r blaen, naill ai yn ffisegol neu i'w llwytho i lawr;
- (b) cerddoriaeth sydd wedi'i rhyddhau yn ystod y mis diwethaf, naill ai yn ffisegol neu i'w llwytho i lawr, neu'r ddau. Mewn achosion lle mae'r dyddiad rhyddhau ffisegol yn wahanol i ddyddiad rhyddhau'r lawrlwythiad, y dyddiad cynharaf fydd yn cael ei ystyried fel y dyddiad rhyddhau;

Ystyr “**Ofcom**” yw'r Swyddfa Gyfathrebiadau a sefydlwyd yn unol â Deddf Cyfathrebiadau 2002;

Mae ystyr “**Cynyrchiadau Gwreiddiol**”, mewn perthynas â Gwasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU gyda'i gilydd, yr un fath â'r ystyr a nodir yng Ngorchymyn Darlledu (Cynyrchiadau Gwreiddiol) 2004 neu unrhyw orchymyn dilynol o dan adran 278(6) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 mewn perthynas â sianel gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig;

Ystyr “**Cyfnod Gwrando Brig**” yw rhwng 06:00 a 10:00, a rhwng 16:00 a 19:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhwng 07:00 ac 11:00 ar ddydd Sadwrn a dydd Sul;

Ystyr “**Cyfnod Gwyllo Brig**” yw rhwng 18:00 a 22:30;

Ystyr “**Dibenion Cyhoeddus**” yw dibenion cyhoeddus y BBC fel a nodir yn Erthygl 6 y Siarter;

Ystyr “**Amodau Rheoleiddiol**” yw'r amodau rheoleiddiol yn Atodlen 1 y Drwydded, a gaiff eu diwygio gan Ofcom o bryd i'w gilydd;

Ystyr “**Cerddoriaeth Arbenigol**” yw cerddoriaeth sy'n apelio at grŵp penodol o wrandawyr ac yn canolbwyntio ar genre penodol o gerddoriaeth neu ar gerddoriaeth flaengar o amrywiaeth o genres;

Ystyr “**Gwasanaethau Radio Cyhoeddus y DU**” yw'r Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU sy'n cynnwys gwasanaethau rhaglenni radio, ac mae “**Gwasanaethau Radio Cyhoeddus**” yn golygu unrhyw un o'r gwasanaethau hynny;

Ystyr “**Gwasanaethau Cyhoeddus y DU**” yw'r gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys ar y rhestr a gyhoeddwyd gan y BBC yn unol â Rhan 1 o Atodlen 1 y Cytundeb, a bydd yn cael ei addasu gan y BBC o bryd i'w gilydd;

Ystyr "**Gwasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU**" yw'r Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU sy'n cynnwys gwasanaethau rhaglenni teledu, ac mae "**Gwasanaethau Teledu Cyhoeddus**" yn golygu unrhyw un o'r gwasanaethau hynny;

Ystyr "**Blwyddyn**" yw cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar 1 Ebrill, a'r cyntaf o'r rheini'n cychwyn ar 1 Ebrill 2018.

- 3.2 Mae ystyr y termau yn yr Atodlen hon yr un fath yn y Siarter a'r Cytundeb, oni bai fod y cyd-destun yn nodi fel arall.
- 3.3 Mae geiriau gwrywaidd yn cyfeirio at y benywaidd ac fel arall.
- 3.4 Mae geiriau unigol yn cyfeirio at y lluosog.
- 3.5 Dylid darllen cyfeiriadau at ddeddfwriaeth benodol gan gymryd yn ganiataol y bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei diwygio neu ei haildeddfu o bryd i'w gilydd.
- 3.6 Gwneud pethau'n haws yw bwriad y penawdau ac nid ydynt yn rhan o'r Amodau Rheoleiddiol.

Atodlen 3

Crynodeb o'r amodau rheoleiddiol

4.1 Canllaw i gyfeirio ato yn unig yw'r Atodlen hon.

4.2 Ceir yma grynoded o'r Amodau Rheoleiddiol sy'n berthnasol i bob gwasanaeth. Nodir testun awdurdodol cyflawn pob Amod Rheoleiddiol perthnasol yn Atodlen 1.

Enw'r gwasanaeth	Crynodeb o'r Amodau Rheoleiddiol	Rhif yr Amod Rheoleiddiol
BBC One	Rhaglenni newyddion yn achlysurol drwy gydol y dydd	2.4.1
BBC One	Cwota ar gyfer newyddion (1,520 awr) a newyddion Oriau Brig (280 awr) mewn Blwyddyn Galendr	2.4.2
BBC One	Cwota ar gyfer materion cyfoes Oriau Brig mewn Blwyddyn Galendr (45 awr)	2.4.3
BBC One	Cwota blynyddol ar gyfer rhaglenni cerddoriaeth a'r celfyddydau Oriau Brig (45 awr)	2.17
BBC One	Cwota ar gyfer Cynyrchiadau Gwreiddiol fel canran o oriau'r holl raglenni (75%), ac fel canran o oriau'r holl raglenni Oriau Brig (90%) mewn Blwyddyn Galendr	2.31
BBC One	Cwota ar gyfer Rhaglenni Gwreiddiol sy'n cael eu Darlledu am y Tro Cyntaf yn y DU – yn ystod Oriau Brig ac yn ystod y Dydd mewn Blwyddyn Galendr (4,000 awr).	2.32
BBC One a BBC Two	Cwota ar gyfer rhaglenni materion cyfoes mewn Blwyddyn Galendr (450 awr, a 106 o'r oriau hynny yn ystod Oriau Brig)	2.5
BBC One a BBC Two	Cwota blynyddol ar gyfer rhaglenni crefyddol (115 awr, a rhaid i rai o'r rheini fod yn ystod Oriau Brig)	2.18
BBC One a BBC Two	Cwota ar gyfer rhaglenni o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol mewn Blwyddyn Galendr (6,300 awr), gan gynnwys <ul style="list-style-type: none"> • amrywiaeth addas o raglenni; • o leiaf 95% o'r rhaglenni wedi'u gwneud mewn gwlad neu ranbarth perthnasol; • 700 awr o raglenni heb fod yn rhaglenni newyddion yn ystod Oriau Brig; • 335 awr o raglenni heb fod yn rhaglenni newyddion yn syth cyn neu ar ôl y Cyfnod Brig; • mae'n ofyniad penodol bod BBC One yn darlledu o leiaf 4,300 o oriau o newyddion sydd o ddiddordeb cenedlaethol neu ranbarthol yn achlysurol drwy gydol y dydd, ac mae'n rhaid i 2,200 o'r rheini fod yn ystod Oriau Brig. 	2.49; 2.50

BBC Two	Cwota blynyddol ar gyfer rhaglenni cerddoriaeth a chelfyddyd (175 awr, a rhaid i rai o'r rheini fod yn ystod Oriau Brig)	2.19
BBC Two	Cwota ar gyfer Cynyrchiadau Gwreiddiol fel canran o oriau'r holl raglenni mewn Blwyddyn Galendr (75%) ac fel canran o oriau'r holl raglenni Oriau Brig (90%) mewn Blwyddyn Galendr	2.31
BBC Two	Cwota ar gyfer Rhaglenni Gwreiddiol sy'n cael eu Darlledu am y Tro Cyntaf yn y DU – yn ystod Oriau Brig ac yn ystod y Dydd mewn Blwyddyn Galendr (2,200 awr).	2.33
BBC One Scotland	Cwota ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (290 awr) a rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion (155 awr) mewn Blwyddyn Galendr	2.59
BBC One Scotland a BBC Two Scotland	Amrywiaeth o genres mewn rhaglenni sy'n adlewyrchu diwylliant yr Alban	2.60
BBC Two Scotland	Cwota blynyddol ar gyfer rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion, gan gynnwys allbwn Gaeleg (200 awr)	2.61
BBC One Wales	Cwota ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (275 awr) a rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion (65 awr) mewn Blwyddyn Galendr	2.66
BBC One Wales a BBC Two Wales	Amrywiaeth o genres mewn rhaglenni sy'n adlewyrchu diwylliant Cymru	2.67
BBC Two Wales	Cwota blynyddol ar gyfer rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion (175 awr)	2.68
BBC One Northern Ireland	Cwota ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (310 awr) a rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion (90 awr) mewn Blwyddyn Galendr	2.72
BBC One Northern Ireland a BBC Two Northern Ireland	Amrywiaeth o genres mewn rhaglenni sy'n adlewyrchu diwylliant Gogledd Iwerddon	2.73
BBC Two Northern Ireland	Cwota blynyddol ar gyfer rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion (60 awr)	2.74
BBC Two Northern Ireland	Rhaglenni Gwyddeleg a Gaeleg Ulster	2.75
BBC Four	Cwota blynyddol ar gyfer rhaglenni cerddoriaeth a chelfyddyd newydd (175 awr)	2.20
BBC Four	Cwota ar gyfer Cynyrchiadau Gwreiddiol fel canran o oriau'r holl raglenni mewn Blwyddyn Galendr (75%) ac fel canran o oriau'r holl raglenni Oriau Brig (60%) mewn Blwyddyn Galendr	2.31
CBeebies	Darparu cynnwys mewn amrywiaeth o genres sy'n cefnogi dysgu plant cyn-ysgol bob blwyddyn	2.21
CBeebies	Cwota ar gyfer Cynyrchiadau Gwreiddiol fel canran o oriau'r holl raglenni mewn Blwyddyn Galendr (70%)	2.31
CBeebies	Cwota ar gyfer Rhaglenni Gwreiddiol sy'n cael eu Darlledu am y Tro Cyntaf yn y DU – yn ystod Oriau	2.35

	Brig ac yn ystod y Dydd mewn Blwyddyn Galendr (100 awr).	
CBBC	Rhaglenni newyddion yn achlysurol drwy gydol y dydd	2.6.1
CBBC	Cwota blynyddol ar gyfer rhaglenni newyddion (85 awr)	2.6.2
CBBC	Cwota blynyddol ar gyfer drama (1,000 awr)	2.22.1
CBBC	Cwota blynyddol ar gyfer rhaglenni ffeithiol (675 awr)	2.22.2
CBBC	Cwota ar gyfer Cynyrchiadau Gwreiddiol fel canran o oriau'r holl raglenni mewn Blwyddyn Galendr (72%)	2.31
CBBC	Cwota ar gyfer Rhaglenni Gwreiddiol sy'n cael eu Darlledu am y Tro Cyntaf yn y DU – yn ystod Oriau Brig ac yn ystod y Dydd mewn Blwyddyn Galendr (400 awr).	2.34
Sianel BBC News	Mwy o newyddion rhyngwladol a mwy o safbwyntiau a newyddion a lleol/rhanbarthol na sianeli newyddion parhaus eraill yn y DU	2.7
Sianel BBC News	Cwota ar gyfer Cynyrchiadau Gwreiddiol fel canran o oriau'r holl raglenni mewn Blwyddyn Galendr (90%)	2.31
BBC Parliament	Cwota ar gyfer Cynyrchiadau Gwreiddiol fel canran o oriau'r holl raglenni mewn Blwyddyn Galendr (90%)	2.31
BBC Parliament	Cwota blynyddol ar gyfer darpariaeth yng nghyswllt gweithgareddau Cynulliad Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon (300 awr)	2.52
BBC Alba	Cwota wythnosol ar gyfer rhaglenni gwreiddiol ar gyfer dysgwyr Gaeleg (5 awr)	2.23
BBC Alba	Cwota ar gyfer Cynyrchiadau Gwreiddiol fel canran o oriau'r holl raglenni mewn Blwyddyn Galendr (75%)	2.31
BBC Alba	Rhaglenni newyddion byw gyda'r nos bob diwrnod gwaith, gan gynnwys yn ystod Oriau Brig, ac adolygiad newyddion estynedig ar benwythnosau	2.62
Gwasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU (Rhaglenni Rhwydwaith)	Cwota ar gyfer rhaglenni rhwydwaith a wneir y tu allan i ardal yr M25 bob Blwyddyn Galendr (50% o'r oriau o raglenni rhwydwaith a wneir yn y DU, 50% o wariant y BBC ar raglenni rhwydwaith a wneir yn y DU, creu amrywiaeth briodol o raglenni rhwydwaith y tu allan i ardal yr M25)	2.39; 2.44

Gwasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU (Rhaglenni Rhwydwaith)	Cwota ar gyfer rhaglenni rhwydwaith a wneir yn Lloegr bob Blwyddyn Galendr (34% o'r oriau o raglenni rhwydwaith a wneir yn y DU, 34% o wariant y BBC ar raglenni rwydwaith a wneir yn y DU, creu amrywiaeth briodol o raglenni rhwydwaith yn y DU, mewn amrywiaeth briodol o ganolfannau cynhyrchu)	2.40; 2.44
Gwasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU (Rhaglenni Rhwydwaith)	Cwota ar gyfer rhaglenni rhwydwaith a wneir yn yr Alban bob Blwyddyn Galendr (8% o'r oriau o raglenni rhwydwaith a wneir yn y DU, 8% o wariant y BBC ar raglenni rhwydwaith a wneir yn y DU, creu amrywiaeth briodol o raglenni rhwydwaith yn y DU, mewn amrywiaeth briodol o ganolfannau cynhyrchu yn yr Alban)	2.41; 2.44
Gwasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU (Rhaglenni Rhwydwaith)	Cwota ar gyfer rhaglenni rhwydwaith a wneir yng Nghymru bob Blwyddyn Galendr (5% o'r oriau o raglenni rhwydwaith a wneir yn y DU, 5% o wariant y BBC ar raglenni rwydwaith a wneir yn y DU, creu amrywiaeth briodol o raglenni rhwydwaith yn y DU, mewn amrywiaeth briodol o ganolfannau cynhyrchu yng Nghymru)	2.42; 2.44
Gwasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU (Rhaglenni Rhwydwaith)	Cwota ar gyfer rhaglenni rhwydwaith a wneir yng Ngogledd Iwerddon bob Blwyddyn Galendr (3% o'r oriau o raglenni rhwydwaith a wneir yn y DU, 3% o wariant y BBC ar raglenni rhwydwaith a wneir yn y DU, creu amrywiaeth briodol o raglenni rhwydwaith yn y DU, mewn amrywiaeth briodol o ganolfannau cynhyrchu yng Ngogledd Iwerddon)	2.43; 2.44
Radio 1	Cwota dyddiol ar gyfer rhaglenni newyddion (1 awr), gan gynnwys dau fwletin estynedig, ac un o'r rheini yn ystod Oriau Brig	2.8.1
Radio 1	Rhaglenni newyddion rheolaidd yn ystod y dydd ar benwythnosau	2.8.2
Radio 1	Cwota blynyddol ar gyfer rhaglenni dogfen sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf (40 awr)	2.24
Radio 1	Cwota blynyddol ar gyfer cerddoriaeth gan artistiaid y DU yn ystod y Dydd (45%)	2.36.1
Radio 1	Cwota blynyddol ar gyfer Cerddoriaeth Newydd yn ystod y Dydd (50%), a chyfran sylweddol o'r rhain gan artistiaid newydd ac sy'n datblygu o'r DU.	2.36.2
Radio 1	Cwota wythnosol ar gyfer Cerddoriaeth Arbenigol (60 awr)	2.36.3
Radio 1	Cwota blynyddol ar gyfer sesiynau newydd (175)	2.36.4
Radio 1	Amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth (sawl gwaith caiff caneuon eu chwarae a maint y rhestr chwarae) o gymharu â darparwyr tebyg yn ystod Oriau Brig ac yn ystod y Dydd	2.36.5
1Xtra	Cwota ar gyfer newyddion yn ystod y Dydd ar ddiwrnodau gwaith (1 awr, gan gynnwys dau fwletin estynedig)	2.9.1
1Xtra	Bwletinau rheolaidd yn ystod y Dydd ar benwythnosau.	2.9.2

1Xtra	Cwota blynyddol ar gyfer nifer rhaglenni dogfen (40)	2.25
Radio 2	Cwota wythnosol ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (17 awr, a 3 o'r rheini yn ystod Oriau Brig)	2.10.1
Radio 2	Bwletinaw newyddion rheolaidd	2.10.2
Radio 2	Cwota blynyddol ar gyfer rhaglenni celfyddydol (100 awr)	2.26.1
Radio 2	Cwota blynyddol ar gyfer rhaglenni dogfen (130 awr)	2.26.2
Radio 2	Cwota blynyddol ar gyfer allbwn crefyddol i ystod eang o grefyddau (170 awr)	2.26.3
Radio 2	Cwota blynyddol ar gyfer cerddoriaeth gan artistiaid o'r DU yn ystod y Dydd (40%)	2.37.1
Radio 2	Cwota blynyddol ar gyfer Cerddoriaeth Newydd yn ystod y Dydd (20%), a chyfran sylweddol o'r rhain gan artistiaid newydd ac sy'n datblygu o'r DU.	2.37.2
Radio 2	Cwota blynyddol ar gyfer cerddoriaeth fyw (260 awr)	2.37.3
Radio 2	Cwota blynyddol ar gyfer rhaglenni cerddoriaeth arbennig (1,100 awr)	2.37.4
Radio 2	Amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth (sawl gwaith caiff caneuon eu chwarae a maint y rhestr chwarae) o gymharu â darparwyr tebyg yn ystod Oriau Brig ac yn ystod y Dydd	2.37.5
Radio 3	Newyddion yn achlysurol drwy gydol y dydd	2.11
Radio 3	Cwota blynyddol ar gyfer cerddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig (45%)	2.27.1
Radio 3	Cwota blynyddol ar gyfer perfformiadau wedi'u recordio'n arbennig (45%)	2.27.2
Radio 3	Cwota blynyddol ar gyfer comisiynu gweithiau cerddorol newydd (25)	2.27.3
Radio 3	Cwota blynyddol ar gyfer rhaglenni dogfen newydd am bynciau celfyddydol a diwylliannol (35)	2.27.4
Radio 3	Cwota blynyddol ar gyfer gwariant perthnasol y tu allan i ardal yr M25 (40%)	2.48
Radio 4	Cwota blynyddol ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (2,750 awr)	2.12.1
Radio 4	Darparu adroddiadau dyddiol ynghylch gweithgareddau Seneddol pan mae'r Senedd yn eistedd	2.12.2
Radio 4	Cwota blynyddol ar gyfer rhaglenni dogfen gwreiddiol sy'n ymdrin ag amrywiaeth helaeth o bynciau (375 awr)	2.28.1

Radio 4	Cwota blynyddol ar gyfer rhaglenni crefyddol gwreiddiol (200 awr)	2.28.2
BBC Radio 5 live	Cwota blynyddol ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (75% o'r allbwn)	2.13.1
BBC Radio 5 live	Darpariaeth helaeth ynghylch etholiadau (lleol, cyffredinol, a'r siambrau datganoledig) yn ogystal â darpariaeth reolaidd ynghylch gwleidyddiaeth Ewrop a gwleidyddiaeth ryngwladol.	2.13.2
BBC Radio 5 live	Cwota blynyddol ar gyfer sylwebaeth fyw, newyddion a rhaglenni eraill mewn perthynas ag 20 o chwaraeon	2.38
BBC 6 Music	Cwota wythnosol ar gyfer newyddion (6 awr)	2.14
BBC 6 Music	Cwota wythnosol ar gyfer traethodau, rhaglenni dogfen ac eitemau llafar (10 awr ar gyfartaledd bob Blwyddyn)	2.29
BBC Asian Network	Cwota wythnosol ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (24 awr)	2.15
BBC Radio Scotland	Cwota blynyddol ar gyfer cynnwys llafar (60% yn ystod oriau craidd, 100% yn ystod oriau brig amser brecwast)	2.53
BBC Radio Scotland	Cwota wythnosol ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (50 awr)	2.63.1
BBC Radio Scotland	nifer o wasanaethau eithrio rhanbarthol bob diwrnod gwaith, yn ogystal â rhywfaint o raglenni cymunedol rhanbarthol gyda'r nos	2.63.2
BBC Radio Scotland	Cynnwys a cherddoriaeth perthnasol i'r Alban yn benodol	2.63.3
BBC Radio nan Gàidheal	Cwota blynyddol ar gyfer cynnwys llafar (60% yn ystod oriau craidd, 100% yn ystod oriau brig amser brecwast)	2.53
BBC Radio nan Gàidheal	Newyddion cyson drwy gydol y dydd	2.64.1
BBC Radio nan Gàidheal	Cynnwys a cherddoriaeth perthnasol i'r Alban yn benodol	2.64.2
BBC Radio Wales	Cwota blynyddol ar gyfer cynnwys llafar (60% yn ystod oriau craidd, 100% yn ystod oriau brig amser brecwast)	2.53; 2.60; 2.61
BBC Radio Wales	Cwota wythnosol ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (32 awr)	2.69.1
BBC Radio Wales	Cynnwys a cherddoriaeth perthnasol i Gymru yn benodol	2.69.2
BBC Radio Cymru	Cwota blynyddol ar gyfer cynnwys llafar (60% yn ystod oriau craidd, 100% yn ystod oriau brig amser brecwast)	2.53
BBC Radio Cymru	Cwota wythnosol ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (23 awr)	2.70.1
BBC Radio Cymru	Cynnwys a cherddoriaeth perthnasol i Gymru yn benodol	2.70.2

BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle	Cwota blynyddol ar gyfer cynnwys llafar (60% yn ystod oriau craidd, 100% yn ystod oriau brig amser brecwast)	2.53
BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle	Cwota wythnosol ar gyfer newyddion a materion cyfoes (gan gynnwys ailddarllediadau) (35 awr ar gyfer BBC Radio Ulster, 20 awr ar gyfer Radio Foyle)	2.76.1
BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle	Cynnwys a cherddoriaeth perthnasol i Ogledd Iwerddon yn benodol	2.76.3
BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle	Cwota blynyddol ar gyfer rhaglenni mewn ieithoedd brodorol lleiafrifol, gan gynnwys Gwyddeleg a Gaeleg Ulster (240 awr)	2.76.4
BBC Local Radio (pob gorsaf yn Lloegr)	Newyddion a gwybodaeth yn achlysurol drwy gydol y dydd, sy'n berthnasol i'r ardaloedd a'r cymunedau yn benodol, a chynnwys arall perthnasol	2.56
BBC Local Radio (pob gorsaf yn Lloegr)	Cwota wythnosol ar gyfer rhaglenni wedi'u gwneud yn lleol (95 awr), ac eithrio BBC Radio Guernsey; BBC Radio Jersey; a BBC Radio Somerset	2.57; 2.58
Pob gwasanaeth BBC Local Radio	Cwota blynyddol ar gyfer cynnwys llafar (60% yn ystod oriau craidd, 100% yn ystod oriau brig amser brecwast)	2.53
Gwasanaethau Radio Cyhoeddus y DU	Cwota blynyddol ar gyfer gwariant y tu allan i ardal yr M25 (33.3% o'r gwariant perthnasol, gyda rhywfaint o wariant mewn perthynas â gwasanaethau Radio 1, Radio 2, Radio 3, Radio 4, a BBC Radio 5 live	2.46; 2.47
BBC Ar-lein	Digon o ddolenni i ddeunydd gan drydydd partïon	2.16
BBC Ar-lein	Cynnwys sy'n cynorthwyo plant a phobl ifanc â'u haddysg ffurfiol ym mhob rhan o'r DU	2.30
BBC Ar-lein	Cynnwys Gaeleg	2.65.1
BBC Ar-lein	Darpariaeth chwaraeon penodol i'r Alban	2.65.2
BBC Ar-lein	Cynnwys Cymraeg	2.71.1
BBC Ar-lein	Darpariaeth chwaraeon penodol i Gymru	2.71.2
BBC Ar-lein	Cynnwys Gwyddeleg a Gaeleg Ulster	2.77.1
BBC Ar-lein	Darpariaeth chwaraeon penodol i Ogledd Iwerddon	2.77.2
Gwasanaethau Cyhoeddus y DU (Amrywiaeth)	Adroddiad blynyddol yn dangos sut mae'r BBC wedi ystyried, gwasanaethu a darparu cynnwys ar gyfer ei gynulleidfa, yn ogystal â chynrychioli a phortreadu yn gywir ac yn ddiwyll, a chodi ymwybyddiaeth o ddiwylliannau gwahanol a safbwyntiau amgen ledled y DU.	2.78

Gwasanaethau Cyhoeddus y DU (Amrywiaeth)	Cydymffurfio â chod ymddygiad yng nghyswllt comisiynu, er mwyn sicrhau bod cynnwys yn cynrychioli'n gywir a rhoi portread dilys o'r cymunedau amrywiol ledled y DU	2.81
Gwasanaethau Cyhoeddus y DU (Amrywiaeth)	Mesur boddhad cynulleidfaoedd mewn perthynas â sut mae'r BBC yn cynrychioli, yn portreadu ac yn gwasanaethu cynulleidfaoedd amrywiol, ac adrodd ar hynny; yn ogystal â nodi camau i'w cymryd er mwyn gwella boddhad cynulleidfaoedd, yn enwedig ymysg carfannau o'r gynulleidfa sy'n anfodlon	2.79; 2.80

Atodlen 4

Gwasanaethau Cyhoeddus y DU

5.1 Mae'r Drwydded yn berthnasol i Wasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU. Dyma'r gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys ar y rhestr a gyhoeddwyd gan y BBC yn unol â Rhan 1 o Atodlen 1 y Cytundeb, a bydd yn cael ei addasu gan y BBC o bryd i'w gilydd. Gallai newid Gwasanaethau Cyhoeddus y DU yn sylweddol olygu y byddai angen diwygio'r rhestr.

5.2 Mae'r Cytundeb yn nodi'r rhestr gychwynnol o Wasanaethau Cyhoeddus y DU²⁶. Rydyn ni wedi atgynhyrchu'r rhestr honno yma i'w gwneud yn haws cyfeirio ati:

(1) Gwasanaethau teledu wedi'u llunio ar gyfer cynulleidfaoedd ledled y Deyrnas Unedig:

- (a) BBC One: sianel genres cymysg, â fersiynau ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac amrywiadau ar gyfer rhanbarthau o Loegr ac Ynysoedd y Sianel, sy'n darparu amrywiaeth helaeth o raglenni ar gyfer cynulleidfa prif ffrwd;
- (b) BBC Two: sianel genres cymysg, â fersiynau ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, sy'n darparu amrywiaeth helaeth o raglenni ar gyfer cynulleidfa prif ffrwd, ond sy'n canolbwyntio'n benodol ar raglenni ffeithiol, drama a chomedi arloesol;
- (c) BBC Four: sianel sy'n darparu cynnwys deallusol a diwylliannol amgen, sy'n wahanol i raglenni prif ffrwd ar sianeli eraill y BBC;
- (d) CBeebies: sianel sy'n darparu rhaglenni i addysgu a difyrru plant ifanc iawn;
- (e) CBBC: sianel ag amserlen gymysg ar gyfer plant o dan 13 oed;
- (f) BBC News: sianel newyddion dreigl sy'n darparu newyddion, dadansoddiadau a rhaglenni rhyngwladol eraill;
- (g) BBC Parliament: sianel sydd â darpariaeth fyw helaeth o ddadleuon a phwyllgorau Seneddau a Chynulladau'r Deyrnas Unedig, a darpariaeth wleidyddol arall; a
- (h) BBC Red Button: cynnwys digidol rhyngweithiol sy'n cynnwys newyddion a gwybodaeth arall. Mae'n sefyll ar ei draed ei hun ac yn cefnogi gwasanaethau llinol eraill, yn ogystal â rhoi mynediad i gynnwys y BBC nad yw'n llinol, a modd o chwilio drwyddo.

(2) Gwasanaethau radio wedi'u llunio ar gyfer cynulleidfaoedd ledled y Deyrnas Unedig:

- (a) Radio 1: gwasanaeth cerddoriaeth boblogaidd yn bennaf, sydd wedi'i anelu at gynulleidfaoedd ifanc. Mae wedi ymrwymo i gynnwys y gerddoriaeth newydd orau, yn ogystal ag allbwn llafar sylweddol;
- (b) 1Xtra: gwasanaeth cerddoriaeth gyfoes gan artistiaid du, sy'n canolbwyntio ar gerddoriaeth newydd a cherddoriaeth fyw, ynghyd â darparu allbwn llafar sylweddol ar gyfer cynulleidfaoedd ifanc;
- (c) Radio 2: gwasanaeth sy'n darparu amrywiaeth helaeth o gerddoriaeth boblogaidd ac arbenigol yn ogystal ag allbwn llafar gan gynnwys newyddion, materion cyfoes a rhaglenni ffeithiol;

²⁶ Paragraff 1(2) a pharagraff 2 o Ran 1, Atodlen 1 i'r Cytundeb.

- (d) Radio 3: gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar gerddoriaeth glasurol, yn ogystal â cherddoriaeth a chelfyddyd eraill ac allbwn llafar, gyda ffocws penodol ar gerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio'n arbennig;
 - (e) Radio 4: gwasanaeth llafar sy'n cynnwys newyddion, materion cyfoes, rhaglenni ffeithiol, drama, darlleniadau a chomedi;
 - (f) BBC 4 Extra: gwasanaeth llafar sy'n darparu comedi, drama a darlleniadau, o archif y BBC yn bennaf;
 - (g) BBC Radio 5 live: darpariaeth newyddion a chwaraeon 24 awr;
 - (h) BBC Radio 5 live sports extra: estyniad rhan-amser i BBC Radio 5 live sydd â darpariaeth ychwanegol ar gyfer digwyddiadau chwaraeon;
 - (i) BBC 6 Music: gwasanaeth cerddoriaeth boblogaidd y tu allan i'r brif ffrwd bresennol, ynghyd ag allbwn llafar sy'n darparu cyd-destun ar gyfer y gerddoriaeth honno; a
 - (j) BBC Asian Network: gwasanaeth sy'n darparu amrywiaeth helaeth o newyddion, cerddoriaeth a rhaglenni ffeithiol ar gyfer cynulleidfaoedd Asiaidd yn y DU.
- (3) Gwasanaethau teledu a radio ar gyfer cynulleidfaoedd mewn rhannau penodol o'r Deyrnas Unedig:
- (a) BBC Radio Scotland: gwasanaeth radio sydd ar gael ledled yr Alban, a chanddo amserlen gymysg o allbwn llafar a cherddoriaeth;
 - (b) BBC Radio nan Gàidheal: gwasanaeth radio yn yr Alban sy'n cynnwys rhaglenni Gaeleg;
 - (c) BBC Radio Wales: gwasanaeth radio sydd ar gael ledled Cymru, a chanddo amserlen gymysg o allbwn llafar a cherddoriaeth;
 - (d) BBC Radio Cymru: gwasanaeth radio ledled Cymru sy'n cynnwys rhaglenni Cymraeg;
 - (e) BBC Radio Ulster a BBC Radio Foyle: gwasanaeth radio a chanddo amserlen gymysg o allbwn llafar a cherddoriaeth, sydd ar gael ar BBC Radio Ulster ledled Gogledd Iwerddon, ac eithrio'r adegau penodol pan mae BBC Radio Foyle yn cael ei ddarparu yn ardaloedd gorllewinol Gogledd Iwerddon;
 - (f) BBC Local Radio: nifer o wasanaethau radio lleol ar gyfer cynulleidfaoedd mewn gwahanol rannau o Loegr ac Ynysoedd y Sianel, sy'n darparu cymysgedd o allbwn llafar a cherddoriaeth; a
 - (g) BBC Alba: sianel deledu genres cymysg ar gyfer siaradwyr Gaeleg a'r rheini sydd â diddordeb mewn iaith a diwylliant Gaeleg, a ddarperir gan y BBC mewn partneriaeth ag MG Alba.
- (4) Gwasanaethau ar-lein wedi'u llunio ar gyfer defnyddwyr ledled y Deyrnas Unedig, BBC Ar-lein: gwasanaeth cynnwys ar-lein cynhwysfawr, sy'n gwasanaethu holl Ddibenion Cyhoeddus y BBC, gan gynnwys gwefannau newyddion a chwaraeon y BBC, BBC iPlayer a BBC Three ar gyfer oedolion iau.

Dear Ms. Jenkins,

I am writing to you regarding the Save Womanby Street campaign. It is vital that we protect the music and culture that define Cardiff, at the heart of which are the music venues in Womanby Street.

Recent developments have highlighted the danger that our remaining venues could face, if residential properties are allowed to be built next door to existing music venues.

Cardiff Council could and should protect Womanby Street as a specific area of cultural significance. The Local Development Plan can include this, enabling protection for the existing venues. I understand that the council need to ensure there are sufficient homes for a growing population, but there are numerous alternative sites available within the city.

One only has to visit Womanby Street during a music festival to see the range of different people to whom music is important, from grandparents, to students, to parents pushing baby buggies. People in attendance are not only from the residential population of Cardiff but from surrounding areas as well as countries as far away as Canada.

Additionally, these visitors have a knock-on positive effect on the city's economic outlook, as they also spend money in hotels, shops and restaurants whilst attending music events. A recent survey by UK Music identified a total direct and indirect spend of a £52 million generated in Cardiff from music tourism in 2015, with a total of 741 full time jobs generated from same.

I hope that as Chair of the Culture, Welsh Language and Communications Committee you will be able to raise this concern about Womanby Street, protecting an important area for the enjoyment of the residential population and visitors for years to come.

Please help to retain Cardiff as the capital of the land of song, not apartments.

I look forward to your reply. Thank you.

Yours sincerely,
Beverly Francis B.A.

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg
a Chyfathrebu
Culture, Welsh Language and
Communications Committee
CWLC(5)-14-17 PTN?

Tudalen y pecyn 189

Bethan Jenkins AC
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

25 Ebrill 2017

Par. Y Darlun Mawr - Safbwyntiau cychwynnol y Pwyllgor ar Ddarlledu yng Nghymru



Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi a'ch Pwyllgor am eich adroddiad treiddgar am ddarlledu a'r cyfryngau yng Nghymru, ac yn benodol eich argymhellion sy'n berthnasol i wasanaethau S4C.

Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr argymhellion eich Pwyllgor parthed ariannu S4C ac amlygrwydd gwasanaethau darlledu cyhoeddus ar Ganllawiau Rhaglenni Elegtroneg.

Mae eich llythyr dyddiedig 23 Chwefror atom yn gofyn i ni roi gwybod i chi pe byddai gennym unrhyw bryderon am yr argymhelliad parthed gosod Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol S4C gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Hoffwn gadarnhau'n ffurfiol nad oes gennym unrhyw bryderon parthed yr argymhelliad, ac y byddwn yn falch o'r cyfle i drafod ein hadroddiad gyda'r aelodau.

Rwy'n edrych ymlaen at eich cyfarfod eto'n fuan pan gawn gyfle i drafod materion yn ymwneud â dyfodol S4C ymhellach gyda'ch Pwyllgor ar 18 Mai.

Yn gywir



HUW JONES
Cadeirydd S4C



Uned 2, Cibyn, Caernarfon, Gwynedd LL55 3AW

Bethan Jenkins AC
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

27 Ebrill 2017

Annwyl Gadeirydd,

Diben y llythyr hwn ydy cyflwyno ymateb TAC i 'Gwthio'r Ffiniau', y ddogfen a gyhoeddwyd gan S4C yn gynharach y mis hwn i chi fel pwyllgor.

Gan fod y ddogfen wedi ei chyhoeddi ar ôl ein sesiwn dystiolaeth a'n gohebiaeth flaenorol, rydym yn awyddus i ddatgan bod S4C wedi cyflwyno achos cryf dros ddull ariannu gwirioneddol gynaliadwy yn ein tyb ni.

Mae S4C wedi datgan yn eglur ei huchelgais i fod yn wasanaeth cynnwys cyfryngau o safon wirioneddol uchel, ac i dywys yr iaith Gymraeg yn bellach i'r unfed ganrif ar hugain ar gynifer o lwyfannau â phosibl. Bydd hyn yn ffactor pwysig i Lywodraeth Cymru ei hystyried wrth wireddu eu targed o gyfleu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Er mwyn iddi gyflawni hyn, mae angen cynnydd sylweddol ar S4C yn lefel ei hariannu, a hynny am ddau reswm.

Yn gyntaf, mae'r ddogfen yn datgan bod angen £6m yn ychwanegol ar y sianel i alluogi iddi gynnal presenoldeb ar amrywiaeth o lwyfannau, ymhle bynnag mae ei chynulleidfya, a hynny ar ben parhau i ddarparu cynnwys mor gyfoes â phosibl drwy gyfrwng y Gymraeg.

Fel y trafodwyd yn ystod sesiwn dystiolaeth TAC, mae gofyn i gynnwys sy'n cael ei ddarparu i ddarllledwr fel S4C gael ei gynhyrchu'n broffesiynol er mwyn cynnal sylw'r gwylwyr a sicrhau bod y cynnwys hwnnw'n cynrychioli S4C ar ei gorau. Yn achos gofod ar-lein yn yr un modd, mae angen i unrhyw ddarn o gynnwys sy'n gysylltiedig â darllledwr gynrychioli safon a gwreiddioldeb ei allbwn. I ddyfynnu'r ddogfen: *'Fodd bynnag, mae angen newid sylweddol o hyd i ddarparu cynnwys ffurf-fer gwirioneddol wreiddiol, difyr, digidol yn gyntaf, fel ffilmiau byrion â thema neu gyfres o we-benodau.'* (t. 32).

Yn ail, eglura S4C fod cost gyfartalog yr awr ei rhaglenni eisoes yn llawer is na chyfraddau darllledwyr eraill, ac y cyflawnwyd hyn drwy wneud arbedion yn y sector cynhyrchu annibynnol, a thrwy fanteisio ar gwmp cymedrol ym mhris technoleg. Ond nawr, rydyn ni wedi cyrraedd pwynt lle mae galw cynyddol am gynnwys sy'n gweithio'n dda ar systemau

megis HD ac UHD, ac yn sgil hynny, mi allem ni weld patrymau costau cynhyrchu'n codi eto fyth yn hytrach na disgyn.

Hyd yn oed o ddiystyru ffactorau o'r fath, mae ffigyrau S4C ei hun yn rhagweld y bydd ei chyllideb cynnwys yn gostwng mewn gwerth dros y blynyddoedd nesaf. Bydd angen buddsoddiad ychwanegol er mwyn arbed y gostyngiad hwnnw a gwrthbwysu effaith chwyddiant yn sylweddol. Oherwydd effaith chwyddiant, dywed S4C yn y ddogfen fod angen '*cynnydd blynyddol sy'n tyfu o tua £2m ym mlwyddyn un hyd at tua £9m ym mlwyddyn pump dim ond er mwyn atal y gostyngiad mewn termau real yn y gyllideb cynnwys dros y pum mlynedd nesaf.*' (t. 30).

Yn ogystal, mae angen dybryd i ostwng lefelau ailddarlledu rhaglenni o'r 58% cyfredol ar y sianel linol, sydd wedi cynyddu o 54% yn 2010. Fel y dywed y ddogfen, mae hyn yn sylweddol uwch na chyfraddau ailddarlledu ar BBC1 ac ITV1, er enghraifft, sef 23% a 28% yn eu trefn yn 2016 yn ôl Ofcom.

Mae ymchwil annibynnol yn dangos bod pob £1 mae S4C yn ei gwario yn economi Cymru'n creu gwerth o £2.09, felly mi fuasai diogelu'r arian yn ysgogiad difrifol i greu swyddi a sefydlu busnesau cynaliadwy ar adeg pan rydyn ni'n wynebu ansicrwydd economaidd cynyddol.

Mi fuasai TAC, felly, yn annog y Pwyllgor i gefnogi ein cynnig y dylid cynyddu incwm cyhoeddus S4C gan swm sy'n cyfateb i 10% o gyfanswm ei lefel ariannu cyhoeddus cyfredol gan DCMS a Ffi'r Drwydded Deledu at ei gilydd. Dylai'r 10% hwn fod **yn atodol i'r** £6m y cyfeirir ato yn nogfen S4C er mwyn ei galluogi i ddarparu cynnwys ar bob llwyfan. O ganlyniad, buasai'r cynnydd yn y flwyddyn gyntaf oddeutu £14.3m.

Byddai'n angenrheidiol sicrhau bod y cynnydd ychwanegol hwn yn cael ei ddiogelu rhag unrhyw gynnydd pellach i lefel chwyddiant yn y dyfodol.

Gobeithio bydd y sylwadau pellach hyn o ddiddordeb i chi, ac mi fuasem yn hapus i ddarparu mewnbyn ychwanegol petai'r Pwyllgor yn dymuno i ni wneud hynny.

Yn gywir



Iestyn Garlick, Cadeirydd